# Cod Ymarfer

## Cyfraith Bwyd (Cymru)

(Cyhoeddwyd Gorffennaf 2021)

# Cod Ymarfer

## Cyfraith Bwyd (Cymru)

**(Cyhoeddwyd Gorffennaf 2021)**

Fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 40(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 6(1) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (OS 2009/3376) a Rheoliad 24(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (OS 2006/31)

**Asiantaeth Safonau Bwyd**

## Cynnwys

**Pennod 1 Cyflwyniad ........................................................................................1**

**Pennod 2 Gweinyddu, cysylltu, a chydgysylltu ......................................................3**

2.1 Cyflwyniad ........................................................................................3

2.2 Gofynion cyffredinol ........................................................................................3

2.3 Gwyro oddi wrth y Cod ........................................................................................4

2.4 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni cofnodedig 4

2.4.1 Gweithdrefnau a/neu drefniadau cofnodedig ..........................................5

2.4.2 Polisïau cofnodedig ........................................................................................8

2.4.3 Cynlluniau, rhaglenni a strategaethau cofnodedig ..........................................9

2.5 Dynodi Awdurdodau Bwyd ........................................................................................10

2.6 Cyswllt â chyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ..........................................10

2.6.1 Gofynion cyswllt ........................................................................................10

2.6.2 Cyswllt â'r ASB ........................................................................................11

2.6.3 Cyswllt rhwng Awdurdodau Bwyd mewn ardaloedd dwy haen ....................12

2.6.4 Grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol ..........................................................12

2.6.5 Awdurdodau Bwyd mewn mannau cyrraedd ..........................................12

2.7 Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref ..........................................................13

2.7.1 Prif Awdurdod ........................................................................................13

2.7.2 Awdurdod Cartref ........................................................................................14

2.8 Darparu gwasanaethau dewisol ..........................................................15

2.9 Penodi Dadansoddwr Cyhoeddus ..........................................................15

2.10 Cyfleusterau ac offer ........................................................................................16

2.11 Cyfeiriadau e-bost gorfodi ........................................................................................16

2.12 Cofrestru a chymeradwyo sefydliadau busnes bwyd ..........................................17

2.12.1 Gofynion cofrestru a chymeradwyo ..........................................................17

2.12.2 Rhestrau o sefydliadau bwyd ..........................................................17

2.13 Proses gymeradwyo ........................................................................................17

2.13.1 Ceisiadau ........................................................................................17

2.13.2 Penderfynu ar geisiadau i gael cymeradwyaeth ..........................................18

2.13.3 Cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn ....................................18

2.13.4 Gwrthod cymeradwyaeth ........................................................................................19

2.13.5 Newid gweithgareddau, perchnogaeth neu fanylion ....................................19

2.13.6 Sefydliadau y credir eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau y mae angen eu cymeradwyo ....20
2.14 Cadw cofnodion ....20
**Pennod 3 Awdurdodi, cymwysterau, a chymhwysedd ....21**
3.1 Cyflwyniad ....21
3.2 Dirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ....22
3.2.1 Dirprwyo i swyddogion awdurdodi ....22
3.2.2 Dirprwyo i Awdurdodau Bwyd eraill ....22
3.3 Awdurdodi ....25
3.3.1 Penodi staff ....25
3.3.2 Awdurdodi swyddogion ....25
3.3.3 Swyddogion awdurdodedig ....26
3.3.4 Swyddogion bwyd arweiniol ....26
3.3.5 Swyddogion cymorth rheoleiddio ....27
3.4 Cymwysterau gofynnol ....27
3.4.1 Hylendid bwyd ....27
3.4.2 Safonau bwyd ....28
3.4.3 Hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd ....29
3.4.4 Cymwysterau cyfwerth ....30
3.5 Gofynion ar gyfer staff sy'n ymgymryd â rheolaethau mewnforio ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid mewn Mannau Rheoli ar y Ffin ....30
3.5.1 Arolygwyr pysgod swyddogol ....30
3.5.2 Gwiriadau dogfennol a gwiriadau hunaniaeth ....31
3.5.3 Gwiriadau ffisegol ....31
3.5.4 Penderfyniadau ar lwythi o gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid ....31
3.6 Gofynion ar gyfer staff sy’n cynnal rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion nad ydynt yn dod o anfeiliaid ar Fannau Rheoli ar y Ffin ....32
3.7 Gofynion cymwyseddau ....32
3.8 Gofynion hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ....32
3.8.1 Rhaglenni hyfforddi ....33
**Pennod 4 Cynnal ymyriadau ....34**
4.1 Cyflwyniad ....34
4.2 Cynnal rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ....34
4.2.1 Rhoi gwybod am reolaethau bwyd swyddogol ....35
4.2.2 Cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol ....35

4.2.3 Cofnodion ysgrifenedig am reolaethau bwyd swyddogol ............................36
4.2.4 Arolygiadau cychwynnol ...................................................................................36
4.3 Cynlluniau sgorio ymyriadau bwyd ....................................................................37
4.3.1 Pa mor aml y dylid cynnal ymyriadau, a gofynion dull o weithredu sy’n seiliedig ar risg ............................................................................................................................37
4.3.2 Adolygu sgoriau ymyrryd ..................................................................................38
4.3.3 Strategaeth Orfodi Amgen .................................................................................38
4.4 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau, a gofynion dull sy’n seiliedig ar risg ......38
4.4.1 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau hylendid bwyd...............................38
4.4.2 Amlder ymyriadau safonau bwyd ...............................................................40
4.4.3 Cynhyrchu cynradd .........................................................................................40
4.5 Samplu ....................................................................................................................41
4.6 Rheolaethau mewnforio ........................................................................................41
4.6.1 Swyddog enwebedig ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio ..................................41
4.6.2 Rheolaethau mewndirol ...................................................................................42
4.6.3 Rheolaethau swyddogol ar ddulliau cludo a phecynnu ..............................44
4.6.4 Dim presenoldeb parhaol wrth bwynt mynediad ........................................44
**Pennod 5 Digwyddiadau, rhybuddion, a throseddau bwyd ..................................45**
5.1 Cyflwyniad ...............................................................................................................45
5.2 Digwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd ..............................................................45
5.2.1 Digwyddiadau bwyd ........................................................................................45
5.2.2 Peryglon bwyd ..................................................................................................45
5.3 Camau i’w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd .......................................................46
5.3.1 Ymateb pan fydd yr ASB yn cysylltu ag ef cyn digwyddiad........................46
5.3.2 Digwyddiadau y mae mwy nag un Awdurdod Bwyd yn rhan ohonynt .........46
5.3.3 Asesu peryglon bwyd........................................................................................47
5.3.4 Halogi bwriadol ac ymyrraeth faleisus...........................................................48
5.3.5 Peryglon bwyd sy’n gysylltiedig ag achosion o salwch a gludir gan fwyd ...49
5.3.6 Digwyddiadau bwyd nad ydynt yn beryglus ................................................49
5.3.7 Mynediad at wybodaeth ....................................................................................50
5.4 Rhybuddion Bwyd .................................................................................................50
5.4.1 Diffiniadau ........................................................................................................50
5.4.2 Cyfleusterau i dderbyn Rhybuddion Bwyd a diweddariadau .......................50
5.4.3 Camau i’w cymryd gan Awdurdodau Bwyd pan fydd Rhybuddion Bwyd yn dod i law .........................................................................................................................51

5.4.4 Cysylltiadau â’r cyfryngau – Rhybuddion Bwyd .....51
5.5 Mynd i'r afael â throseddau bwyd .....51
5.5.1 Rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd .....51
5.5.2 Twyll a throseddau bwyd .....52
5.5.3 Rhoi gwybod i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd am droseddau bwyd posibl 53
5.6 Cyfathrebu a chyswllt rhwng Awdurdodau Bwyd a gwledydd tu allan i'r DU .....53
5.6.1 Rhoi gwybod am beryglon neu ddigwyddiadau bwyd sy’n ymwneud â bwyd wedi’i fewnforio .....53
5.6.2 Rhoi gwybod am faterion trawsffiniol .....53
5.6.3 Cysylltu a chyfathrebu â gwledydd tu allan i'r DU .....53
5.6.4 Datgelu gwybodaeth i wledydd tu allan i'r DU .....54
5.6.5 Cyfathrebu â Safonau Bwyd yr Alban .....54
5.7 Gwasanaeth tu allan i oriau arferol .....54
**Pennod 6 Gorfodi .....55**
6.1 Cyflwyniad .....55
6.2 Cymesuredd a chysondeb .....55
6.3 Hierarchaeth y camau gorfodi .....55
6.4 Ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio .....56
6.4.1 Achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio .....56
6.4.2 Achosion pendant o ddiffyg cydymffurfio .....56
6.5 Ailymweliadau .....57
6.5.1 Y gofyniad i ailymweld – hylendid bwyd .....57
6.5.2 Y gofyniad i ailymweld – safonau bwyd .....57
6.6 Gweithredu yn ardal Awdurdod Bwyd arall .....58
**Pennod 7 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw .....59**
7.1 Cyflwyniad .....59
7.2 Trefniadau cyswllt .....59
7.3 Dogfennau cofrestru ac awdurdodiadau cludo parhaol .....59
7.3.1 Dogfennau cofrestru ar gyfer molysgiaid dwygragennog byw .....59
7.3.2 Awdurdodiadau cludo parhaol .....60
7.3.3 Archwilio dogfennau cofrestru .....60
7.3.4 Canolfannau puro .....60
7.3.5 Samplu fel rhan o’r arolygiad .....61

7.4 Ardaloedd cynhyrchu ac ailosod....61
7.4.1 Monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod....61
7.4.2 Molysgiaid dwygragennog byw wedi'u mewnforio....61
7.5 Hysbysiadau cau (cau ardaloedd cynaeafu dros dro) ....62
**Rhestr o dermau ....64**
**Atodiad 1 – Cynlluniau Sgorio Ymyriadau Sefydliadau Bwyd ....77**

# Pennod 1 Cyflwyniad

Cyhoeddir Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod) o dan adran 40(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (y Ddeddf), Rheoliad 6(01) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 a Rheoliad 24(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ymarfer sy'n ymwneud â gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth honno gan Awdurdodau Bwyd.

At ddibenion y Cod hwn, defnyddir y term 'Awdurdod Bwyd' yn lle'r term Awdurdod Cymwys, oni chyfeirir at Awdurdod Bwyd nad yw'n awdurdod lleol, fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Yn y sefyllfaoedd hyn, mae i'r term a ddefnyddir yr ystyr a nodir yn y Rhestr o Dermau.

Mae'r Cod:

- wedi'i ysgrifennu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru;
- wedi'i gyfeirio at Awdurdodau Lleol (Awdurdodau Bwyd) sy'n gyfrifol am gyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill;
- yn amlinellu sut y mae gofynion Rheoliad (UE) 2017/625[1] yn berthnasol i Awdurdodau Bwyd i sicrhau ansawdd, cysondeb, effeithiolrwydd a phriodoldeb rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill;
- yn disgrifio'r dull i'w ddefnyddio i sicrhau bod y modd y mae Awdurdodau Bwyd ac asiantaethau perthnasol eraill y llywodraeth, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r ASB, yn cyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael ei gydgysylltu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae ar Awdurdodau Bwyd ddyletswydd statudol i wneud y pethau hyn:

- gorfodi gofynion y gyfraith bwyd
- rhoi sylw dyledus i ddarpariaethau perthnasol y Cod
- cyflawni eu dyletswyddau statudol mor effeithiol â phosibl, gan ddefnyddio'r dulliau sydd fwyaf priodol yn ôl yr amgylchiadau

Mae hyn yn dibynnu ar i'r swyddogion awdurdodedig:

- ddeall gofynion y gyfraith bwyd
- cyfeirio at y gyfraith ei hun, y Cod a chanllawiau eraill
- gofyn am arweiniad pan fyddant yn ansicr

Mae'r Deyrnas Unedig (DU) wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu, o 1 Ionawr 2021, bod deddfwriaeth benodol yr UE sy'n uniongyrchol gymwys wedi ei throsi'n gyfraith y DU. Cyfeirir at y gyfraith a drosir fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir'. Mae'r Ddeddf hon yn darparu pwerau i gywiro cyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol fel cyfraith

[1] Rheoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a'r rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, yn cael eu rhoi ar waith

y DU. Ymhlith enghreifftiau o gyfraith yr UE a ddargedwir o ran bwyd a bwyd anifeiliaid mae Rheoliad (CE) 178/2002 ar y Gyfraith Bwyd Gyffredinol a Rheoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwyd. Mae’r rhan fwyaf o’r gyfraith diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn gymwys o 1 Ionawr 2021 yn y DU, a hynny i raddau helaeth yn yr un modd ag yr oedd cyn i'r DU ymadael â’r UE[2].

Gwneir pob cyfeiriad at ddeddfwriaeth yn y Cod ar y sail y gall y ddeddfwriaeth gael ei diwygio a/neu ei dirymu. Pan fyddant yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol neu weithgareddau swyddogol eraill, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod yn cyfeirio'n gywir at fersiynau cyfredol o’r ddeddfwriaeth berthnasol y cyfeirir ati yn y Cod.

Os na fydd Awdurdodau Bwyd yn rhoi sylw dyledus i ddarpariaethau perthnasol y Cod, gallai eu penderfyniadau neu’u gweithredoedd gael eu herio'n llwyddiannus, a gallai llys ddyfarnu nad yw tystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymchwiliad troseddol yn dderbyniol.

Ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, caiff yr ASB roi cyfarwyddyd i Awdurdod Bwyd i beri iddi fod yn ofynnol iddo gymryd camau penodol i gydymffurfio â'r Cod.

Caiff yr ASB gyhoeddi canllawiau, gan gynnwys Canllawiau Ymarfer a Chanllawiau Rheoleiddiwr Cenedlaethol, ar gyfer Awdurdodau Bwyd. Gall hyn gynnwys diweddariadau i ddarparu ar gyfer treialon a newidiadau fel rhan o raglen newid sy’n cael ei harwain gan yr ASB.

Rhaid ystyried bod cyfeiriadau:

- at benodau ac adrannau yn cyfeirio at rannau perthnasol o’r Cod oni nodir yn wahanol
- at ddeddfwriaeth yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth honno fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd (oni nodir yn wahanol)

Ar ddiwedd y Cod, ceir rhestr o dermau sy’n diffinio’r termau a’r byrfoddau a ddefnyddir yn y Cod hwn.

[2] Mae cyfeiriadau at Reoliadau’r UE yn y Cod yn gyfeiriadau at gyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*) fel y gwelir ar wefan legislation.gov.uk a dylid ei darllen ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig sy’n ei diwygio.

# Pennod 2 Gweinyddu, cysylltu, a chydgysylltu

## 2.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 2 yn trafod:

- rhwymedigaethau cyffredinol Awdurdodau Bwyd o ran trefnu rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill
- y trefniadau gweinyddol, gan gynnwys dynodi Awdurdodau Bwyd, cofrestru, a chymeradwyo sefydliadau busnes bwyd
- y trefniadau cyswllt[3] i sicrhau:
  - bod Awdurdodau Bwyd, cyrff dirprwyedig, ac adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am reolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cydgysylltu eu gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol
  - bod rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn effeithiol ledled y DU
- atal buddiannau rhag gwrthdaro
- y gofynion monitro i sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn gyson, yn briodol ac yn effeithiol

## 2.2 Gofynion cyffredinol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- rhoi sylw:
  - i'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Canllawiau Ymarfer) pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau
  - i'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (y Cytundeb Fframwaith) sy'n adlewyrchu gofynion y Cod ac yn gyson ag egwyddorion Cod y Rheoleiddwyr
  - i unrhyw ganllawiau priodol
- rhoi gofynion y Cod ar waith i'r un graddau o ran gweithwyr dros dro, staff dan gontract sy'n ymwneud â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a'r gweithwyr hynny a gyflogir gan Awdurdod Bwyd
- os byddant yn tybio bod iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch bwyd yn debygol o gael ei beryglu drwy iddynt gydymffurfio â'r Cod hwn, trafod y mater â'r ASB ar y cyfle cyntaf a chyn iddynt wneud unrhyw benderfyniad
- darparu setiau data perthnasol i'r ASB, fel y nodir ym Mhennod 2 o'r Canllawiau Ymarfer

[3] Erthygl 4(2) o Reoliad (UE) 2017/625

## 2.3 Gwyro oddi wrth y Cod

Gall yr ASB gynghori Awdurdodau Bwyd i wyro oddi wrth y Cod neu roi'r dewis iddynt wyro oddi wrtho yn y sefyllfaoedd a restrir isod:

- pan fydd angen gwyro oddi wrth raglen ymyriadau'r Awdurdod Bwyd sy'n seiliedig ar y cynlluniau sgorio ymyriadau a geir yn y Cod (gan gynnwys y math o ymyriadau a pha mor aml y cânt eu cynnal):
  - yn sgil argyfwng iechyd y cyhoedd;
  - yn sgil argyfwng;
  - i ddarparu ar gyfer gwaith astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau peilot neu brosiectau braenaru a gymeradwywyd gan yr ASB.

Pan fydd sefyllfa o'r fath yn codi, bydd yr ASB yn rhoi gwybod i Awdurdodau Bwyd drwy'r llwyfan a ddefnyddir ganddi i gyfathrebu ag Awdurdodau Bwyd er mwyn gallu adolygu cynllun gwasanaeth yr Awdurdod Bwyd.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- pan gynghorir i wyro oddi wrth y Cod, neu pan roddir dewis iddynt wyro oddi wrtho, sicrhau nad ydynt yn gwyro ymhellach na'r hyn a ganiateir, a sicrhau eu bod yn dilyn unrhyw gyfyngiadau a bennwyd gan yr ASB;
- cysylltu â'r ASB, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, os yw cyngor o'r fath yn tarfu'n sylweddol ar eu gallu i roi rhaglen ymyriadau sy'n seiliedig ar risg ar waith, neu os yw'n debygol o beryglu diogelwch bwyd;
- ymateb i geisiadau gan yr ASB i ddarparu gwybodaeth am y camau a gymerwyd;
- cofnodi unrhyw gamau a gymerwyd.

Cyn rhoi unrhyw gyngor, bydd yr ASB yn ystyried a oes angen i Awdurdodau Bwyd weithredu ar frys i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu fuddiannau defnyddwyr.

## 2.4 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni cofnodedig

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu, gweithredu, cynnal a chyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â gweithdrefnau (a/neu roi trefniadau ar waith, lle bo'n berthnasol), polisïau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau cofnodedig fel y nodir yn adrannau 2.4.1, 2.4.2 a 2.4.3 a Phennod 2 o'r Canllawiau Ymarfer, i sicrhau[4] :

- eu bod yn cael eu llunio gan ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol
- eu bod yn cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer swyddogion awdurdodedig sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol[5]

---

[4] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625; Pennod 2, paragraff 7.2 o'r Cytundeb Fframwaith
[5] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- eu bod yn ystyried deddfwriaeth berthnasol, y Cod a'r Canllawiau Ymarfer, y Cytundeb Fframwaith, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Bwyd, lle bo'n berthnasol
- eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru[6]:
  - yn rheolaidd
  - gan ystyried y profiad a gafwyd
  - pryd bynnag y bydd newidiadau perthnasol yn cael eu gwneud yn y sefydliad, i ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog[7]
- bod unrhyw wyriadau yn cael eu trafod ag unigolion perthnasol ymlaen llaw, bod yr unigolion hynny'n cytuno arnynt, a bod y rhesymau drostynt yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig
- bod camau unioni'n cael eu cymryd ym mhob achos lle caiff diffygion eu nodi[8]
- eu bod yn ymdrin â bwyd wedi'i fewnforio, hylendid bwyd gan gynnwys ar lefel cynhyrchu cynradd, a materion safonau bwyd, lle bo'n berthnasol, gan roi sylw i'r gwaith y mae'n rhesymol ei ddisgwyl o fewn ardal a chyfrifoldebau deddfwriaethol yr Awdurdod Bwyd
- eu bod yn ymdrin yn ddigonol ag unrhyw drefniadau atgyfeirio at Awdurdodau Bwyd mewndirol a/neu Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am fwyd wedi'i fewnforio yn un o fannau cyrraedd y DU, lle bo'n berthnasol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli[9] ar gyfer yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'u gweithgareddau gorfodi i sicrhau:

- bod copïau cyfredol o'r dogfennau priodol, gan gynnwys deddfwriaeth a chanllawiau, ar gael ym mhob lleoliad perthnasol ac i'r holl staff perthnasol
- bod pob newid neu ddiwygiad i'r dogfennau yn cael ei gynnwys o dan yr awdurdodiad cywir a'i fod yn cael ei gyflawni heb oedi gormodol i sicrhau bod y dogfennau ar gael yn brydlon
- nad yw dogfennau blaenorol yn cael eu defnyddio mwyach

### 2.4.1 Gweithdrefnau a/neu drefniadau cofnodedig

| Math | Gofynion |
|---|---|
| Cymeradwyo | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod proses glir a chyson ar gael i weithredwyr busnesau bwyd ei dilyn pan fyddant yn gwneud cais i gymeradwyo eu sefydliadau busnes bwyd, yn unol â Rheoliad (CE) 852/2004 a Rheoliad (CE) 853/2004[10] |

[6] Erthygl 12(3)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[7] Pennod 2, paragraff 4.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[8] Erthygl 12(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[9] Pennod 2, paragraff 4.2 o'r Cytundeb Fframwaith
[10] Erthygl 148(1) o Reoliad (UE) 2017/625

| | |
|---|---|
| Cronfa ddata o sefydliadau busnes bwyd | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod eu cronfeydd data o sefydliadau busnes bwyd yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol[11] |
| Digwyddiadau a rhybuddion bwyd | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod digwyddiadau a rhybuddion bwyd a gyhoeddir gan Awdurdodau Bwyd a/neu y maent yn ymateb iddynt yn cael eu trin a'u trafod yn effeithiol ac yn brydlon[12] |
| Awdurdodi | Rhaid i staff sy'n cynnal rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill gael eu hawdurdodi'n briodol. Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod gan swyddogion awdurdodedig (gan gynnwys y swyddog(ion) bwyd arweiniol) sy'n ymwneud â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill gymhwyster addas (neu gyfatebol) a'u bod yn gymwys ac yn brofiadol yn unol â Phennod 3 o'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer, lle bo hynny'n berthnasol i lefel eu hawdurdodiad ac i'r ystod o dasgau a gyflawnir ganddynt[13] |
| Gwiriadau rheoli | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael eu cynnal yn gyson ac yn effeithiol at safon uchel, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr Awdurdod Bwyd ei hun. Rhaid i'r weithdrefn nodi sut y mae'r Awdurdod Bwyd yn ymgymryd â gwaith monitro mewnol sy'n seiliedig ar risg. Rhaid cofnodi'r holl waith monitro mewnol a chadw'r cofnod hwnnw am ddwy flynedd[14] |
| Cwynion corfforaethol | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod ymchwiliadau i unrhyw gŵynion am yr Awdurdod Bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau |

[11] Pennod 2, paragraff 11.2 o'r Cytundeb Fframwaith
[12] Pennod 2, paragraff 14.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[13] Erthygl 5(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625; Pennod 2, paragraff 5.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[14] Erthygl 12(2) o Reoliad (UE) 2017/625; Pennod 2, paragraffau 19.1 ac 19.3 o'r Cytundeb Fframwaith

| | |
|---|---|
| | a gyhoeddir yn ganolog, a bod pob cwyn sy'n dod i law a phob cam a gymerir yn cael eu cofnodi[15] |
| Cwynion am fwyd | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod ymchwiliadau i gŵynion am fwyd a sefydliadau busnes bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Bwyd[16] |
| Samplu | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod samplau'n cael eu cymryd yn unol â'r Cod, y Canllawiau Ymarfer, polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Bwyd a deddfwriaeth berthnasol, a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn unol â pholisi samplu a gorfodi'r Awdurdod Bwyd pan fydd canlyniadau anfoddhaol yn dod i law[17] |
| Offer | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod offer yn cael eu cynnal a'u cadw a'u graddnodi'n gywir, ac nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach ar ôl canfod eu bod yn ddiffygiol[18] |
| Rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod yr ystod lawn o reolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir gan yr Awdurdod Bwyd yn effeithiol ac yn briodol, a'u bod yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod a'r ddeddfwriaeth berthnasol ac mewn ffordd ddiduedd a chyson[19] |
| Gorfodi | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod unrhyw gamau dilynol neu gamau gorfodi a gymerir gan yr Awdurdod Bwyd yn unol â'r Cod, y Canllawiau Ymarfer a pholisi gorfodi'r Awdurdod Bwyd[20] |
| Rheoli achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, ac ymchwilio iddynt | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefn(au) i sicrhau bod achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu rheoli, a bod unrhyw ymchwiliad i glefyd heintus hysbysadwy sy'n gysylltiedig â bwyd yn |

[15] Pennod 2, paragraffau 17.1, 17.2 ac 17.3 o'r Cytundeb Fframwaith
[16] Pennod 2, paragraffau 8.1, 8.2 ac 8.3 o'r Cytundeb Fframwaith
[17] Pennod 2, paragraffau 12.5, 12.6 ac 12.7 o'r Cytundeb Fframwaith
[18] Pennod 2, paragraff 6.2 o'r Cytundeb Fframwaith
[19] Erthygl 12(1) ac Erthyglau 5(1)(a) a (b) o Reoliad (UE) 2017/625; Pennod 2, paragraffau 7.2, 7.4 ac 12.3 o'r Cytundeb Fframwaith
[20] Pennod 2, paragraffau 15.2 ac 15.3 o'r Cytundeb Fframwaith

| | |
|---|---|
| | cael ei gyflawni yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog[21] |
| Gwybodaeth | Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu, cynnal a gweithredu systemau wrth gefn priodol ar gyfer unrhyw gronfeydd data electronig, ac unrhyw systemau neu weithdrefnau cofnodedig y bwriedir iddynt leihau'r perygl o lygredd neu o golli gwybodaeth a gedwir yn eu cronfeydd data, a rhaid iddynt sicrhau bod mesurau diogelwch rhesymol ar waith i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad atynt a'u newid[22] |
| Cofrestru | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefnau a/neu drefniadau ar waith i sicrhau bod proses glir a chyson ar gael i weithredwyr busnesau bwyd ei dilyn pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru eu sefydliadau busnes bwyd[23] |
| Gwrthdaro buddiannau | Rhaid bod gan Awdurdodau Bwyd weithdrefnau a/neu drefniadau ar waith i sicrhau nad oes gan staff sy'n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro[24] |

### 2.4.2 Polisïau cofnodedig

| **Math** | **Gofynion** |
|---|---|
| Polisi samplu | Rhaid i'r polisi nodi sut y bydd yr Awdurdod Bwyd yn mynd ati i samplu bwyd[25] |
| Polisi gorfodi | Rhaid i'r polisi drafod yr holl rannau o'r gyfraith bwyd y mae ar yr Awdurdod Bwyd ddyletswydd i'w gorfodi, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl ddewisiadau gorfodi, a chael ei gymeradwyo gan y fforwm aelodau perthnasol neu uwch-swyddog perthnasol[26] |

[21] Pennod 2, paragraffau 13.1 ac 13.2 o'r Cytundeb Fframwaith
[22] Pennod 2, Paragraff 6.4 o'r Cytundeb Fframwaith
[23] Erthygl 5(1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[24] Erthygl 5(1)(c) o Reoliad (UE) 2017/625
[25] Pennod 2, paragraff 12.4 o'r Cytundeb Fframwaith, Rheoliad (UE) 2017/625 Pennod IV Samplu, dadansoddi, profi a gwneud diagnosis
[26] Pennod 2, paragraff 15.1 o'r Cytundeb Fframwaith

| | |
|---|---|
| Polisi cwynion | Rhaid i'r polisi nodi sut y bydd unrhyw gŵynion sy'n dod i law am fwyd a sefydliadau busnes bwyd yn cael eu trin a'u trafod[27] |

### 2.4.3 Cynlluniau, rhaglenni a strategaethau cofnodedig

| Math | Gofynion |
|---|---|
| Cynllun wrth gefn | Rhaid i'r cynllun nodi'r hyn y bydd yr Awdurdod Bwyd yn ei wneud mewn argyfwng[28] |
| Cynllun gwasanaeth | Rhaid i'r cynllun drafod pob rhan o'r gyfraith bwyd y mae ar yr Awdurdod Bwyd ddyletswydd i'w gorfodi, a rhaid iddo gael ei gofnodi yn unol â Phennod 2 o'r Canllawiau Ymarfer a'r Cytundeb Fframwaith. Rhaid iddo nodi sut y mae'r Awdurdod Bwyd yn bwriadu cyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a'r gweithgareddau swyddogol eraill, a darparu adnoddau ar eu cyfer, yn ei ardal, a rhoi sylw i unrhyw amrywiad o ran bodloni canlyniadau'r cynllun gwasanaeth blaenorol. Rhaid cynnal adolygiad perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn a rhaid ei gofnodi. Rhaid cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo gan fforwm aelodau perthnasol neu uwch-swyddog perthnasol[29] |
| Rhaglen ymyriadau | Rhaid sefydlu a gweithredu'r rhaglen yn unol â gofynion Pennod 4 a sicrhau bod yr ymyriadau'n effeithiol, yn briodol ac yn gyson. Dylai gynnwys yr holl sefydliadau busnes bwyd y mae'r Awdurdod Bwyd yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith bwyd ynddynt[30] |
| Rhaglen samplu | Rhaid i'r rhaglen nodi manylion blaenoriaethau arfaethedig yr Awdurdod Bwyd o ran samplu bwyd ar sail risg[31] |
| Rhaglen hyfforddi | Rhaid i'r rhaglen sicrhau bod swyddogion awdurdodedig sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael hyfforddiant priodol[32] |

[27] Pennod 2, paragraff 8.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[28] Erthygl 5(1)(i) o Reoliad (UE) 2017/625
[29] Pennod 2, paragraffau 3.1, 3.2 a 3.3 o'r Cytundeb Fframwaith
[30] Erthygl 5(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[31] Pennod 2, paragraff 12.4 o'r Cytundeb Fframwaith
[32] Erthygl 5(4) o Reoliad (UE) 2017/625 a Phennod 2, paragraff 5.4 o'r Cytundeb Fframwaith

| | |
|---|---|
| Strategaeth Orfodi Amgen | Rhaid i'r strategaeth nodi sut y bydd yr Awdurdod Bwyd yn cadw gwyliadwriaeth ar sefydliadau busnes bwyd y gellir rhoi Strategaethau Gorfodi Amgen ar waith ar eu cyfer |

## 2.5 Dynodi Awdurdodau Bwyd

Mae deddfwriaeth wedi dynodi awdurdodau lleol yn Awdurdodau Bwyd i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol, a gweithgareddau swyddogol eraill ym maes bwyd, o ran y materion hynny nad ydynt yn rhan o gylch gwaith yr ASB[33].

Mae'r ASB yn gyfrifol am y pethau hyn:

- cymeradwyo sefydliadau o dan Reoliad (CE) 853/2004 sy'n pennu rheolau hylendid penodol ar gyfer hylendid bwyd (gan gynnwys marchnadoedd cig cyfanwerthol) lle mae Milfeddyg Swyddogol[34] yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb rheoli, a gorfodi'r rheolau mewn sefydliadau o'r fath
- sefydliadau sydd wedi'u lleoli ar y cyd â sefydliadau cymeradwy lle caiff briwgig, paratoadau cig, cig wedi'i wahanu'n fecanyddol, cynhyrchion cig, brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion, stumogau, pledrennau a choluddion wedi'u trin, gelatin a/neu golagen eu cynhyrchu hefyd
- cynnal arolygiadau hylendid llaeth ar safleoedd cynhyrchu llaeth
- gorfodi'r materion a reoleiddir gan Atodlen 6 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, i'r graddau y mae'n berthnasol i laeth buwch amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl
- dilysrwydd, olrhain a labelu cynhyrchion y sector gwin a gorfodi yn y farchnad gyfanwerthu a chynhyrchion y sector gwin a gynhyrchir yn y DU (gan gynnwys gwinllannoedd a gwindai)

## 2.6 Cyswllt â chyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

### 2.6.1 Gofynion cyswllt

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi trefniadau ar waith, lle bo'n berthnasol, i gysylltu ag:

- Awdurdodau Bwyd cyfagos, cyrff dirprwyedig, asiantaethau'r llywodraeth ac unrhyw gorff priodol arall, i hwyluso trefniadau gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson yn unol â'r Cod, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog[35]
- cyrff dirprwyedig eraill neu sefydliadau eraill y llywodraeth, gyda'r nod o resymoli'r trefniadau gorfodi ac ysgafnhau'r baich ar fusnesau[36]

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

---

[33] Erthygl 4(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[34] Erthygl 18(2)(d) o Reoliad (UE) 2017/625
[35] Pennod 2, paragraff 18.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[36] Pennod 2, paragraff 18.2 o'r Cytundeb Fframwaith

- rhannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth ac am arferion twyllodrus neu ddichellgar sefydliadau busnes bwyd ag Awdurdodau Bwyd perthnasol eraill a'r ASB, fel y bo'n briodol, gan roi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data[37]
- ymateb i unrhyw gyfathrebiad rhesymol gan Awdurdodau Bwyd eraill a'r ASB sy'n gofyn am wybodaeth neu gymorth
- cydnabod Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am fannau cyrraedd, ac ymateb iddynt, mewn perthynas ag atgyfeiriadau mewndirol (o ran materion bwyd wedi'i fewnforio) i gadarnhau'r camau a gymerwyd
- mynd ati cyn gynted â phosibl i rannu gwybodaeth sy'n dod i law ag Awdurdodau Bwyd ac asiantaethau perthnasol eraill, fel y bo'n briodol, sy'n nodi:
  - bod gweithrediadau neu berchnogaeth sefydliad busnes bwyd wedi newid
  - bod cymeradwyaeth sefydliad wedi'i thynnu'n ôl, ei hatal dros dro, neu'i hadfer

### 2.6.2 Cyswllt â'r ASB

Rhaid i Awdurdodau Bwyd a chanddynt sefydliadau busnes bwyd yn eu hardaloedd sy'n cael eu cymeradwyo gan yr ASB gysylltu â swyddogion yr ASB yn y sefydliadau hynny, fel y bo'n briodol, er mwyn:

- nodi unrhyw risgiau a phryderon ynghylch y sefydliad
- hybu dealltwriaeth o'u swyddogaethau ei gilydd yn y sefydliad
- hwyluso gweithgareddau gorfodi i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithiol

Mae cyswllt effeithiol â swyddogion yr ASB mewn sefydliadau a gymeradwyir gan yr ASB yn cynnwys:

- cyfathrebu rhagweithiol ac anffurfiol pan fydd swyddogion yr Awdurdod Bwyd yn mynd i sefydliadau a gymeradwyir gan yr ASB
- cynnal trafodaethau parhaus o ran atgyfeiriadau neu feysydd o ddiddordeb i'r Awdurdod a'r ASB
- gwahodd staff yr ASB i gyfarfodydd lleol neu ranbarthol, lle bo'n briodol
- ystyried cyfleoedd posibl i gael hyfforddiant lleol ar y cyd, ac i rannu gwybodaeth

Pan fyddant yn cael atgyfeiriadau gan swyddogion yr ASB yn y sefydliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Bwyd:

ymateb i'r atgyfeiriadau cyn gynted â phosibl, neu roi gwybod pryd a sut y byddant yn gallu ymateb

rhoi cyngor i swyddogion yr ASB ar unrhyw gamau y mae'n ofynnol eu cymryd ar unwaith i sicrhau y gall camau gorfodi fod yn llwyddiannus yn y dyfodol, os na all yr Awdurdod Bwyd ymateb ar unwaith

[37] Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018

- mynd ati'n rhagweithiol i roi gwybod i swyddogion yr ASB am ganlyniadau unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfuwyd yn y sefydliad cymeradwy, ac egluro pam y defnyddiwyd dull gorfodi o'r fath

### 2.6.3 Cyswllt rhwng Awdurdodau Bwyd mewn ardaloedd dwy haen

Mewn rhannau o'r DU lle ceir strwythur llywodraeth leol dwy haen a lle mae'r ddwy haen yn Awdurdodau Bwyd, nid yw'r ASB wedi pennu a ddylid cynnal ymchwiliadau a chamau gorfodi mewn perthynas â swyddogaethau penodol, er enghraifft hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd, ar lefel cyngor dosbarth neu ar lefel cyngor sir.

Yng Nghymru, mae pob awdurdod lleol yn awdurdod unedol, ac nid yw'r gwahaniaethau rhwng cynghorau dosbarth a chynghorau sir yn berthnasol.

### 2.6.4 Grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol

Rhaid i swyddog(ion) â phrofiad priodol – y swyddog(ion) bwyd arweiniol perthnasol fel arfer – gynrychioli'r Awdurdodau Bwyd mewn grwpiau cyswllt perthnasol. Mae grwpiau cyswllt yr Awdurdodau Bwyd yn helpu i sicrhau bod y rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon, bod yr Awdurdodau'n cydweithredu, a bod y trefniadau gorfodi'n gyson.

Rhaid i grwpiau cyswllt yr Awdurdodau Bwyd, fel y bo'n briodol, wneud y pethau hyn:

- trafod materion sy'n ymwneud â chysondeb a dehongli'r gyfraith â chydweithwyr yn y grŵp cyswllt bwyd lleol neu ranbarthol priodol a'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol os yw'n briodol. Rhaid i Awdurdodau Bwyd osgoi gwneud penderfyniadau dehongli heb ofyn am farn Awdurdodau Bwyd eraill
- mynd ati i ymgysylltu'n rheolaidd i sicrhau bod y cyngor a roddir gan grwpiau o Brif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref sy'n gwasanaethu busnesau bwyd sy'n masnachu yn yr un sector o'r diwydiant yn gyson
- gofyn am gynrychiolaeth gan Ddadansoddwr Cyhoeddus a/neu Archwiliwr Bwyd Awdurdodau Bwyd
- cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob Awdurdod Bwyd, gan gynnwys cynghorau dosbarth a chynghorau sir mewn ardaloedd ag Awdurdodau Bwyd dwy haen
- gofyn am gynrychiolaeth gan yr ASB, yr Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd neu CPHM (Clefydau Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd), ac arbenigwyr eraill yn ôl y gofyn
- gofyn am gynrychiolaeth gan gyrff dirprwyedig eraill
- trafod cysondeb a deongliadau cyfreithiol

Mewn ardaloedd lle mae gweithgareddau casglu pysgod cregyn masnachol yn digwydd, rhaid i'r Awdurdodau Bwyd ddarllen Pennod 7 o'r Cod i weld y trefniadau cyswllt.

### 2.6.5 Awdurdodau Bwyd mewn mannau cyrraedd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd lle ceir man cyrraedd ar gyfer bwyd a fewnforir i'r DU, cyfleusterau storio allanol dros dro neu orsaf drenau derfynol ryngwladol gysylltu a

chyfathrebu'n rheolaidd â'r sefydliadau lleol perthnasol i gyfnewid gwybodaeth am fewnforion bwyd ac i ymdrin â throseddau bwyd neu droseddau bwyd posibl yn effeithiol.

## 2.7 Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref

### 2.7.1 Prif Awdurdod

Cynllun statudol a weinyddir gan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS) ar ran Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yw'r cynllun Prif Awdurdodau. Yng Nghymru ac yn Lloegr, mae cwmpas y Prif Awdurdod yn cynnwys materion sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. Bydd angen i fusnesau bwyd sydd eisiau elwa o Brif Awdurdod yn y ddwy wlad bartneru â phrif awdurdod yng Nghymru a phrif awdurdod yn Lloegr.

Mae'r ASB yn cymeradwyo'r cynllun Prif Awdurdodau[38] ac yn cydweithio â'r Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch i helpu i roi'r cynllun ar waith ar gyfer rheoleiddwyr bwyd i sicrhau cysondeb rhwng Awdurdodau Bwyd ac i osgoi dyblygu gwaith rheoleiddio yn ddiangen.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi sylw i Ganllawiau Statudol BEIS ar Brif Awdurdodau, ac yn benodol i Ran E sy'n rhoi canllawiau ynghylch eu cyfrifoldebau fel 'awdurdodau gorfodi' o fewn y cynllun Prif Awdurdodau.

Pan fyddant yn cynllunio ac yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, dylai'r Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r wybodaeth a gedwir ar Gofrestr y Prif Awdurdodau i weld a oes gan fusnesau y maent yn ymdrin â nhw bartneriaethau â Phrif Awdurdodau. Lle mae busnes mewn partneriaeth gydgysylltiedig, er enghraifft trwy aelodaeth o gymdeithas fasnach, mae'n bosibl na fanylir ar hyn ar Gofrestr y Prif Awdurdod. Felly, dylai Awdurdodau Bwyd holi gweithredwr y busnes bwyd o ran p'un a oes partneriaeth Prif Awdurdod.

Os oes gan fusnes bartneriaeth â Phrif Awdurdod, rhaid i'r Awdurdod Bwyd ddilyn cynllun arolygu ar gyfer y busnes, os oes cynllun o'r fath wedi'i lunio gan y Prif Awdurdod a'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd ddarparu adborth i'r Prif Awdurdod os yw hyn yn ofynnol yn y cynllun arolygu.

Os rhagwelir unrhyw gamau gorfodi gan yr Awdurdod Bwyd, mae'n rhaid hysbysu'r Prif Awdurdod yn unol â'r gofynion statudol. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid gwneud hyn cyn cymryd camau gorfodi, ac eithrio pan fydd angen gweithredu ar fyrder i osgoi risg sylweddol o niwed i iechyd pobl, i'r amgylchedd neu i fuddiannau ariannol defnyddwyr. Mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi gwybod am y camau gorfodi a gymerwyd ar ôl eu cymryd.

Caiff Prif Awdurdod ymweld ag ardal Awdurdod Bwyd arall ar gais y busnes. Caiff gynnal yr ymweliadau hyn fel rhan o ymarfer casglu gwybodaeth heb ddefnyddio unrhyw bwerau. Os bydd y Prif Awdurdod yn cynnal ymweliad gan ddefnyddio pwerau i

---

[38] Pennod 2, Adran 9 o'r Cytundeb Fframwaith

gael gafael ar dystiolaeth o dorri rheolau, rhaid iddo roi gwybod i'r Awdurdod Bwyd perthnasol ymlaen llaw lle bo modd, neu cyn gynted ag y bo’n ymarferol.

### 2.7.2 Awdurdod Cartref

Mae'r ASB yn cymeradwyo Egwyddor yr Awdurdod Cartref a lywodraethir gan Ddatganiad Ymrwymiad ar y Cyd a lofnodwyd gan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch, y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ym mis Mehefin 2011. Lle bo modd, dylai Awdurdodau Bwyd fabwysiadu a gweithredu ei darpariaethau.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ceisio cynnal a chefnogi elfennau hanfodol y dirwedd reoleiddio, a rhesymoli a symleiddio’r systemau cymorth proffesiynol a’r rhwydweithiau cyfathrebu sy’n bodoli eisoes, i sicrhau bod modd datblygu fframwaith cydlynol i ymgysylltu â busnesau.

Mae Awdurdodau Cartref yn gweithredu mewn sefyllfaoedd lle nad oes gan fusnes bartneriaeth â Phrif Awdurdod (er enghraifft, os yw busnes yn dewis peidio â llunio partneriaeth neu os nad yw'n gyfreithiol iddo wneud hynny), ond lle mae’n dal i fod yn amlwg bod angen cydgysylltu gweithgareddau rheoleiddio o ran y busnes hwnnw. Er enghraifft, achosion o ddiffyg cydymffurfio a allai fod yn digwydd ar draws ardal ddaearyddol eang, gan beri i nifer o Awdurdodau Bwyd gynnal ymyriadau rheoleiddio tebyg heb gysylltiad rhyngddynt.

Mae Awdurdodau Cartref yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ymhlith Awdurdodau Bwyd ac yn ceisio sicrhau bod busnesau’n cydymffurfio’n bennaf o ran diogelwch a hylendid bwyd, a safonau bwyd. Yn aml, yr Awdurdod Bwyd sydd wedi'i leoli yn yr un ardal â phrif swyddfa’r busnes (neu'r Awdurdod Bwyd lle caiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu cynhyrchu) sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel Awdurdod Cartref ar gyfer y busnes hwnnw.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn disgwyl i Awdurdod Bwyd roi pwyslais arbennig ar nwyddau a gwasanaethau sy'n deillio o fusnes sydd wedi’i leoli yn ei ardal ei hun, a hynny er mwyn ceisio rheoleiddio'r busnes yn y ffynhonnell, gan beri i’r system reoleiddio gyfan fod yn fwy effeithlon.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn galluogi rheoleiddwyr i ganolbwyntio ar ddiogelu dinasyddion, gweithwyr a'r amgylchedd, gan ymlynu ar yr un pryd wrth egwyddorion rheoleiddio da (cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, tryloywder a thargedu).

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n ystyried rhoi cyngor neu gymryd camau gorfodi o ran busnesau bwyd a chanddynt Awdurdod Cartref ystyried a oes angen iddynt gysylltu â'r Awdurdod Cartref cyn iddynt wneud hynny. Gall fod angen iddynt wneud hyn, er enghraifft, os yw’r cyngor neu'r camau gorfodi yn ymwneud â pholisïau neu weithdrefnau busnes bwyd y cytunwyd arnynt yn ganolog.

## 2.8 Darparu gwasanaethau dewisol

Caiff Awdurdodau Bwyd godi tâl am ddarparu gwasanaethau dewisol[39], fel darparu hyfforddiant neu roi cyngor i fusnesau, heblaw at ddibenion masnachol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sicrhau:

- bod y pethau a ganlyn ar gael yn rhwydd:
  - eu ffioedd a'u taliadau[40]
  - manylion am sut y cafodd eu ffioedd a'u taliadau eu cyfrifo[41]
  - nodyn sy'n egluro a fydd cydymffurfiaeth yn effeithio ar y ffioedd a'r taliadau, lle bo'n briodol[42]
  - prif nodweddion y gwasanaeth(au)[43]
  - unrhyw delerau ac amodau sy'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaeth[44]
  - manylion am sut i gwyno am y gwasanaeth a ddarparwyd[45]
- bod eu gweithdrefn a/neu eu trefniadau gwrthdaro buddiannau yn nodi sut y bydd swyddogion awdurdodedig yn sicrhau nad oes ganddynt fuddiannau sy'n gwrthdaro pan fyddant yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol, neu weithgareddau swyddogol eraill a gwasanaethau dewisol y codir tâl amdanynt[46]
- eu bod yn egluro, lle bynnag y byddant yn darparu manylion y gwasanaethau hyn, fod darparwyr eraill yn darparu'r gwasanaethau hyn
- bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cytuno i gael y gwasanaeth cyn iddo gael ei ddarparu, a'u bod yn gwybod eu bod yn gwneud hynny'n wirfoddol
- eu bod yn egluro wrth weithredwyr busnesau bwyd ar lafar, ac yn ysgrifenedig, os yw'n briodol, fod y gwasanaethau hyn ar wahân i unrhyw reolaethau swyddogol neu unrhyw weithgareddau swyddogol eraill

## 2.9 Penodi Dadansoddwr Cyhoeddus

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- penodi un neu ragor o Ddadansoddwyr Cyhoeddus[47] sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol a nodir yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
- sicrhau bod y dadansoddw(y)r a benodir yn gallu profi'r holl samplau a sylweddau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod Bwyd eu dadansoddi, neu fod

---

[39] Adran 93(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003
[40] Rheoliad 8(1)(l) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
[41] Paragraff 6.2 o God y Rheoleiddwyr
[42] Paragraff 6.2 o God y Rheoleiddwyr
[43] Rheoliad 8(1)(m) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
[44] Rheoliad 8(1)(i) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
[45] Paragraff 6.2 o God y Rheoleiddwyr
[46] Erthygl 5(1)(c) o Reoliad (UE) 2017/625
[47] Erthygl 5(1)(d) o Reoliad (UE) 2017/625; Pennod 2, paragraff 12.8 o'r Cytundeb Fframwaith; Adran 27 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

trefniadau ar waith iddo/iddynt oruchwylio profion o’r fath, fel y caniateir gan adran 30 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

## 2.10 Cyfleusterau ac offer

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- darparu’r cyfleusterau a’r offer sy’n angenrheidiol i gyflawni’r holl weithgareddau sy’n gysylltiedig â’r gwasanaeth yn effeithiol[48]
- darparu cyfleusterau ac offer priodol sy’n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol i’r swyddogion sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol priodol sy'n gyson ag arferion da'r diwydiant, i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r rhain yn effeithlon ac yn effeithiol[49]
- sefydlu, cynnal a gweithredu cronfa ddata sydd wedi'i ffurfweddu'n briodol neu system rheoli cofnodion arall sy'n gywir, yn ddibynadwy ac yn gallu:
  - gweithredu'r system sgorio risgiau hylendid bwyd a safonau bwyd perthnasol a/neu gynlluniau sgorio ymyriadau hylendid bwyd wrth gynhyrchu cynradd, ar lefel y cynhyrchu cynradd, a amlinellir yn Adran 4.4 ac Atodiad 1
  - cofnodi'r holl weithgareddau amrywiol, gan gynnwys rheolaethau bwyd swyddogol, ymchwiliadau i gŵynion, camau gorfodi a rheolaethau mewn mannau cyrraedd[50]
  - cofnodi ac adalw manylion sefydliadau busnes bwyd sydd wedi'u cymeradwyo neu wedi'u cymeradwyo'n amodol ac wedi’u cofrestru[51], gan gynnwys yr holl weithgareddau a gyflawnwyd
  - darparu unrhyw wybodaeth y mae'n rhesymol i’r ASB ofyn amdani[52]
  - derbyn Rhybuddion Bwyd[53]

## 2.11 Cyfeiriadau e-bost gorfodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod i'r ASB am y pethau hyn:

- y cyfeiriad e-bost y gellir anfon cyfathrebiadau iddo;
- unrhyw newidiadau i'r manylion hyn, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

---

[48] Paragraff 6.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[49] Erthygl 5(1)(e) ac (f) o Reoliad (UE) 2017/625 a Phennod 2, paragraff 6.2 o'r Cytundeb Fframwaith
[50] Pennod 2, paragraff 16.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[51] Pennod 2, paragraff 11.1 o'r Cytundeb Fframwaith
[52] Pennod 2, paragraff 6.3 o'r Cytundeb Fframwaith
[53] Pennod 2, paragraff 14.2 o'r Cytundeb Fframwaith

## 2.12 Cofrestru a chymeradwyo sefydliadau busnes bwyd

### 2.12.1 Gofynion cofrestru a chymeradwyo

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gymeradwyo a chofrestru sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod, y Canllawiau Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Bwyd.

### 2.12.2 Rhestrau o sefydliadau bwyd

#### 2.12.2.1 Manylion sefydliadau cofrestredig

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- cynnal rhestr gyfredol o'r sefydliadau busnes bwyd cofrestredig yn eu hardal[54]
- diweddaru manylion sefydliadau cofrestredig ar ôl iddynt gael gwybod am newid i un o weithrediadau sefydliad bwyd neu i weithredwr busnes bwyd
- rhoi copi cyflawn o'u cofrestr o sefydliadau busnes bwyd i'r ASB pan fydd yn gofyn iddynt wneud hynny
- sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data[55] pan fyddant yn ymdrin â cheisiadau i gael gwybodaeth am sefydliadau busnes bwyd

#### 2.12.2.2 Manylion sefydliadau cymeradwy

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal rhestr gyfredol o'r sefydliadau busnes bwyd y maent wedi'u cymeradwyo neu'u cymeradwyo'n amodol[56].

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- rhoi copi o ffurflen gais gweithredwr y busnes bwyd a'r gymeradwyaeth a roddwyd gan yr Awdurdod Bwyd i'r ASB
- rhoi gwybod i'r ASB:
  - pan fydd sefydliad wedi'i gymeradwyo neu'i gymeradwyo'n amodol
  - pan fydd sefydliad cymeradwy yn rhoi'r gorau i weithgareddau sy'n destun cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol
  - pan fydd cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi'i thynnu'n ôl neu ei hatal dros dro

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddarparu rhestr gyflawn o'r sefydliadau busnes bwyd cymeradwy i'r ASB pan fydd yn gofyn amdani.

## 2.13 Proses gymeradwyo

### 2.13.1 Ceisiadau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

---

[54] Erthygl 10(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[55] Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018
[56] Erthygl 10(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- sicrhau nad ydynt ond yn derbyn ceisiadau i gael cymeradwyaeth gan weithredwyr busnesau bwyd ar gyfer sefydliadau sydd o dan eu rheolaeth ac sy'n bwriadu ymgymryd â gweithgareddau y mae angen eu cymeradwyo
- sicrhau bod eithriadau rhag cymeradwyo yn cael eu hystyried yn llwyr
- sicrhau bod gweithredwr busnes bwyd yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol cyn penderfynu ar ei gais i gael cymeradwyaeth
- ymdrin â cheisiadau i gael cymeradwyaeth yn brydlon a gofyn i weithredwyr busnesau bwyd gyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r fformat priodol, fel y nodir yn y Canllawiau Ymarfer
- ystyried yr holl weithgareddau a gyflawnir yn y sefydliad busnes bwyd, a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer pob math o gynnyrch a gynhyrchir

### 2.13.2 Penderfynu ar geisiadau i gael cymeradwyaeth

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- cyn penderfynu ar gais i gael cymeradwyaeth, ymweld â'r safle[57] i gynnal arolygiad
- gwirio a yw gweithredwr y busnes bwyd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y gyfraith bwyd, ac a ellir rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol

### 2.13.3 Cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- eu bod yn rhoi sylw i Bennod 2 o'r Canllawiau Ymarfer ac i ganllawiau'r ASB, **Cymeradwyo sefydliadau – Canllawiau ar gyfer swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol**, pan fyddant yn rhoi cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn
- eu bod yn cymeradwyo sefydliad i ymgymryd â'r gweithgareddau dan sylw dim ond os yw gweithredwr y busnes bwyd wedi dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y gyfraith bwyd[58]
- eu bod yn penderfynu rhoi cymeradwyaeth amodol, neu estyn cymeradwyaeth amodol, fesul achos ac ar sail barn broffesiynol, ond rhaid iddynt beidio â'i rhoi os gallai achos o ddiffyg cydymffurfio beri i fwydydd effeithio'n andwyol ar iechyd y cyhoedd
- os byddant yn rhoi cymeradwyaeth amodol ar ôl yr ymweliad cyntaf â'r safle, dim ond os yw'n ymddangos, yn sgil ymweliad rheolaeth swyddogol newydd â'r sefydliad a gynhelir cyn pen tri mis ar ôl rhoi'r gymeradwyaeth amodol, fod y sefydliad yn bodloni gofynion perthnasol eraill y gyfraith bwyd, gan gynnwys gofynion cynnyrch-benodol Rheoliad (CE) 853/2004[59], y gellir rhoi cymeradwyaeth lawn.

---

[57] Erthygl 148(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[58] Erthygl 148(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[59] Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625

- os yw’r sefydliad wedi gwneud cynnydd amlwg ers yr ymweliad cyntaf â’r safle, ond nad yw'n bodloni'r holl ofynion perthnasol o hyd, caiff yr Awdurdod Bwyd estyn y gymeradwyaeth amodol
- nad ydynt fyth yn estyn cymeradwyaeth amodol am fwy na chyfanswm o chwe mis, ac eithrio yn achos llongau ffatri a llongau rhewi, lle caniateir estyn eu cymeradwyaeth amodol am hyd at 12 mis
- yn achos sefydliadau busnes bwyd newydd, eu bod yn rhoi cymeradwyaeth amodol cyn rhoi cymeradwyaeth lawn er mwyn i weithredwyr y busnesau bwyd hynny allu dangos bod eu system rheoli diogelwch bwyd yn ddilys ac er mwyn gwirio ei bod yn effeithiol
- eu bod yn rhoi nod adnabod unigryw (gan gynnwys cod cymeradwyo) i bob sefydliad busnes bwyd a gymeradwyir neu a gymeradwyir yn amodol ganddynt
- eu bod yn rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd yn ysgrifenedig pan fyddant yn rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol, gan gynnwys:
  - natur a chwmpas y gymeradwyaeth
  - unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n berthnasol
  - y cod cymeradwyo, neu os rhoddir cymeradwyaeth ar ôl rhoi cymeradwyaeth amodol, cadarnhad y gall barhau i ddefnyddio'r cod cymeradwyo a ddyrannwyd iddo
- eu bod yn cadw copi o'r hysbysiad(au) ysgrifenedig

### 2.13.4 Gwrthod cymeradwyaeth

Pan fydd Awdurdod Bwyd wedi penderfynu gwrthod cais i gael cymeradwyaeth, rhaid iddo roi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad cyn gynted â phosibl. Rhaid i’r hysbysiad gynnwys:

- y rhesymau dros wrthod y cais
- y materion sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y Rheoliad(au)
- datganiad clir na chaniateir ymgymryd â gweithgareddau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer oni bai fod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn cael ei rhoi
- manylion am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriad y Llys Ynadon lle gall wneud apêl[60]

### 2.13.5 Newid gweithgareddau, perchnogaeth neu fanylion

Pan fydd Awdurdod Bwyd yn dod i wybod am newid i berchnogaeth neu i weithgareddau sefydliad bwyd cymeradwy, rhaid iddo gynnal asesiad o'r newid a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Os bydd newid mawr wedi digwydd, mae’n debygol y bydd gofyn i’r sefydliad gael cymeradwyaeth newydd cyn bod modd iddo weithredu. Ceir mwy o wybodaeth ym

[60] Rheoliad 12 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Mhennod 2 o'r Canllawiau Ymarfer ac yng nghanllawiau'r ASB, *Cymeradwyo sefydliadau – Canllawiau ar gyfer swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol.*

### 2.13.6 Sefydliadau y credir eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau y mae angen eu cymeradwyo

Os bydd Awdurdod Bwyd yn dod i wybod am fusnes sy'n ymgymryd â gweithgareddau y mae angen eu cymeradwyo, ond nad ydynt wedi'u cymeradwyo, rhaid iddo roi gwybod yn ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd fod angen cymeradwyaeth arno, ac ystyried camau gorfodi priodol.

## 2.14 Cadw cofnodion

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud â sefydliadau busnes bwyd, gan gynnwys y rhai sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu, yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd[61], oni bai fod gofyn eu cadw am yn hirach oherwydd:

- achos cyfreithiol
- adolygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- bod polisi rheoli dogfennau'r Awdurdod Bwyd yn pennu cyfnod hirach
- cyngor a roddir gan yr ASB yn unol ag Adran 2.3
- bwriedir cynnal ymyriad nesaf y sefydliad tu hwnt i'r cyfnod cadw gofynnol o chwe blynedd, ac felly mae'n rhaid parhau i gadw'r cofnodion, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys:
  - yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i fodloni safon data'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
  - yr wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn i'r ASB gyflawni ei dyletswydd i gadw rhestrau cenedlaethol (gweler adran 2.12.2)
  - manylion am y math o weithgareddau bwyd y mae'r busnes yn ymgymryd â nhw, gan gynnwys unrhyw gyfarpar, prosesau neu nodweddion arbennig, lle bo'n berthnasol
  - manylion unrhyw broblemau sylweddol, gan gynnwys manylion unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio i'w hadolygu mewn ymyriadau yn y dyfodol

[61] Pennod 2, paragraff 16.2 o'r Cytundeb Fframwaith

# Pennod 3 Awdurdodi, cymwysterau, a chymhwysedd

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon:

- yn amlinellu'r gofynion i ddirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill i gyrff dirprwyedig ac i bersonau naturiol;
- yn amlinellu'r cymwysterau a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar swyddogion sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain;
- yn rhoi darpariaethau hyfforddi Rheoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ar waith[62].

Nid yw'r gofynion o ran cymwysterau a chymwyseddau a geir yn y Bennod hon yn berthnasol i staff sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli anuniongyrchol yn unig dros wasanaeth yr Awdurdod Bwyd i orfodi'r gyfraith bwyd, fel Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr neu Brif Swyddogion, nac i'r rheiny a gyflogir mewn rôl gefnogol, fel staff gweinyddol a chyfreithiol.

Yn unol â'r Cod, dim ond ar gyfer swyddogion y mae eu hawdurdodiad wedi'i ddyddio ar 1 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny ac ar gyfer swyddogion presennol (sy'n cynnwys swyddogion cymorth rheoleiddiol) a awdurdodwyd cyn y dyddiad hwn ond y mae angen ymestyn eu hawdurdodiad i weithgareddau newydd ar 1 Mehefin 2021 neu ar ôl hynny y bydd angen asesiad cymwyseddau yn erbyn y ddogfen 'Gwybodaeth a sgiliau'r ASB ar gyfer darparu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol a gweithgareddau eraill yn effeithiol' (y Fframwaith Cymwyseddau).

Ar gyfer swyddogion y mae eu hawdurdodiad wedi'i ddyddio ar 1 Mehefin 2021 neu ar ôl hynny, rhaid asesu eu cymwyseddau yn erbyn yr holl weithgareddau perthnasol yn y ddogfen 'Gwybodaeth a sgiliau'r ASB ar gyfer darparu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol a gweithgareddau eraill yn effeithiol' (y Fframwaith Cymwyseddau) y mae'n ofynnol iddynt eu cynnal. Ar gyfer swyddogion presennol sy'n ymestyn eu hawdurdodiad ar 1 Mehefin 2021 neu ar ôl hynny, dim ond yn erbyn unrhyw weithgareddau newydd y byddant yn ymgymryd â nhw y bydd angen yr asesiad.

O ran swyddogion presennol a awdurdodwyd cyn 1 Mehefin 2021 ac nad yw eu hawdurdodiadau yn cael eu hymestyn i weithgareddau newydd, nid oes angen asesu eu cymwyseddau yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau nes bod y dull newydd o asesu wedi'i weithredu, fel rhan o weithredu'r Fframwaith Cymwyseddau yn llawn. Cyflawnir cymwyseddau parhaus y swyddogion hyn trwy:

• gynnal datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn unol â gofynion y Cod

• bod yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwirio rheolaethau'r Awdurdod Cymwys (monitro mewnol)

---

[62] Erthygl 5(4) o Reoliad (UE) 2017/625

Os bydd yr Awdurdod Cymwys yn nodi materion neu bryderon sylweddol gyda lefel gymhwysedd swyddog, bydd angen asesu cymwyseddau yn erbyn y gweithgareddau perthnasol sy'n peri pryder o fewn y Fframwaith Cymwyseddau.

## 3.2 Dirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

### 3.2.1 Dirprwyo i swyddogion awdurdodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y pŵer i awdurdodi swyddogion wedi'i ddirprwyo'n briodol i'r swyddog awdurdodi a bod y ddirprwyaeth hon wedi'i chofnodi, er enghraifft, yng nghyfansoddiad yr Awdurdod Bwyd.

### 3.2.2 Dirprwyo i Awdurdodau Bwyd eraill

#### 3.2.2.1 Y Ddeddf Llywodraeth Leol

Gall fod modd i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio swyddogion awdurdodedig Awdurdodau Bwyd eraill i gyflawni eu rheolaethau bwyd swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill, a hynny drwy ddefnyddio darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) yn caniatáu i Awdurdodau Bwyd gyflawni swyddogaethau ar ran Awdurdodau Bwyd eraill mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- Dirprwyo[63] – Gall Awdurdodau Bwyd ddirprwyo’u swyddogaethau i Awdurdod Bwyd arall, ond mae'r Awdurdod sy’n dirprwyo’i swyddogaethau yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni
- Cyd-bwyllgor[64] – Gall Awdurdodau Bwyd sefydlu cyd-bwyllgorau gydag Awdurdodau Bwyd eraill (fel arfer drwy gytundeb cyfreithiol a lofnodir gan yr Awdurdodau sy'n cymryd rhan) er mwyn cyflawni eu swyddogaethau
- Cytundeb[65] – Gall Awdurdodau Bwyd ymrwymo i gytundebau (ar ôl ymgynghori â'r swyddogion dan sylw) gydag Awdurdodau Bwyd eraill i ddarparu eu swyddogion at ddefnydd Awdurdod Bwyd arall, gan ganiatáu i'r swyddogion hyn gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Bwyd arall hwnnw

Os yw Awdurdod Bwyd arall yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill ar eu rhan, rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y swyddogaethau hyn wedi'u dirprwyo'n briodol, a bod hyn wedi'i gofnodi.

Dylai Awdurdodau Bwyd ofyn am gyngor gan eu timau cyfreithiol eu hunain cyn dirprwyo unrhyw swyddogaethau i Awdurdod Bwyd arall.

---

[63] Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
[64] Adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
[65] Adran 113 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

#### 3.2.2.2 Dirprwyo tasgau penodol yr Awdurdodau Bwyd

Caiff Awdurdodau Bwyd ddirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol i un neu ragor o gyrff dirprwyedig[66] a phersonau naturiol nad ydynt eu hunain yn Awdurdodau Bwyd.

Pan fydd yn dirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol i gyrff dirprwyedig neu i bersonau naturiol, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sy'n dirprwyo sicrhau:

- bod y corff dirprwyedig neu'r person naturiol yn meddu ar y pwerau sydd eu hangen i gyflawni'r rheolaethau sy'n cael eu dirprwyo yn effeithiol[67]
- bod y ddirprwyaeth yn ysgrifenedig[68]
- bod y ddirprwyaeth yn cynnwys disgrifiad manwl gywir o'r rheolaethau swyddogol hynny y caiff y corff dirprwyedig neu'r personau naturiol eu cyflawni a'r amodau y gallant gyflawni'r rheolaethau hynny oddi tanynt[69]
- bod trefniadau ar waith i gydgysylltu ei waith ef a'r corff dirprwyedig neu'r person naturiol yn effeithlon ac yn effeithiol[70]
- bod y corff dirprwyedig neu'r person naturiol[71]
    - yn rhoi gwybod am ganlyniad y rheolaethau bwyd swyddogol a/neu'r gweithgareddau swyddogol eraill yn rheolaidd a pha bryd bynnag y gofynnir am y manylion hyn;
    - yn rhoi gwybod iddo ar unwaith am ganlyniad rheolaethau bwyd swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill lle ceir hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio, oni bai fod trefniadau penodol ar waith sy'n darparu fel arall;
    - yn cydweithredu ag ef a, lle bo'n briodol, yn rhoi cymorth iddo ac yn caniatáu iddo gael mynediad i adeiladau a chyfleusterau
- ei fod yn archwilio'r corff dirprwyedig neu'r personau naturiol y dirprwywyd y rheolaethau iddynt, yn ôl y gofyn;
- ei fod yn tynnu'r ddirprwyaeth yn ôl, yn llwyr neu'n rhannol, os bydd y corff dirprwyedig:
    - yn methu â chyflawni'r gweithgareddau o ran y rheolaethau bwyd swyddogol yn briodol
    - yn methu â chymryd camau priodol ac amserol i unioni unrhyw broblemau a bennwyd o ran y modd y mae'n cyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill
    - yn peryglu ei annibyniaeth neu ei ddidueddrwydd
- ei fod yn rhoi manylion i'r ASB am:
    - y corff dirprwyedig neu'r person naturiol;
    - y tasgau penodol a ddirprwywyd iddo;

---

[66] Erthygl 3(5) o Reoliad (UE) 2017/625
[67] Erthygl 28(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[68] Erthyglau 29 a 30 o Reoliad (UE) 2017/625
[69] Erthyglau 29(a) a 30(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[70] Erthyglau 29(c) a 30(c) o Reoliad (UE) 2017/625
[71] Erthygl 32 o Reoliad (UE) 2017/625

- unrhyw gamau dilynol i dynnu'r tasgau a ddirprwywyd yn ôl neu i'w newid.

Pan fydd yn dirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol i gorff dirprwyedig, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sy'n dirprwyo neilltuo cod penodol i'r corff dirprwyedig[72] a sicrhau ei fod[73]:

- yn meddu ar yr arbenigedd, yr offer, y gweithdrefnau rheoli cofnodedig[74] a'r seilwaith sy'n ofynnol i gyflawni'r rheolaethau a ddirprwywyd iddo;
- yn meddu ar nifer digonol o unigolion â chymwysterau a chymwyseddau addas i gyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a ddirprwywyd iddo yn effeithlon ac yn effeithiol;
- yn ddiduedd, nad oes ganddo fuddiannau sy'n gwrthdaro ac, yn enwedig, nad yw mewn sefyllfa a allai, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, effeithio ar ddidueddrwydd ei ymddygiad proffesiynol o ran cyflawni'r rheolaethau swyddogol hynny a ddirprwywyd iddo;
- yn cynnal y rheolaethau bwyd swyddogol yn unol â'r Cod, y Canllawiau Ymarfer, a'r Cytundeb Fframwaith;
- yn gweithio ac wedi'i achredu yn unol â safonau sy'n berthnasol i'r tasgau dirprwyedig dan sylw, gan gynnwys safon EN ISO/IEC 17020 'Gofynion ar gyfer gweithrediad gwahanol fathau o gyrff sy'n cyflawni arolygiadau';
- yn meddu ar ddigon o bwerau i gyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a ddirprwywyd iddo.

Pan fydd yn dirprwyo rheolaethau bwyd swyddogol i berson naturiol, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sy'n dirprwyo sicrhau bod y person naturiol[75]:

- yn meddu ar yr arbenigedd, yr offer, y gweithdrefnau rheoli cofnodedig a'r seilwaith sy'n ofynnol i gyflawni'r rheolaethau a ddirprwywyd iddo/iddi[76];
- yn gweithredu'n ddiduedd ac nad oes ganddo/ganddi unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro â'r gwaith o gyflawni'r rheolaethau swyddogol hynny a ddirprwyir iddo/iddi[77];
- yn meddu ar gymwysterau a chymwyseddau addas i gyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol a ddirprwyir iddo/iddi yn effeithlon ac yn effeithiol[78];
- yn cynnal y rheolaethau bwyd swyddogol yn unol â'r Cod, y Canllawiau Ymarfer, a'r Cytundeb Fframwaith.

Caiff Awdurdodau Bwyd hefyd ddirprwyo gweithgareddau swyddogol eraill i un neu ragor o'r rhain:

[72] Erthygl 28(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[73] Erthygl 29(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[74] Erthygl 12(4) o Reoliad (UE) 2017/625
[75] Erthygl 30(c) o Reoliad (UE) 2017/625
[76] Erthygl 30(b)(i) o Reoliad (UE) 2017/625
[77] Erthygl 30(b)(ii) o Reoliad (UE) 2017/625
[78] Erthygl 30(b)(iii) o Reoliad (UE) 2017/625

- cyrff dirprwyedig oni bai eu bod wedi'u gwahardd gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625[79]
- personau naturiol pan ganiateir hynny oni bai eu bod wedi'u gwahardd gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625[80]

Pan ddirprwyir gweithgareddau swyddogol eraill, mae'r gofynion uchod hefyd yn berthnasol, gyda'r eithriadau a ganlyn:

- nid yw'n ofynnol i gyrff dirprwyedig weithio na chael eu hachredu yn unol â safonau sy'n berthnasol i'r tasgau dirprwyedig dan sylw, gan gynnwys safon EN ISO/IEC 17020 'Gofynion ar gyfer gweithrediad gwahanol fathau o gyrff sy'n cyflawni arolygiadau'[81];
- ni chaniateir dirprwyo penderfyniadau ynghylch y camau i'w cymryd i sicrhau bod gweithredwr busnes bwyd yn unioni achosion o ddiffyg cydymffurfio ac yn atal achosion pellach o ddiffyg cydymffurfio, na'r weithred o anfon hysbysiadau ysgrifenedig o'r camau hynny[82].

## 3.3 Awdurdodi

### 3.3.1 Penodi staff

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- penodi nifer digonol o swyddogion â chymwysterau a chymwyseddau addas er mwyn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol[83];
- os oes angen arbenigedd mewn maes a restrir ym Mhennod I o Atodiad II o Reoliad (UE) 2017/625, sicrhau bod gan unrhyw arbenigwr gymhwyster addas a'i fod yn gymwys yn y maes y mae angen yr arbenigedd ynddo.

### 3.3.2 Awdurdodi swyddogion

Mae'r adran hon yn berthnasol i swyddogion bwyd awdurdodedig, swyddogion arweiniol a swyddogion cymorth rheoleiddio.

Cyn i Awdurdodau Bwyd awdurdodi neu estyn dyletswyddau swyddog, rhaid i'w Swyddog(ion) Bwyd Arweiniol sicrhau:

- bod gan swyddog sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol neu weithgareddau swyddogol eraill gymhwyster addas a restrir yn adrannau 3.4.1, 3.4.2 a 3.4.3, sy'n berthnasol i'w rôl a'r gweithgareddau y bydd wedi'i awdurdodi i'w cyflawni, oni bai fod y swyddog dim ond yn ymgymryd â:
  - gweithgareddau swyddog cymorth rheoleiddio

---

[79] Erthygl 31(1)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[80] Erthygl 31(2)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[81] Erthygl 31(1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[82] Erthygl 31(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[83] Erthygl 5(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625 a Phennod 2, paragraff 5.3 o'r Cytundeb Fframwaith

- reolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid mewn Mannau Rheoli ar y Ffin (gweler adran 3.5).

- bod swyddogion yn destun asesiad cymhwysedd priodol ar sail y cymwyseddau a nodir yn:
  - Gwybodaeth a sgiliau’r ASB ar gyfer darparu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol a gweithgareddau eraill yn effeithiol (Y Fframwaith Cymwyseddau), fel y’i cyhoeddwyd ar wefan yr ASB
  - Pennod 3 o’r Canllawiau Ymarfer.
- bod dyletswyddau a phwerau cyfreithiol swyddogion yn cael eu cyfyngu hyd nes eu bod yn gallu dangos eu bod yn bodloni'r cymwyseddau sy'n berthnasol i'w rôl a'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- mai’r swyddog(ion) bwyd arweiniol sy’n penderfynu a yw swyddog yn bodloni'r gofynion o ran y cymwysterau a’r cymwyseddau addas sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y bydd y swyddog wedi'i awdurdodi i'w cyflawni;
- bod swyddogion sy'n dychwelyd i gynnal rheolaethau bwyd swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill a/neu weithgareddau swyddog cefnogi rheoleiddiol ar ôl cyfnod o absenoldeb yn destun asesiad cymhwysedd priodol yn erbyn y Fframwaith Cymwyseddau, sy'n gymesur â hyd yr absenoldeb ac yn berthnasol i'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni;
- bod swyddogion sy'n symud o’r naill Awdurdod Bwyd i'r llall yn destun asesiad cymhwysedd priodol sy'n gymesur â'u profiad blaenorol ac yn berthnasol i'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni;
- bod swyddogion yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol a bennir gan swyddog(ion) bwyd arweiniol, neu swyddog awdurdodedig cymwys arall, i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion sy’n dod i’r amlwg yn ystod asesiad o gymhwysedd swyddog;
- bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi’n ysgrifenedig;
- bod swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau o ran rheoliadau’r gyfraith bwyd sy'n cynnwys pwerau gorfodi penodol nad ydynt yn deillio o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cael eu hawdurdodi'n benodol ar gyfer y rheoliadau hynny;
- eu bod yn cadw cofnodion, a all fod ar gyfrifiadur, o:
  - gymwysterau’r swyddogion, lle bo'n berthnasol;
  - eu hasesiadau cymhwysedd.

### 3.3.3 Swyddogion awdurdodedig

Mae'r rhain yn swyddogion, ac eithrio swyddogion cymorth rheoleiddio, sy'n asesu cydymffurfiaeth â’r gyfraith bwyd ac yn cymryd camau gorfodi, fel y bo'n briodol.

### 3.3.4 Swyddogion bwyd arweiniol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- penodi un neu ragor o swyddogion bwyd arweiniol â chymwysterau a chymwyseddau addas sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol materion sy’n ymwneud â’r gyfraith bwyd;
- rhannu’r wybodaeth ganlynol â’r ASB:
  - enw a manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) eu swyddog(ion) bwyd arweiniol penodedig;
  - manylion unrhyw newidiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Caiff swyddog(ion) bwyd arweiniol Awdurdod Bwyd fod yn swyddog(ion) a gyflogir gan Awdurdod Bwyd arall neu Awdurdodau Bwyd eraill, cyn belled â bod y swyddog(ion) yn bodloni'r gofynion cymhwysedd angenrheidiol ar gyfer y maes/meysydd y cafodd ei benodi/y cawsant eu penodi ar ei gyfer/eu cyfer.

### 3.3.5 Swyddogion cymorth rheoleiddio

Mae Awdurdodau Bwyd:

- yn cael awdurdodi swyddogion cymorth rheoleiddio i gyflawni unrhyw rai o'r gweithgareddau a ganlyn fel y nodir yn y Fframwaith Cymwyseddau:
  - ymyriadau amgen;
  - addysg, cyngor a hyfforddiant;
  - casglu gwybodaeth, ac eithrio’r is-weithgaredd casglu, prosesu a rhannu cudd-wybodaeth;
  - monitro pysgod cregyn at ddibenion amgylcheddol.
- yn gorfod sicrhau bod swyddogion cymorth rheoleiddio yn cael eu goruchwylio’n briodol.

## 3.4 Cymwysterau gofynnol

### 3.4.1 Hylendid bwyd

O ran hylendid bwyd, mae'r gofyniad ‘cymhwyster addas’ yn cael ei fodloni os oes gan swyddog un neu ragor o'r cymwysterau a ganlyn (neu’r fersiynau cynharach ohonynt):

- Tystysgrif Uwch mewn Rheoli Bwyd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB) neu CIEH
- Tystysgrif Uwch mewn Rheolaeth Swyddogol a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB)
- Tystysgrif Gofrestru a ddyfarnwyd gan yr EHRB i ganiatáu i’r sawl a gofrestrwyd ymarfer fel Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd
- Diploma Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan yr EHRB neu Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban (REHIS)
- Tystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Rheoli Hylendid a Safonau Bwyd (APC) a ddyfernir gan CIEH
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Gradd Meistr mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Prentisiaeth Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd (Gradd Integredig)

Rhaid i swyddog(ion) bwyd arweiniol sicrhau bod awdurdodiad o bwerau cyfreithiol a dyletswyddau swyddogion sy'n meddu ar un neu fwy o'r cymwysterau addas a restrir isod yn cael eu cyfyngu yn unol â Phennod 3 o'r Canllawiau Ymarfer, oni bai bod ganddynt un neu fwy o'r cymwysterau addas a restrir uchod, neu eu bod yn gallu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd sy'n berthnasol i'r gweithgareddau cyfyngedig y byddant yn eu cyflawni:

- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST) neu'r SFSORB
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, yr IFST neu'r SFSORB ynghyd â'r Ardystiad Safonau Bwyd
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, yr IFST neu'r SFSORB ynghyd â'r Ardystiad Arolygu Bwyd
- Tystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, yr IFST neu'r SFSORB

### 3.4.2 Safonau bwyd

O ran safonau bwyd, mae'r gofyniad 'cymhwyster addas' yn cael ei fodloni os oes gan swyddog un neu ragor o'r cymwysterau a ganlyn (neu'r fersiynau cynharach ohonynt):

- Tystysgrif Ymarferydd Safonau Masnach y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI), gydag uned Safonau Bwyd y Diploma Ymarferydd Safonau Masnach
- Diploma'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS), gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Safonau Bwyd
- Diploma Uwch y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (HDCATS), gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Safonau Bwyd
- Diploma mewn Safonau Masnach
- Diploma mewn Materion Defnyddwyr (DCA Rhan II) ar yr amod ei fod yn cynnwys y papur Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Modiwl darparu gwasanaeth Tystysgrif Cymhwysedd mewn Safonau Bwyd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach
- Tystysgrif Sgiliau Craidd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (CSCATS), gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Safonau Bwyd
- Tystysgrif Cymhwysedd mewn Bwyd ac Amaethyddiaeth y Diploma mewn Materion Defnyddwyr
- Tystysgrif Uwch mewn Rheoli Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB neu CIEH
- Tystysgrif Uwch mewn Rheolaeth Swyddogol a ddyfarnwyd gan yr SFSORB
- Tystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Rheoli Hylendid a Safonau Bwyd (APC) a ddyfarnwyd gan CIEH

- Tystysgrif Gofrestru a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB) i ganiatáu i’r sawl a gofrestrwyd ymarfer fel Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd
- Diploma mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan yr EHRB neu'r REHIS
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Gradd Meistr mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan yr EHRB, IFST neu’r SFSORB gyda’r Ardystiad Safonau Bwyd
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safonau Bwyd a ddyfarnwyd gan yr SFSORB
- Prentisiaeth Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd (Gradd Integredig)

Yn ogystal, ar gyfer sefydliadau busnes bwyd lle caiff systemau sicrhau ansawdd eu hasesu, dylai fod gan swyddogion hefyd gymhwyster Sicrhau Ansawdd, neu brofiad a chymhwysedd proffesiynol cyfatebol, i sicrhau bod modd iddynt asesu systemau sicrhau ansawdd.

### 3.4.3 Hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd

Os nad yw swyddogion Awdurdodau Bwyd sy’n gorfodi’r gofynion hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd eisoes yn meddu ar un o’r cymwysterau a restrir yn adrannau 3.4.1 neu 3.4.2, rhaid eu bod yn meddu ar un neu ragor o’r cymwysterau a ganlyn (neu’r fersiynau cynharach ohonynt):

- Tystysgrif Ymarferydd Safonau Masnach y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI) ynghyd ag uned Bwyd Anifeiliaid y Diploma Ymarferydd Safonau Masnach
- Diploma Uwch y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (HDCATS), gyda’r Modiwl Darparu Gwasanaeth Iechyd Anifeiliaid
- Diploma’r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS), gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Iechyd Anifeiliaid
- Diploma’r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS), gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Amaethyddiaeth
- Tystysgrif Cymhwysedd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Amaethyddiaeth
- Tystysgrif Cymhwysedd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Iechyd Anifeiliaid
- Tystysgrif Sgiliau Craidd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (CSCATS), gyda’r Modiwl Darparu Gwasanaeth Amaethyddiaeth

Yn ogystal, ar gyfer sefydliadau busnes bwyd lle caiff systemau sicrhau ansawdd eu hasesu, dylai fod gan swyddogion hefyd gymhwyster Sicrhau Ansawdd, neu brofiad a chymhwysedd proffesiynol cyfatebol, i sicrhau bod modd iddynt asesu systemau sicrhau ansawdd.

Caiff y gofyniad ‘cymhwyster addas’ ar gyfer swyddogion sy'n ymgymryd â’r rheolaethau a ganlyn ei fodloni os oes ganddynt un o’r cymwysterau achrededig a restrir yn adran 3.4.1:

- sefydliadau busnes bwyd y mae gofynion Rheoliad (UE) 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin (*sprouts*) yn berthnasol iddynt;
- arolygiadau o gychod pysgota y mae gofynion Rheoliad (CE) 852/2004 yn berthnasol iddynt os oes ganddynt un neu ragor o’r cymwysterau addas a restrir yn Adran 3.4.1.

#### 3.4.4 Cymwysterau cyfwerth

Gall swyddogion neu ddarpar swyddogion Awdurdod Bwyd fod wedi ennill cymwysterau a phrofiad amrywiol, a chael hyfforddiant ychwanegol, sydd, gyda’i gilydd, yn dangos eu bod yn gymwys i gyflawni gweithgareddau gorfodi penodol a nodir yn y Cod. Mewn achosion o’r fath, dylai’r Awdurdod Bwyd sy’n cyflogi’r swyddog, neu’r darpar swyddog ei hun, gysylltu’n uniongyrchol â’r cyrff proffesiynol a’r cyrff dyfarnu perthnasol i gael asesiad cyfwerthedd (gall fod angen talu ffioedd). Rhaid asesu cyfwerthedd yn erbyn y cymwysterau a restrir yn adrannau 3.4.1, 3.4.2 a 3.4.3 fel y bo'n briodol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- ystyried cymwysterau a phrofiad addas a enillwyd tu allan i’r DU yn un o aelod-wladwriaethau’r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir[84];
- cysylltu â'r cyrff proffesiynol a’r cyrff dyfarnu perthnasol os oes ganddynt unrhyw amheuon o ran y mater hwn cyn iddynt gadarnhau penodiad.

## 3.5 Gofynion ar gyfer staff sy'n ymgymryd â rheolaethau mewnforio ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid mewn Mannau Rheoli ar y Ffin

#### 3.5.1 Arolygwyr pysgod swyddogol

Os yw cymeradwyaeth y Man Rheoli ar y Ffin yn caniatáu mewnforio unrhyw gynhyrchion pysgodfeydd, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw, echinodermau byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw y bwriedir eu bwyta gan bobl, caiff yr Awdurdod Bwyd benodi swyddogion iechyd yr amgylchedd sydd wedi cael hyfforddiant addas, neu unigolion eraill sydd wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill, i fod yn arolygwyr pysgod swyddogol ar gyfer y safle hwnnw mewn perthynas â chynhyrchion o'r fath.

[84] Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio ac ati) (Ymadael â’r UE) 2019

Bydd gan unrhyw arolygydd pysgod swyddogol o'r fath holl bwerau milfeddyg swyddogol mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny[85].

### 3.5.2 Gwiriadau dogfennol a gwiriadau hunaniaeth

Gall Awdurdodau Bwyd awdurdodi swyddogion i gynnal gwiriadau dogfennol a gwiriadau hunaniaeth ar anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion egino neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid[86].

### 3.5.3 Gwiriadau ffisegol

Gall Awdurdodau Bwyd ddynodi swyddogion awdurdodedig i gynnal gwiriadau ffisegol ar[87]:

- anifeiliaid dyfrol[88]
- cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid (ac eithrio cig ac offal cig bwytadwy)
- cynhyrchion egino
- sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Gall Awdurdodau Bwyd hefyd ddynodi swyddogion awdurdodedig i gynorthwyo milfeddygon swyddogol gyda gwiriadau ffisegol ar [89]:

- anifeiliaid (ar wahân i'r anifeiliaid dyfrol a restrir uchod)
- cig ac offal cig bwytadwy

Rhaid i swyddogion sydd wedi'u dynodi i gynnal neu gynorthwyo gyda gwiriadau ffisegol fod wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant y darperir ar ei chyfer yn Erthygl 3 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081[90].

### 3.5.4 Penderfyniadau ar lwythi o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

O ran penderfyniadau[91]:

- rhaid i benderfyniadau ar lwythi o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion egino neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu gwneud gan filfeddyg swyddogol[92]
- gall penderfyniadau ar gynhyrchion pysgodfeydd, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw, echinodermau byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol

---

[85] Rheoliad 23(11) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2019 sy'n diwygio Rheoliad 12(4) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

[86] Erthygl 49(1) o Reoliad (UE) 2017/625

[87] Erthygl 49(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

[88] Rheoliad (UE) Rhif 2016/429

[89] Erthygl 49(2)(a) o Reoliad (UE) 2017/625

[90] Erthyglau 49(2)(a) a 49(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

[91] Erthygl 55 o Reoliad (UE) 2017/625

[92] Erthygl 55(2)(a) o Reoliad (UE) 2017/625

byw y bwriedir eu bwyta gan bobl gael eu gwneud gan arolygwr pysgod swyddogol[93]

## 3.6 Gofynion ar gyfer staff sy’n cynnal rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion nad ydynt yn dod o anfeiliaid ar Fannau Rheoli ar y Ffin

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion awdurdodedig sy’n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill ar fewnforio bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid[94], nwyddau sy'n destun mesur brys[95] neu amodau neu fesurau penodedig[96], a deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd sy’n peri risg uchel[97] mewn Mannau Rheoli ar y Ffin yn cyflawni'r gofynion awdurdodi a bennir yn adran 3.3.2.

## 3.7 Gofynion cymwyseddau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod:

- swyddog(ion) bwyd arweiniol,
- swyddogion awdurdodedig,
- swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol mewn Mannau Rheoli ar y Ffin (gweler adrannau 3.5 a 3.6);
- swyddogion cymorth rheoleiddio,

yn gallu dangos eu bod yn bodloni'r cymwyseddau sy'n berthnasol i'w rôl ac i'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni, fel y’u nodir:

- yn Fframwaith Cymwyseddau’r ASB — Gwybodaeth a sgiliau i roi’r rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gweithgareddau eraill ar waith yn effeithiol;
- ym Mhennod 3 o’r Cod a’r Canllawiau Ymarfer.

## 3.8 Gofynion hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion awdurdodedig:

[93] Rheoliad 12(4) o Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011
[94] Erthygl 47(1)(d) o Reoliad (UE) 2017/625
[95] Erthygl 47(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625
[96] Erthygl 47(1)(f) o Reoliad (UE) 2017/625
[97] Rheoliad (UE) 284/2011

(a) yn cael hyfforddiant priodol sy’n seiliedig ar egwyddorion datblygiad proffesiynol parhaus[98];

(b) yn cael hyfforddiant ychwanegol rheolaidd yn ôl yr angen;

(c) yn cael hyfforddiant ar destunau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II o Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Bwyd sy'n deillio o'r Rheoliad hwn ac sy’n berthnasol i'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni;

(d) yn diweddaru eu hyfforddiant a’u datblygiad proffesiynol parhaus, a’u hadolygu bob blwyddyn;

(e) yn dilyn hyfforddiant a bennir gan swyddog(ion) bwyd arweiniol neu swyddog awdurdodedig cymwys arall i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion sy’n dod i’r amlwg yn yr asesiad cymhwysedd;

(f) yn cadw cofnodion o’u hyfforddiant a’u datblygiad proffesiynol parhaus – gall hyn fod ar gyfrifiadur[99].

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn parhau i fod yn gymwys drwy iddynt gael o leiaf 20 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod yr 20 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- o leiaf 10 awr ar destunau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II o Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Bwyd sy'n deillio o'r Rheoliad hwn sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y maent wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni;
- 10 awr ar faterion proffesiynol eraill.

Nid oes rhaid i swyddogion cymorth rheoleiddio gyflawni nifer ofynnol o oriau o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus, ond rhaid iddynt gael hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni.

### 3.8.1 Rhaglenni hyfforddi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- llunio a gweithredu rhaglen hyfforddi i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn cael yr hyfforddiant y cyfeirir ato yn adran 3.7.1 pwyntiau (a) i (c) sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni;
- sicrhau bod eu rhaglenni hyfforddi yn seiliedig ar unrhyw feysydd lle nad oes gan swyddog awdurdodedig gymhwysedd digonol i gyflawni ei rôl bresennol neu i ymgymryd â gweithgareddau mewn meysydd newydd, a sicrhau bod eu rhaglenni hyfforddi’n mynd i’r afael â’r meysydd hynny.

---

[98] Erthygl 5(4) o Reoliad (UE) 2017/625 a Phennod 2, paragraff 5.4 o'r Cytundeb Fframwaith

[99] Pennod 2, paragraff 5.5 o'r Cytundeb Fframwaith

# Pennod 4 Cynnal ymyriadau

## 4.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn ymdrin â chynnal rheolaethau bwyd swyddogol (eu dulliau a'u technegau)[100], gweithgareddau swyddogol eraill ac ymyriadau amgen.

## 4.2 Cynnal rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- eu bod yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol o ran pob gweithredwr yn rheolaidd, ar sail risg ac ar amlder priodol, gan ystyried y risgiau a nodwyd o ran[101]:
  - i) anifeiliaid a nwyddau;
  - – y gweithgareddau a reolir gan weithredwyr;
  - – lleoliad gweithgareddau neu weithrediadau gweithredwyr;
  - – unrhyw gynhyrchion, prosesau, deunyddiau neu sylweddau a ddefnyddir a allai ddylanwadu ar ddiogelwch, uniondeb ac iachusrwydd bwyd, neu ddiogelwch bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid neu les anifeiliaid, iechyd planhigion neu, yn achos organebau a addaswyd yn enetig a chynhyrchion diogelu planhigion, a allai hefyd effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd;
- unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu ei bod yn debygol y gallai defnyddwyr gael eu camarwain, yn enwedig o ran natur bwyd, ei enw, ei briodweddau, ei gyfansoddiad, y swm neu'r nifer, pa mor hir y bydd yn para, ei wlad neu ei leoliad tarddiad, neu ei ddull cynhyrchu neu weithgynhyrchu;
- hanes blaenorol gweithredwyr o ran canlyniadau'r rheolaethau bwyd swyddogol a gyflawnwyd mewn perthynas â nhw a'u cydymffurfiaeth â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625;
- dibynadwyedd a chanlyniadau'r rheolaethau a gyflawnwyd gan y gweithredwyr eu hunain, neu gan drydydd parti ar eu cais, gan gynnwys, lle bo'n briodol, cynlluniau sicrhau ansawdd preifat, i bennu a yw'r gweithredwyr yn cydymffurfio â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625;
- unrhyw wybodaeth a allai awgrymu nad yw gweithredwyr yn cydymffurfio â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2).

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- eu bod yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol yn rheolaidd, ar amlderau priodol a bennir ar sail risg, i gael hyd i achosion lle y gallai'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625 fod wedi'u torri'n fwriadol drwy arferion twyllodrus neu ddichellus, a'u bod yn ystyried gwybodaeth am

---

[100] Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625
[101] Erthygl 9(1) o Reoliad (UE) 2017/625

achosion o'r fath a rennir drwy systemau cymorth gweinyddol ac unrhyw wybodaeth arall sy'n awgrymu y gallai achosion o'r fath fod wedi digwydd[102]

- eu bod yn cyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol i'r graddau mwyaf posibl mewn modd sy'n lleihau i'r eithaf y baich gweinyddol ar weithredwyr busnesau bwyd, ac yn tarfu cyn lleied â phosibl ar eu gweithrediadau, ond heb i hynny effeithio'n negyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau[103]
- eu bod yn cyflawni'r rheolaethau bwyd swyddogol mewn ffordd dryloyw iawn[104]
- pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau yng nghyd-destun rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfrinachedd a geir yn Erthygl 8 o Reoliad (UE) 2017/625
- bod busnesau bwyd yn darparu digon o wybodaeth i Awdurdodau Bwyd er mwyn iddynt bennu a yw'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd a gynhelir mewn sefydliadau bwyd, neu mewn cysylltiad â nhw, yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gyflawni rheolaethau yn yr un modd, gan ystyried yr angen i addasu'r rheolaethau i'r sefyllfa benodol, ni waeth a yw'r anifeiliaid a'r nwyddau dan sylw yn cael eu mewnforio, eu hallforio, neu eu rhoi ar y farchnad yn y DU[105].

### 4.2.1 Rhoi gwybod am reolaethau bwyd swyddogol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal rheolaethau bwyd swyddogol heb roi rhybudd ymlaen llaw, ac eithrio mewn achosion fel archwiliadau lle mae angen rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd ymlaen llaw[106]. I roi gwybod ymlaen llaw, rhaid bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cynnal y rheolaeth swyddogol a rhaid bod modd cyfiawnhau gwneud hynny. Mae Pennod 4 o'r Canllawiau Ymarfer yn rhoi enghreifftiau o achosion lle y gall fod yn dderbyniol rhoi gwybod ymlaen llaw.

### 4.2.2 Cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol

Rhaid i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau i roi sylw iddynt pan fyddant yn cyflawni rheolaeth swyddogol mewn sefydliad busnes bwyd. Mae arnynt ddyletswydd i'w sicrhau eu hunain a'r ASB fod y sefydliad busnes bwyd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y gyfraith bwyd.

Os oes cynllun arolygu Prif Awdurdod ar waith, rhaid i swyddogion awdurdodedig ei ddilyn a rhaid iddynt roi adborth i'r Prif Awdurdod os oes angen.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd, fel y bo'n berthnasol ac yn briodol i'r math o sefydliad, wneud y pethau hyn:

- pennu hyd a lled gweithgareddau'r busnes a'r gyfraith bwyd sy'n berthnasol i'r gweithrediadau a gyflawnir ganddo, gan gynnwys unrhyw newidiadau perthnasol ers cynnal y rheolaeth swyddogol ddiwethaf

---

[102] Erthygl 9(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[103] Erthygl 9(5) o Reoliad (UE) 2017/625
[104] Erthygl 11(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[105] Erthygl 9(6) o Reoliad (UE) 2017/625
[106] Erthygl 9(4) o Reoliad (UE) 2017/625

- pan fydd cwmpas arolygiad yn gyfyngedig, cofnodi'r rhesymau dros gynnal arolygiad o'r fath yn ffeil y sefydliad, a nodi cwmpas yr arolygiad rhannol yn yr adroddiad arolygu a roddir i weithredwr y busnes bwyd
- asesu'r risg na fydd y busnes bwyd yn bodloni gofynion y gyfraith bwyd
- nodi unrhyw achosion lle cafodd y gyfraith bwyd ei thorri, neu lle y gallai fod wedi'i thorri, ac, os yw'n briodol, casglu a chadw tystiolaeth
- mynd ati'n drylwyr ac yn drefnus i gasglu ac i gofnodi gwybodaeth drwy arsylwi ar arferion, gweithdrefnau a phrosesau, gan gynnwys gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP), a thrwy drafod â gweithredwr y busnes bwyd a'i staff
- cofnodi digon o wybodaeth am eu canfyddiadau i ddangos yr hyn a gafodd ei archwilio/arolygu, sut y mae'r sefydliad busnes bwyd yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd, ac unrhyw ddiffygion a bennwyd
- asesu a ddylid cymryd samplau, a chofnodi manylion y samplau a gymerir
- pennu'r camau gorfodi perthnasol a rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd a'r Prif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref, os oes awdurdod o'r fath ar gael, am unrhyw fwriad i roi camau o'r fath ar waith. Os oes Prif Awdurdod, mae'n rhaid i'r cyfathrebiad fod yn unol â gofynion statudol y cynllun Prif Awdurdod.
- seilio arolygiadau ac archwiliadau ar y ffurflen enghreifftiol berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw, os oes ffurflen o'r fath wedi'i llunio

### 4.2.3 Cofnodion ysgrifenedig am reolaethau bwyd swyddogol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd lunio cofnodion ysgrifenedig am bob rheolaeth swyddogol y maent yn ei chyflawni. Caiff y cofnodion hynny fod ar bapur neu ar ffurf electronig, a rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth a restrir ym Mhennod 4 o'r Canllawiau Ymarfer[107].

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod yn brydlon ac yn ysgrifenedig i weithredwr busnes bwyd am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a bennwyd drwy'r rheolaethau bwyd swyddogol, a rhoi copi o'r cofnod ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd, ac eithrio yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- pan fydd cam gorfodi neu achos llys yn gofyn fel arall
- pan fydd tystysgrif swyddogol neu ardystiad swyddogol wedi'i r(h)oi

### 4.2.4 Arolygiadau cychwynnol

Nid yw'r adran hon yn berthnasol i sefydliadau ar lefel cynhyrchu cynradd, ac eithrio llongau pysgota a'r sefydliadau busnes bwyd hynny y mae gofynion Rheoliad (UE) 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin yn berthnasol iddynt.

Mae'r adran hon yn berthnasol:

- i sefydliadau busnes bwyd newydd sy'n dod i sylw'r Awdurdod Bwyd am y tro cyntaf
- i sefydliadau busnes bwyd nad oes ganddynt sgôr risg hanesyddol
- i sefydliadau busnes bwyd lle mae gweithredwr y busnes bwyd wedi newid

[107] Erthyglau 13(1) ac 13(2) o Reoliad (UE) 2017/625

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- pennu'r sgôr(iau) ymyrryd ar ôl cynnal arolygiad cychwynnol
- sicrhau bod arolygiadau cychwynnol yn cael eu cynnal cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad gofrestru neu ar ôl i'r awdurdod ddod i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf
- defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan weithredwyr busnesau bwyd pan fyddant yn cofrestru eu sefydliadau busnes bwyd i benderfynu pryd i gynnal arolygiad cychwynnol

## 4.3 Cynlluniau sgorio ymyriadau bwyd

### 4.3.1 Pa mor aml y dylid cynnal ymyriadau, a gofynion dull o weithredu sy'n seiliedig ar risg

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith bwyd sicrhau:

- eu bod yn pennu'r math o ddull neu dechneg o ymgymryd â rheolaethau swyddogol, a pha mor aml y byddant yn cynnal y rheolaethau hynny, ar gyfer busnesau bwyd yn eu hardal[108] drwy ddefnyddio'r cynllun sgorio ymyriadau berthnasol ar gyfer hylendid bwyd a/neu safonau bwyd a nodir yn adran 4.4 ac Atodiad 1[109], oni bai eu bod yn cael eu cynghori fel arall gan yr ASB yn unol â pharagraff 2.3 o'r Cod
- eu bod yn cynllunio eu rhaglenni ymyriadau er mwyn i sefydliadau gael ymyriad dim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y dylent gael ymyriad. Mewn sefyllfaoedd sydd tu hwnt i reolaeth Awdurdod Bwyd, fel pan fydd busnesau tymhorol wedi cau, gall Awdurdodau Bwyd ddewis gohirio ymyriad
- bod eu swyddogion yn defnyddio'r ystod lawn o sgoriau sydd ar gael yn y cynllun sgorio ymyriadau perthnasol yn Atodiad 1
- os yw busnesau'n syrthio i fwy nag un categori sgorio ar gyfer ffactor sgorio, bod rhaid rhoi'r sgôr uchaf iddynt o blith y sgoriau hynny sy'n berthnasol
- bod ymyriadau mewn busnesau risg uchel, neu'r rheiny sy'n debygol o fod yn rhai risg uchel, bob amser yn cael blaenoriaeth dros ymyriadau mewn busnesau risg isel
- bod eu swyddogion yn ystyried gwybodaeth a ddarperir gan eraill pan fyddant yn pennu sgôr ymyrryd sefydliad, gan gynnwys:
  - Awdurdodau Bwyd eraill
  - ffynonellau eraill fel cyrff masnach
  - Prif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref

---

[108] Pennod 2, paragraff 7.1 o'r Cytundeb Fframwaith

[109] Pan fo Awdurdod Bwyd yn gyfrifol am orfodi safonau bwyd yn unig, neu pan fo'r un Awdurdod Bwyd yn gyfrifol am orfodi'r gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd, gall yr asesiad risg safonau bwyd fod yn seiliedig ar y cynllun asesu risg Safonau Masnach, ond dim ond tra mae'r cynllun hwnnw'n cynnal archwiliadau yr un mor aml ag y nodir yn Atodiad 1

- archwiliadau trydydd parti

#### 4.3.2 Adolygu sgoriau ymyrryd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu swyddogion:

- dim ond yn adolygu sgôr/sgoriau ymyrryd sefydliad busnes bwyd ar ddiwedd arolygiad neu archwiliad, boed yn rhannol neu'n llawn, yn unol ag adran 4.4 ac Atodiad 1 (neu unrhyw ddiwygiad iddynt y mae'r ASB wedi rhoi gwybod i'r Awdurdodau Bwyd amdano);
- wedi casglu digon o wybodaeth i gyfiawnhau adolygu'r sgôr ymyrryd;
- yn cofnodi'r sgôr ymyrryd, a'r cyfiawnhad dros ei hadolygu.

Pan fydd gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg a allai awgrymu bod natur gweithgareddau gweithredwr busnes bwyd wedi newid neu fod ei lefel gydymffurfio wedi dirywio, rhaid i'r Awdurdod Bwyd:

- ailystyried y sgôr ymyrryd a pha mor briodol yw'r ymyriad nesaf y bwriedir ei gynnal yn y sefydliad hwnnw;
- penderfynu a yw'n briodol cynnal arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad i ymchwilio ymhellach;
- adolygu'r sgôr ymyrryd, yn ôl y gofyn;
- cofnodi'r sgôr, a'r cyfiawnhad dros ei hadolygu.

#### 4.3.3 Strategaeth Orfodi Amgen

Rhaid i bob Awdurdod Bwyd lunio Strategaeth Orfodi Amgen i bennu sut y bydd yn ymgymryd â'i ddyletswyddau i gynnal rheolaethau swyddogol mewn busnesau cofrestredig y rhoddwyd sgôr risg isel iddynt yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad 1.

Rhaid i'r strategaeth hon ddarparu dull o gadw gwyliadwriaeth ar fusnesau bwyd perthnasol i bennu/nodi a wnaed unrhyw newidiadau ers yr ymyriad diwethaf sy'n peri bod gofyn i'r sefydliad gael arolygiad neu ymyriad rheolaeth swyddogol.

### 4.4 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau, a gofynion dull sy'n seiliedig ar risg

#### 4.4.1 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau hylendid bwyd

Nid yw'r adran hon yn berthnasol i sefydliadau bwyd sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd (gweler adran 4.4.3).

##### 4.4.1.1 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori A neu B ar gyfer hylendid bwyd

O ran sefydliad sydd wedi cael sgôr ymyrryd A neu B ar gyfer hylendid bwyd, rhaid i'r ymyriad priodol a gynllunnir fod yn arolygiad, yn arolygiad rhannol, neu'n archwiliad, a rhaid ei gynnal ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a bennir yn Atodiad 1.

Rhaid cofnodi unrhyw ymyriad ychwanegol arall, fel samplu neu addysg a hyfforddiant, yn erbyn y sefydliad at ddibenion monitro camau gorfodi, ond ni chaniateir ei ddefnyddio fel yr ymyriad a gynllunnir ar sail yr amlderau a nodir yn Atodiad 1.

#### 4.4.1.2 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori C ar gyfer hylendid bwyd

Rhaid i sefydliadau sydd wedi cael sgôr ymyrryd C ar gyfer hylendid bwyd gael ymyriad ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a bennir yn Atodiad 1. Gall ymyriadau o'r fath gynnwys arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad hyd nes bod yr Awdurdod Bwyd yn tybio bod y sefydliad yn "cydymffurfio i raddau helaeth" â'r gyfraith bwyd berthnasol. Pan fydd y busnes yn cydymffurfio i raddau helaeth, gall ymyriadau a gynllunnir amrywio rhwng:

- arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad
- math arall o reolaeth swyddogol

#### 4.4.1.3 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori D ar gyfer hylendid bwyd

Rhaid i sefydliadau sydd wedi cael sgôr ymyrryd D ar gyfer hylendid bwyd gael ymyriad ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a bennir yn Atodiad 1. Yn achos sefydliadau o'r fath, gellir cynnal ymyriad sy'n rheolaeth swyddogol ac ymyriad nad yw'n rheolaeth swyddogol am yn ail.

Ceir cyfyngiadau ar y math o reolaeth swyddogol y gall Awdurdodau Bwyd ei chynnal o ran sefydliadau yng nghategori D a chanddynt hefyd sgôr o 30 neu 40 ar gyfer "y math o fwyd a'r dull trin a thrafod" yn Atodiad 1. Mewn sefydliadau o'r fath, rhaid i'r rheolaeth swyddogol fod yn arolygiad, yn arolygiad rhannol, neu'n archwiliad. Gall Awdurdodau Bwyd amrywio rhwng y mathau hyn o reolaethau bwyd swyddogol a mathau eraill o ymyriadau.

#### 4.4.1.4 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori E ar gyfer hylendid bwyd

Gallai sefydliadau sydd wedi cael sgôr ymyrryd categori E ar gyfer hylendid bwyd fod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y sefydliadau hyn yn parhau i fod yn destun rheolaethau swyddogol. Un rheswm pwysig dros hyn yw fel y gellir ymchwilio i gwynion.

Rhaid i'r sefydliadau hyn, ar y lleiaf, fod yn destun ymyriad gan yr Awdurdod Bwyd, a allai fod ar ffurf Strategaeth Orfodi Amgen, yn unol â'r amlderau rhagnodedig a bennir yn Atodiad 1.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n penderfynu gwneud sefydliadau risg isel yn destun Strategaethau Gorfodi Amgen nodi eu strategaethau ar gyfer cynnal gwyliadwriaeth o sefydliadau o'r fath naill ai yn eu cynllun gwasanaeth neu eu polisi gorfodi.

Ni fwriedir i'r hyblygrwydd a gynigir i weithredu Strategaethau Gorfodi Amgen atal arolygu sefydliadau o'r fath yn llawn, eu harolygu'n rhannol neu eu harchwilio, lle mai un o'r rhain yw'r opsiwn ymyrryd a ffefrir gan yr Awdurdod Bwyd.

Pan fo'r sefydliad dan sylw yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, nid yw'r defnydd o Strategaethau Gorfodi Amgen yn fath briodol o ymyriad. Rhaid i'r ymyriad ar gyfer sefydliad o'r fath fod yn rheolaeth swyddogol.

### 4.4.2 Amlder ymyriadau safonau bwyd

#### 4.4.2.1 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori A ar gyfer safonau bwyd

O ran sefydliad sydd wedi cael sgôr ymyrryd A ar gyfer safonau bwyd, rhaid i'r ymyriad priodol a gynllunnir fod yn arolygiad, yn arolygiad rhannol, neu'n archwiliad, a rhaid ei gynnal ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a bennir yn Atodiad 1.

Rhaid cofnodi unrhyw ymyriad ychwanegol arall, fel samplu neu addysg a hyfforddiant, yn erbyn y sefydliad at ddibenion monitro camau gorfodi, ond ni chaniateir ei ddefnyddio fel yr ymyriad a gynllunnir ar sail yr amlderau a nodir yn Atodiad 1.

#### 4.4.2.2 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori B ar gyfer safonau bwyd

Rhaid i sefydliadau â sgôr ymyrryd B ar gyfer safonau bwyd gael ymyriad ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a bennir yn Atodiad 1. Gall ymyriadau o'r fath gynnwys arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad hyd nes bod yr Awdurdod Bwyd yn tybio bod y sefydliad yn "cydymffurfio i raddau helaeth" â'r gyfraith bwyd berthnasol. Pan fydd y busnes yn cydymffurfio i raddau helaeth, gellir cynnal arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad neu fath arall o reolaeth swyddogol, am yn ail fel ymyriadau a gynllunnir.

#### 4.4.2.3 Sefydliadau â sgôr ymyrryd categori C ar gyfer safonau bwyd

Gallai sefydliadau cofrestredig sydd wedi cael sgôr ymyrryd yng nghategori C ar gyfer safonau bwyd fod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y sefydliadau hyn yn parhau i fod yn destun rheolaethau bwyd swyddogol. Un rheswm pwysig am hyn yw er mwyn ymchwilio i gŵynion.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n penderfynu y dylai sefydliadau cofrestredig "risg isel" fod yn destun Strategaethau Gorfodi Amgen amlinellu eu strategaethau i gadw gwyliadwriaeth ar sefydliadau o'r fath yn eu cynlluniau gwasanaeth bwyd a/neu yn eu polisïau gorfodi.

Rhaid i'r sefydliadau hyn, ar y lleiaf, fod yn destun ymyriad gan yr Awdurdod Bwyd, a allai fod ar ffurf Strategaeth Orfodi Amgen, dim llai nag unwaith bob pum mlynedd ar gyfer safonau bwyd. Ni fwriedir i'r hyblygrwydd i ddefnyddio strategaethau gorfodi amgen atal Awdurdodau Bwyd rhag cynnal arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad mewn sefydliadau risg isel os yw'n well ganddynt ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau hyn i gadw gwyliadwriaeth. Os felly, rhaid cynnal ymyriadau mor aml ag sy'n ofynnol o ystyried y sgôr ymyrryd.

Pan fo'r sefydliad dan sylw yn destun cymeradwyaeth dan Reoliad (CE) 853/2004, nid yw'n briodol ymyrryd drwy ddefnyddio strategaethau gorfodi amgen. Rhaid i'r ymyriad mewn sefydliad o'r fath fod yn rheolaeth swyddogol.

### 4.4.3 Cynhyrchu cynradd

Pan fydd yn penderfynu ar ymyriadau ar lefel cynhyrchu cynradd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd wneud y defnydd gorau posibl o'r dystiolaeth sydd ar gael. Isod, rhestrir enghreifftiau o wybodaeth leol neu wybodaeth arall y gall yr Awdurdod Bwyd ei

defnyddio pan fydd yn blaenoriaethu ymyriadau ac yn ystyried a oes angen cynnal arolygiad:

- a oes cynnyrch ffres yn cael ei dyfu sy'n barod i'w fwyta, er enghraifft:
  - 'dail gwyrdd' fel dail salad, egin bach, berwr dwr, perlysiau ffres;
  - llysiau â choes neu fwlb, fel radish, seleri, nionod/winwns salad;
  - aeron fel mefus a mafon;
  - tomatos;
  - madarch;
- aelodaeth o gynllun sicrwydd cymeradwy'r ASB – gweler Pennod 4 o'r Canllawiau Ymarfer;
- newid i weithgareddau'r busnes;
- hanes y busnes o gydymffurfio;
- y mathau o gyflenwad dŵr ar gyfer dyfrhau ac ati;
- y defnydd o gompost neu dail nad yw wedi ei drin ddigon neu o gwbl;
- gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg drwy arolygiadau statudol eraill;
- problemau defnyddwyr a chwsmeriaid (diwydiant);
- cynllun arolygu a gyhoeddwyd fel rhan o Bartneriaeth Prif Awdurdod;
- gwybodaeth yn sgil cadw gwyliadwriaeth ar gynhyrchion trafferthus a chynhyrchion sy'n gysylltiedig â salwch a gludir gan fwyd.

## 4.5 Samplu

Mae samplu bwyd a dadansoddi ac archwilio dilynol yn cyflawni swyddogaeth hanfodol, gan ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd ar farchnad y DU, cefnogi camau gorfodi i ddiogelu defnyddwyr, a galluogi'r ASB i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol fel Awdurdod Cymwys Canolog.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- y caiff samplu bwyd ei gynnal yn effeithiol ac yn gyson yn unol â gofynion y Cod, a Phenodau 2 a 4 o'r Canllawiau Ymarfer
- eu bod yn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â gofynion Pennod 6 y Cod, a Phennod 6 y Canllawiau Ymarfer

## 4.6 Rheolaethau mewnforio

### 4.6.1 Swyddog enwebedig ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio

Rhaid i Awdurdodau Bwyd lle ceir Man Rheoli ar y Ffin enwebu swyddog neu swyddogion i ymdrin â materion sy'n ymwneud â bwyd wedi'i fewnforio, a rhaid iddynt anfon neges at lasupportwales@food.gov.uk i roi'r manylion a ganlyn i'r ASB:

- enw a manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) y swyddog(ion) enwebedig
- unrhyw newidiadau i'r manylion hyn, cyn gynted ag y bo'n ymarferol

### 4.6.2 Rheolaethau mewndirol

#### 4.6.2.1 Anifeiliaid a nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn Mannau Rheoli ar y Ffin

Mae’n rhaid i Awdurdodau Bwyd:

- sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol ar lwythi o'r categorïau anifeiliaid a nwyddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 47 o Reoliad (UE) 2017/625 wrth i’r llwyth gyrraedd y Man Rheoli ar y Ffin yn cael eu cynnal yn unol ag Erthyglau 47 i 64 o Reoliad (UE) 2017/625110. Rhaid i'r rheolaethau bwyd swyddogol hynny gynnwys gwiriadau dogfennol, gwiriadau hunaniaeth a gwiriadau ffisegol[111]
- os bydd amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio ac o ddiffyg cydymffurfio anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU, rhaid gweithredu rheolaethau bwyd swyddogol i gadarnhau neu i ddileu'r amheuaeth honno, a chymryd mesurau priodol a phenderfyniadau dilynol gydag achosion lle nad yw llwythi yn cydymffurfio[112]

#### 4.6.2.2 Anifeiliaid a nwyddau ac eithrio'r rhai sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn Mannau Rheoli ar y Ffin

Mae’n rhaid i Awdurdodau Bwyd:

- gynnal rheolaethau bwyd swyddogol yn rheolaidd, ar sail risg ag ar amlderau priodol, ar anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU nad yw Erthygl 47 o Reoliad (UE) 2017/625 yn berthnasol iddynt [113]
- sicrhau bod amlder priodol y rheolaethau bwyd swyddogol yn cael ei bennu, gan ystyried [114]:
  - y peryglon i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu, o ran GMOs a chynhyrchion amddiffyn planhigion, hefyd i'r amgylchedd, sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o anifeiliaid a nwyddau
  - unrhyw wybodaeth sy'n nodi'r tebygolrwydd y gallai defnyddwyr gael eu camarwain, yn enwedig o ran natur, hunaniaeth, priodweddau, cyfansoddiad, maint, gwydnwch, gwlad neu fan tarddiad, dull cynhyrchu neu weithgynhyrchu nwyddau
  - hanes cydymffurfio’r drydedd wlad a sefydlu tarddiad neu fan cynhyrchu, fel y bo'n briodol, yr allforiwr, neu'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth
  - y rheolaethau sydd eisoes wedi'u cynnal ar yr anifeiliaid a'r nwyddau dan sylw
  - y gwarantau y mae Awdurdodau Bwyd y drydedd wlad tarddiad wedi eu rhoi mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr anifeiliaid a'r nwyddau â'r gofynion a sefydlwyd gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625 neu gyda'r gofynion a gydnabyddir i fod o leiaf yn gyfwerth â’r gofynion hyn

---

110 Erthygl 43 o Reoliad (UE) 2017/625
111 Erthyglau 49 a 54 o Reoliad (UE) 2017/625
112 Erthyglau 65 i 72 o Reoliad (UE) 2017/625
113 Erthygl 44(1) o Reoliad (UE) 2017/625
114 Erthygl 44(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- nifer y llwythi sy’n cyrraedd y porthladd (yn enwedig os nad yw’r deunydd wedi’i weld o’r blaen neu heb ei weld yn aml)
- unrhyw faterion sy'n ymwneud â dibynadwyedd unrhyw wiriadau a allai fod eisoes wedi'u cynnal
- Blaenoriaethau samplu'r ASB
- gwybodaeth flaenorol am y cynnyrch
- Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol yr ASB (Lloegr) (gellir cyfeirio atynt)

- sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol yn:
  - cynnwys gwiriad dogfennol bob amser[115]
  - cynnwys gwiriadau hunaniaeth a gwiriadau ffisegol gan ddibynnu ar y risg i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu, o ran GMOs a chynhyrchion amddiffyn planhigion, hefyd i'r amgylchedd[116]
  - sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau ffisegol o dan amodau priodol gan ganiatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal yn iawn[117]
- sicrhau bod rheolaethau bwyd swyddogol yn cael eu cynnal mewn man priodol yn y DU, gan gynnwys[118]:
  - y pwynt mynediad i'r DU
  - pwynt rhyddhau cynhyrchion i'w cylchredeg yn rhydd ym Mhrydain Fawr
  - Man Rheoli ar y Ffin
  - warysau a safle’r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth
  - y gyrchfan
- sicrhau, lle mae gwiriadau dogfennol, gwiriadau hunaniaeth neu wiriadau ffisegol yn dangos nad yw anifeiliaid a nwyddau yn cydymffurfio â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, eu bod yn cymryd camau gorfodi yn unol ag Erthyglau 66 i 72, 137 a 138 o Reoliad (UE) 2017/625[119]
- mewn achos o amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio ac o anifeiliaid a nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio yn dod i mewn i'r DU, cynnal rheolaethau bwyd swyddogol i gadarnhau neu i ddileu’r amheuaeth, a chymryd camau priodol a phenderfyniadau dilynol gyda llwythi nad ydynt yn cydymffurfio[120]

#### 4.6.2.3 Samplau a gymerir o anifeiliaid a nwyddau ac eithrio'r rhai sy'n destun rheolaethau swyddogol mewn Mannau Rheoli ar y Ffin

Pan gymerir samplau o anifeiliaid a nwyddau, rhaid i'r Awdurdod Bwyd[121]:

- hysbysu'r gweithredwyr dan sylw a, lle bo hynny'n briodol, yr awdurdodau tollau

115 Erthygl 45(1)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
116 Erthygl 45(1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
117 Erthygl 45(2) o Reoliad (UE) 2017/625
118 Erthygl 44(3) o Reoliad (UE) 2017/625
119 Erthygl 45(3) o Reoliad (UE) 2017/625
120 Erthyglau 65 i 72 o Reoliad (UE) 2017/625
121 Erthygl 46 o Reoliad (UE) 2017/625

- penderfynu a oes angen cadw'r anifeiliaid neu'r nwyddau hyd nes y ceir canlyniadau'r dadansoddiad, y prawf neu'r diagnosis, neu benderfynu a ellir eu rhyddhau ar yr amod bod sicrwydd y gellir olrhain yr anifeiliaid neu'r nwyddau.

### 4.6.3 Rheolaethau swyddogol ar ddulliau cludo a phecynnu

Rhaid i Awdurdodau Bwyd mewn Mannau Rheoli ar y Ffin a phwyntiau mynediad eraill i'r DU gynnal rheolaethau bwyd swyddogol ar y canlynol pryd bynnag y mae ganddynt reswm i gredu y gallai eu mynediad i'r DU beri risg i iechyd pobl, iechyd planhigion, lles anifeiliaid neu, o ran GMOs a chynhyrchion amddiffyn planhigion, hefyd i'r amgylchedd[122]:

- dull cludo, gan gynnwys lle mae'n wag
- deunydd pecynnu, gan gynnwys paledi

### 4.6.4 Dim presenoldeb parhaol wrth bwynt mynediad

Lle nad oes presenoldeb parhaol gan yr Awdurdod Bwyd mewn man mynediad, ac nad yw'r Awdurdod Bwyd perthnasol yn ei ystyried yn bwynt mynediad ar gyfer bwyd, rhaid iddynt (o leiaf unwaith bob tri mis) gysylltu â:

- gweithredwr y porthladd
- asiantaethau perthnasol eraill
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (CThEM)
- gweithredwyr masnachol eraill

Diben y trefniadau hyn yw sicrhau bod gan Awdurdodau Bwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am fwyd sy'n cael ei fewnforio. Bydd hyn yn galluogi penderfyniadau seiliedig ar risg ar dargedu camau gorfodi a sicrhau bod rheolaethau neu gyfyngiadau brys ar rai bwydydd risg uwch yn cael eu gorfodi.

---

[122] Erthygl 44(4) o Reoliad (UE) 2017/625

# Pennod 5 Digwyddiadau, rhybuddion, a throseddau bwyd

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn trafod y materion a ganlyn:

- digwyddiadau bwyd, peryglon bwyd a Rhybuddion Bwyd
- sut y disgwylir i Awdurdodau Bwyd ymateb i'r pethau hyn, a chysylltu, fel y bo'n briodol, ag Awdurdodau Bwyd eraill, adrannau'r llywodraeth, cyrff dirprwyedig, gweithredwyr busnesau bwyd, yr ASB, asiantaethau perthnasol eraill (a allai gynnwys prif awdurdodau, awdurdodau cartref, awdurdodau gwreiddiol ac awdurdodau cyfagos, arbenigwyr meddygol, archwilwyr bwyd, dadansoddwyr cyhoeddus a microbiolegwyr), a gwledydd y tu allan i'r DU
- rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'r camau i fynd i'r afael â throseddau bwyd.

## 5.2 Digwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd

### 5.2.1 Digwyddiadau bwyd

Diffinnir "digwyddiad bwyd" fel unrhyw ddigwyddiad lle ceir pryderon, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ynglŷn â bygythiadau neu fygythiadau posibl i ddiogelwch, ansawdd neu uniondeb bwyd a allai beri iddi fod yn ofynnol ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Dylid ystyried bod ansawdd yn cynnwys safonau, dilysrwydd a chyfansoddiad bwyd.

Rhennir digwyddiadau bwyd yn ddau gategori a allai orgyffwrdd:

- digwyddiadau peryglus yw digwyddiadau sy'n gysylltiedig (neu yr amheuir eu bod yn gysylltiedig) â pherygl bwyd, neu gyflwr unrhyw fwyd, a allai effeithio'n andwyol ar iechyd neu ddiogelwch defnyddwyr (gan gynnwys achosion o glefyd a gludir gan fwyd a/neu glefyd perfeddol heintus)
- digwyddiadau nad ydynt yn beryglus na allent effeithio'n andwyol ar iechyd na diogelwch defnyddwyr, ond a allai effeithio ar y gadwyn cyflenwi bwyd. Gallai'r rhain gynnwys problemau o ran ansawdd, tarddiad, dilysrwydd, cyfansoddiad, a'r ddarpariaeth o wybodaeth am fwyd

Yn y naill gategori a'r llall, gall fod elfennau o fwriad anonest sy'n awgrymu y gall twyll bwyd/bwyd anifeiliaid neu, ar raddfa helaethach, trosedd bwyd, fod wedi digwydd.

### 5.2.2 Peryglon bwyd

Diffinnir "perygl bwyd" fel unrhyw beth sy'n bresennol mewn bwyd a allai niweidio'r defnyddiwr drwy achosi salwch neu anaf – gall fod yn asiant biolegol, cemegol a/neu ffisegol.

Dylai Awdurdodau Bwyd gategoreiddio peryglon bwyd, a rhoi gwybod i'r ASB lle bo angen, yn ôl y meini prawf a ganlyn:

- **Perygl bwyd lleol** – perygl lle na chaiff y bwyd yr effeithiwyd arno ei ddosbarthu tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Bwyd ac na chaiff ei ystyried yn berygl bwyd lleol

difrifol. Dylai’r Awdurdod Bwyd ymdrin â’r peryglon hyn yn lleol, ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill, ac ni ddylai roi gwybod i’r ASB amdanynt.

- **Perygl bwyd lleol difrifol** – perygl lle na chaiff y bwyd yr effeithiwyd arno ei ddosbarthu tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Bwyd, ond sy'n cynnwys, neu a allai gynnwys:
  - alergenau na chawsant eu datgan
  - adwaith anaffylacsis difrifol sy'n gofyn am ymyrraeth feddygol o ganlyniad i alergenau mewn bwyd, cyfnodau mewn ysbyty neu farwolaeth o ganlyniad i alergenau mewn bwyd
  - *E.coli* O157 neu *Escherichia coli* arall sy’n cynhyrchu verocytotocsin
  - *Clostridium botulinum*
  - *Salmonela typhimurium, Salmonela paratyphi, Salmonela enteritidis*
  - *Listeria monocytogenes*
  - peryglon y mae'r Awdurdod Bwyd yn eu hystyried yn sylweddol oherwydd, er enghraifft, fod Tîm Rheoli Digwyddiad/Tîm Rheoli Achosion wedi'i sefydlu mewn perthynas â'r bwyd, bregusrwydd y boblogaeth y mae’r perygl yn debygol effeithio arni, y niferoedd dan sylw, difrifoldeb y salwch (cyfnodau yn yr ysbyty) neu unrhyw farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.

  Dylai'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB ac asiantaethau perthnasol eraill am y peryglon hyn cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf, cyn cyflwyno’r ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad i gadarnhau’r manylion yn ysgrifenedig.

- **Perygl bwyd nad yw'n lleol** – perygl lle mae’r bwyd yr effeithiwyd arno yn cael ei ddosbarthu tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Bwyd. Dylai'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB ac asiantaethau perthnasol eraill am y peryglon hyn cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf, cyn cyflwyno’r ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad i gadarnhau’r manylion yn ysgrifenedig.

Dylai Awdurdodau Bwyd ofyn am gyngor gan yr ASB os ydynt yn ansicr a yw digwyddiad bwyd yn gyfystyr â pherygl bwyd.

## 5.3 Camau i’w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd

### 5.3.1 Ymateb pan fydd yr ASB yn cysylltu ag ef cyn digwyddiad

Os yw swyddogaethau sganio'r gorwel yr ASB yn nodi mater diogelwch bwyd a allai effeithio ar y DU, gall fod angen i'r ASB wirio hyn drwy gysylltu â'r Awdurdod Bwyd i ofyn iddo gadarnhau â gweithredwr busnes bwyd a yw wedi derbyn unrhyw gynnyrch/gynhyrchion neu gynhwysyn/gynhwysion cysylltiedig.

### 5.3.2 Digwyddiadau y mae mwy nag un Awdurdod Bwyd yn rhan ohonynt

Yn unol â gweithdrefnau cofnodedig yr Awdurdod Bwyd ar gyfer digwyddiadau bwyd a Rhybuddion Bwyd, dylai Awdurdodau Bwyd gyd-drafod a chytuno ar Awdurdod Bwyd arweiniol i arwain y gwaith o ymchwilio i ddigwyddiadau y mae angen i fwy nag un Awdurdod Bwyd fod yn rhan ohonynt.

### 5.3.3 Asesu peryglon bwyd

#### 5.3.3.1 Gofynion cyffredinol

Ar ôl iddo bennu perygl bwyd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd wneud y pethau hyn:

- mynd ati ar unwaith i gynnal asesiad i bennu maint, hyd a lled, a difrifoldeb tebygol y risg y mae'r perygl yn ei pheri i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, gan fynd ati i gynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith fel y bo'n briodol[123]
- categoreiddio'r perygl(on) bwyd yn briodol fel perygl(on) bwyd lleol, perygl(on) bwyd difrifol lleol neu berygl(on) bwyd nad ydynt yn lleol
- os yw’n ansicr, cysylltu â Thîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB i ofyn am gyngor ynghylch a ddylid rhoi gwybod i’r ASB am ddigwyddiad bwyd. Dylid cynnal asesiad i bennu maint, hyd a lled, a difrifoldeb tebygol y risg y mae'r perygl yn ei pheri i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd neu anifeiliaid, gan fynd ati i gynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith fel y bo'n briodol

Dylai'r asesiad roi sylw i'r hyn a ganlyn:

- natur y perygl
- pa mor wenwynig yw'r halogydd, pa mor alergenaidd yw cynhwysyn/cyfansoddyn na chafodd ei ddatgan, neu pa mor niweidiol a phathogenaidd yw'r organeb
- y math o anaf a allai gael ei achosi gan halogydd ffisegol
- y boblogaeth y mae'n debygol o effeithio arni, a pha mor agored i niwed yw'r boblogaeth honno
- lledaeniad daearyddol y perygl
- faint o'r bwyd yr effeithiwyd arno sy'n debygol o fod yn y gadwyn fwyd, ac ym mha ran ohoni, bob cam nes iddo gael ei fwyta
- gallu a pharodrwydd y cynhyrchwr neu'r dosbarthwr i roi proses effeithiol ar waith i dynnu'r cynnyrch yn ôl
- y gallu i adnabod yn gywir y swp/sypiau neu'r lot/lotiau yr effeithiwyd arno/arnynt
- cywirdeb a manylder cofnodion y cynhyrchwr neu'r dosbarthwr
- effeithiolrwydd tebygol unrhyw broses a gyflwynir gan fasnachwyr i dynnu’r cynnyrch yn ôl ym mhob cam o'r gadwyn fwyd
- effeithiolrwydd tebygol unrhyw ymgyrch i alw’r cynnyrch yn ôl gan ddefnyddwyr
- y cam(au) lle mae'r nam yn debygol o fod wedi digwydd (er enghraifft wrth brosesu, pecynnu, trin, storio neu ddosbarthu) ac arwyddocâd tebygol hynny i'r broblem
- p'un a yw’n bosibl bod y broblem wedi effeithio ar unrhyw gynhyrchion eraill a gynhyrchir yn yr un sefydliad
- p'un a yw'r bwyd yr effeithiwyd arno wedi'i fewnforio
- p'un a yw'r bwyd yr effeithiwyd arno wedi'i allforio
- p'un a oes goblygiadau ehangach i eraill yn yr un diwydiant neu i sefydliadau sy'n defnyddio prosesau tebyg mewn diwydiannau bwyd eraill

---

[123] Erthygl 115(2)(c) o Reoliad (UE) 2017/625

- y posibilrwydd bod y gŵyn neu'r broblem yn deillio o weithred faleisus neu dwyllodrus
- p'un a yw'r hyn sydd wrth wraidd y digwyddiad neu'r perygl yn wybyddus, a p'un a oes camau unioni wedi'u cymryd i sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd eto.

Pan fydd Awdurdod Bwyd yn dod i wybod am berygl bwyd, rhaid iddo weithredu i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd cyn gynted â phosibl, gan gynnwys, os oes angen:

- cadw neu atafaelu'r bwyd dan sylw os yw wedi'i leoli yn ardal yr Awdurdod Bwyd
- ystyried defnyddio pwerau eraill fel y bo'n briodol ac yn berthnasol i'r sefyllfa
- defnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf[124] i roi gwybod i'r ASB, drwy ei Thîm Diogelu Defnyddwyr, ac i asiantaethau perthnasol eraill os yw gweithredwr busnes bwyd yn ei ardal wedi tynnu bwyd oddi ar y farchnad neu alw bwyd yn ôl yn unol ag Erthygl 19 o Reoliad (CE) 178/2002[125] oherwydd nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd y Rheoliad hwnnw (gweler yr adran honno sy'n ymwneud â dadansoddi gwraidd y broblem ym Mhennod 5 o'r Canllawiau Ymarfer)
- yn achos perygl bwyd lleol, cyhoeddi negeseuon priodol ar gyfer y cyfryngau neu ymateb i ddatganiadau yn y wasg leol, fel y bo'n briodol, i rybuddio'r cyhoedd o'r perygl. Pan fydd yn gwneud hynny, rhaid i'r hyn a ganlyn ddigwydd:
  - rhaid ymgynghori â gweithredwyr y busnesau bwyd perthnasol cyn trafod enw busnes neu frand bwyd penodol â'r cyfryngau, neu roi'r enw i'r cyfryngau
  - rhaid anfon datganiadau o'r fath i'r cyfryngau at Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB yn ddi-oed
  - rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i'r ASB ar unwaith os yw gweithredwr busnes bwyd yn gwrthwynebu rhyddhau gwybodaeth o'r fath

Bydd yr Awdurdod Bwyd yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw gamau a gymerir ar lefel leol, oni bai a hyd nes bod yr ASB yn ysgrifennu at yr Awdurdod Bwyd i roi gwybod fel arall.

### 5.3.4 Halogi bwriadol ac ymyrraeth faleisus

Gall bwyd gael ei halogi'n fwriadol. Os bydd digwyddiad o'r fath yn digwydd, dylai Awdurdodau Bwyd ddilyn y trefniadau a geir yn y Bennod hon, ac eithrio pan fyddant yn tybio bod halogi bwriadol wedi digwydd o ganlyniad i ymyrraeth faleisus.

Mae'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban a heddluoedd ledled y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno trefniadau i ymdrin ag achosion o ymyrraeth faleisus, ac, os bydd angen, bydd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn rhan o unrhyw ymchwiliad.

---

[124] Pennod 2, paragraff 14.5 o'r Cytundeb Fframwaith

[125] Rheoliad (CE) 178/2002 sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol y gyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, ac yn pennu gweithdrefnau o ran diogelwch bwyd

Pan fyddant yn amau bod achos o ymyrraeth faleisus wedi digwydd, rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- cysylltu â Thîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB cyn gynted â phosibl
- trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ymdrin â digwyddiadau o'r fath i'r heddlu os byddant yn gofyn iddynt wneud hynny
- cydweithredu'n llwyr ag ymchwiliadau'r heddlu i ddigwyddiadau o'r fath
- parchu ceisiadau'r heddlu am gyfrinachedd, pryd bynnag y bo modd
- os bydd yr angen i rybuddio defnyddwyr o fodolaeth perygl bwyd yn drech na'r angen i gadw cyfrinachedd, rhoi gwybod i Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB cyn cymryd camau o'r fath

### 5.3.5 Peryglon bwyd sy'n gysylltiedig ag achosion o salwch a gludir gan fwyd

Os yw perygl bwyd wedi arwain at achosion o salwch a gludir gan fwyd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd, ynghyd â'i Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/ Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus/Clefydau Trosglwyddadwy/ Iechyd yr Amgylchedd, ystyried rhoi ei Gynllun Rheoli Achosion ar waith.

Rhaid rhoi gwybod i Dîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB ac i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar unwaith am achosion lleol difrifol ac achosion nad ydynt yn lleol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd drefnu â'u Dadansoddwr Cyhoeddus a'u Harchwilydd Bwyd i gael gwybod yn brydlon os byddant yn dod ar draws perygl bwyd pan fyddant yn dadansoddi neu'n archwilio sampl bwyd.

### 5.3.6 Digwyddiadau bwyd nad ydynt yn beryglus

Mae digwyddiadau bwyd nad ydynt yn beryglus yn ddigwyddiadau lle mae'r gyfraith bwyd yn cael ei thorri, ond nid ydynt yn ymwneud â pheryglon bwyd.

Fel rheol, rhaid i'r Awdurdod Bwyd a gweithredwr y busnes bwyd eu datrys, drwy ymgysylltu â'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r awdurdod gwreiddiol, fel sy'n briodol ac yn unol â polisi gorfodi pob Awdurdod Bwyd. Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod ar unwaith i'r ASB am ddigwyddiadau bwyd sylweddol, hyd yn oed os nad ydynt yn ymwneud â pheryglon bwyd. Pan fyddant yn pennu pa mor sylweddol yw digwyddiad bwyd, dylid ystyried y ffactorau a ganlyn:

- unrhyw achosion o dorri'r gyfraith bwyd
- unrhyw ofyniad i ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig
- yr anfantais i ddefnyddwyr
- unrhyw effaith anghymesur ar sector penodol o'r boblogaeth
- a gafodd y bwyd ei ddosbarthu tu allan i'r DU
- unrhyw niwed i enw da Cymru (neu'r DU)
- pryder y cyhoedd
- pa mor debygol yw hi y bydd gan y cyfryngau ddiddordeb yn y mater

Os yw Awdurdod Bwyd yn ansicr a oes angen iddo roi gwybod i'r ASB am ddigwyddiad bwyd 'nad yw'n beryglus', dylai drafod y mater â'r ASB i gael eglurhad.

### 5.3.7 Mynediad at wybodaeth

I hwyluso ymchwiliad i achosion neu achosion posibl o glefyd, ymchwiliad i berygl bwyd, neu ymchwiliad brys neu droseddol arall sy'n gysylltiedig â bwyd, rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- darparu manylion cofnodion y sefydliad busnes bwyd perthnasol os gofynnir amdanynt gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, yr Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus/Clefydau Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd, yr ASB, neu gorff gorfodi neu gadw gwyliadwriaeth arall o'r fath
- sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn cael eu trin a'u trafod gan roi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data[126]

## 5.4 Rhybuddion Bwyd

### 5.4.1 Diffiniadau

- **Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu** – drwy gyhoeddi'r rhybudd hwn, mae'r ASB yn rhoi gwybod i Awdurdodau Bwyd ac i ddefnyddwyr am berygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd arall, lle mae angen i'r Awdurdod Bwyd weithredu/ymateb drwy gymryd camau penodol. Dylid darllen "Diweddariad ar Rybudd Bwyd" yn unol â hynny. Gall gweithredoedd a negeseuon tebyg hefyd arwain at Rybudd Bwyd – Angen Gweithredu (FAFA) sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr. Ni fydd y rhybudd i ddefnyddwyr a'r rhybudd i Awdurdodau Bwyd o reidrwydd yn cynnwys yr un wybodaeth nac yn gofyn iddynt gymryd yr un camau.
- **Hysbysiad Galw Cynnyrch yn Ôl** – mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod bod bwyd yn cael ei alw'n ôl, ond nid oes angen i'r Awdurdod Bwyd gymryd unrhyw gamau penodol. Mae 'galw yn ôl' yn ymwneud â galw bwyd yn ôl gan ddefnyddwyr.
- **Rhybudd Alergedd** – cyhoeddir y rhybudd hwn gan yr ASB i roi gwybod yn gyflym ac yn uniongyrchol i ddefnyddwyr am risgiau sy'n ymwneud ag alergenau. Mae Awdurdodau Bwyd yn cael copïau o'r Rhybuddion Alergedd hyn er gwybodaeth yn unig.

### 5.4.2 Cyfleusterau i dderbyn Rhybuddion Bwyd a diweddariadau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- sicrhau bod ganddynt gyfleusterau i dderbyn Rhybuddion Bwyd a diweddariadau gan yr ASB drwy system post electronig sy'n dderbyniol i'r ASB[127]
- rhoi eu cyfeiriad e-bost i'r ASB a rhoi gwybod iddi am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted â phosibl

[126] Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a Deddf Diogelu Data 2018
[127] Paragraff 14.2 o'r Cytundeb Fframwaith

### 5.4.3 Camau i'w cymryd gan Awdurdodau Bwyd pan fydd Rhybuddion Bwyd yn dod i law

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- bod systemau ar waith i sicrhau bod modd ymateb i Rybuddion Bwyd tu allan i oriau gwaith arferol. Mae hyn yn cynnwys cael gafael ar wybodaeth a darparu gwybodaeth i sicrhau bod modd cyhoeddi Rhybuddion Bwyd tu allan i oriau gwaith arferol
- bod unrhyw gamau gweithredu a nodir gan yr ASB mewn Rhybudd Bwyd yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon, ac yn unol ag unrhyw gyngor/asesiad rheoli risg a ddarperir gan yr ASB
- os ydynt yn bwriadu cymryd camau eraill, eu bod yn cytuno â'r ASB ar y camau hyn cyn mynd ati i'w cymryd
- os ydynt yn rhagweld y bydd yn anodd cydymffurfio â chais i weithredu a geir mewn Rhybudd Bwyd, eu bod yn cysylltu â Thîm Diogelu Defnyddwyr yr ASB ar unwaith
- eu bod yn cofnodi eu hymateb i ganlyniad pob Rhybudd Bwyd[128]

### 5.4.4 Cysylltiadau â'r cyfryngau – Rhybuddion Bwyd

Os yw'r ASB yn caniatáu iddynt wneud hynny, gall Awdurdodau Bwyd sydd am wella cyhoeddusrwydd lleol ddefnyddio datganiad i'r wasg/cyfryngau a gyhoeddir gan yr ASB fel sail ar gyfer datganiad i'r wasg lleol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y datganiad lleol yn gywir, yn berthnasol ac yn gyson â datganiad yr ASB.

Os yw Awdurdodau Bwyd am arddangos Rhybuddion Bwyd ar eu gwefannau, rhaid iddynt sicrhau:

- bod unrhyw ddeunydd sy'n dod o Rybuddion Bwyd neu ddatganiadau i'r wasg/cyfryngau a gyhoeddwyd gan yr ASB yn cael ei olygu i nodi pa gamau a gymerwyd yn lleol yn sgil cyhoeddi'r rhybudd
- bod y wefan yn cynnwys manylion cyswllt lleol.

## 5.5 Mynd i'r afael â throseddau bwyd

### 5.5.1 Rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB (yr Uned) yn cydweithio â phartneriaid i ddiogelu defnyddwyr rhag achosion difrifol o dwyll bwyd/bwyd anifeiliaid a throseddau cysylltiedig yn y gadwyn cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid a allai effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd y bwydydd y maent yn eu bwyta a'r diodydd y maent yn eu hyfed.

Amcanion strategol yr Uned yw:

---

[128] Paragraff 14.3 o'r Cytundeb Fframwaith

- atal bwyd neu fwyd anifeiliaid rhag bod yn anniogel neu'n annilys drwy anonestrwydd
- tarfu ar droseddu, a dwyn troseddwyr o flaen eu gwell
- adeiladu gallu domestig a byd-eang i fynd i'r afael â throseddau bwyd

Mae'r Uned yn ceisio cyflawni'r amcanion hyn drwy gydweithio ag Awdurdodau Bwyd a phartneriaid eraill sy'n gorfodi'r gyfraith, y diwydiant bwyd ar bob lefel, y trydydd sector a'r byd academaidd.

### 5.5.2 Twyll a throseddau bwyd

Mae'r Uned yn diffinio troseddau bwyd fel twyll difrifol a throseddu cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd. Mae'r cylch gwaith hwn hefyd yn cynnwys diod a bwyd anifeiliaid.

Gall anonestrwydd ddod i'r amlwg drwy i rywun amnewid bwyd, difwyno bwyd, camliwio neu guddio ffeithiau, ffugio, neu ddargyfeirio gwastraff bwyd. Mae bwriad anonest yn elfen bwysig mewn unrhyw droseddu twyllodrus.

Mae Awdurdodau Bwyd yn dal i ysgwyddo rôl o ran ymchwilio i dwyll yn y gadwyn cyflenwi bwyd. I godi lefel ymchwiliad o ymchwiliad i dwyll posibl i ymchwiliad i drosedd bwyd, rhaid ystyried hyd a lled y troseddu a graddau'r drefniadaeth, y cydgysylltu a'r cynllunio sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflawni'r twyll hwnnw.

Bydd yr Uned yn penderfynu a fydd yn arwain, yn cefnogi neu'n cydgysylltu ymchwiliad ar ôl ystyried difrifoldeb y gweithgaredd troseddol posibl. Pan fydd yn penderfynu ar ei hymateb, bydd yr Uned yn ystyried:

- blaenoriaethau tactegol yr Uned, fel y'u nodir yn ei strategaeth reoli. Rhoddir gwybod i bartneriaid rheoleiddio perthnasol am y blaenoriaethau hyn drwy adroddiadau cyfnodol yr Uned a thrwy sylwadau Swyddogion Gwybodaeth Rhanbarthol yr Uned
- cwmpas daearyddol y troseddu posibl, a'i hyd a'i led
- natur a maint y niwed gwirioneddol, y niwed posibl neu'r niwed arfaethedig:
  - i'r cyhoedd
  - i weithredwr busnes bwyd
  - i'r hyder yn niwydiant bwyd y DU

Mae'r Uned wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach sy'n amlinellu sut y bydd yr Uned a'i phartneriaid Safonau Masnach yn ceisio cydweithio â'i gilydd.

Fel rheol, bydd troseddau bwyd yn cael eu herlyn dan Ddeddf Twyll 2006, Deddf Enillion Troseddau 2002, neu fel cynllwyn i dwyllo o dan y Gyfraith Gyffredin. Yn achlysurol iawn, gall fod yn briodol erlyn troseddau bwyd dan ddeddfwriaeth arall neu reoliadau bwyd.

### 5.5.3 Rhoi gwybod i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd am droseddau bwyd posibl

Mae'r Uned yn llunio, yn derbyn ac yn rhannu gwybodaeth yn unol â’r gofynion cyffredinol o ran trin data a’r canllawiau penodol o ran rheoli gwybodaeth gorfodi’r gyfraith.

Dylai Awdurdodau Bwyd rannu â'r Uned unrhyw amheuon am dwyll bwyd/bwyd anifeiliaid neu droseddau bwyd. Drwy rannu'r wybodaeth hon, mae’n sicrhau bod modd asesu digwyddiadau a phennu tueddiadau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'n sicrhau bod modd gwneud asesiadau gwell i gyfeirio adnoddau i amddiffyn y cyhoedd a'r diwydiant rhag effeithiau troseddau bwyd yn y ffordd orau bosibl.

Bydd gwybodaeth sy’n dod i law’r Uned sy'n berthnasol i Awdurdod Bwyd yn cael ei rhannu'n gyfreithlon pan fo'n briodol.

## 5.6 Cyfathrebu a chyswllt rhwng Awdurdodau Bwyd a gwledydd tu allan i'r DU

### 5.6.1 Rhoi gwybod am beryglon neu ddigwyddiadau bwyd sy’n ymwneud â bwyd wedi’i fewnforio

Rhaid i Awdurdodau Bwyd a chanddynt fannau cyrraedd, gan gynnwys Mannau Rheoli ar y Ffin, yn eu hardal ddilyn y canllawiau a geir yn y Canllawiau Ymarfer o ran y camau i'w cymryd pan gaiff mewnforion eu gwrthod yn y man cyrraedd, a hynny os oes risg ddifrifol uniongyrchol neu anuniongyrchol i iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid, i fwyd, neu i ddiogelwch bwyd anifeiliaid. I gael gwybod am y camau i’w cymryd o ran bwydydd nad ydynt yn cydymffurfio â’r gyfraith bwyd ond nad ydynt mewn man cyrraedd, gweler yr adrannau perthnasol o’r Cod ar Beryglon Bwyd a Digwyddiadau Bwyd nad ydynt yn Beryglus.

### 5.6.2 Rhoi gwybod am faterion trawsffiniol

Mae'r ASB yn ymdrin â materion trawsffiniol y gallai fod iddynt oblygiadau polisi neu faterion sy’n ymwneud â pheryglon a digwyddiadau bwyd.

Gweler y Canllawiau Ymarfer i gael mwy o wybodaeth am faterion trawsffiniol.

### 5.6.3 Cysylltu a chyfathrebu â gwledydd tu allan i'r DU

Dylai Awdurdodau Bwyd ddilyn y canllawiau a geir yn y Canllawiau Ymarfer o ran ymateb i ymholiadau gan wledydd tu allan i’r DU, eu cynorthwyo, a chydgysylltu’r cyfathrebu â nhw. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo a derbyn ceisiadau am gymorth gan wledydd tu allan i'r DU**.**

Dylid anfon unrhyw ymatebion dilynol sy'n ymwneud â cheisiadau am gymorth, data neu ymholiadau am faterion gorfodi’r gyfraith bwyd ac achosion o ddiffyg cydymffurfio gan wledydd eraill drwy Dîm Diogelu Defnyddwyr a/neu Dîm Mewnforion ac Allforion yr ASB.

### 5.6.4 Datgelu gwybodaeth i wledydd tu allan i'r DU

Gweler y Canllawiau Ymarfer i gael mwy o wybodaeth am ddatgelu gwybodaeth i wledydd tu allan i'r DU.

### 5.6.5 Cyfathrebu â Safonau Bwyd yr Alban

Ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau bod trefniadau cyswllt yn parhau i fod ar waith i gydgysylltu'r ymateb i ddigwyddiadau ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

## 5.7 Gwasanaeth tu allan i oriau arferol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod modd cysylltu â swyddogion cyfrifol os ceir argyfwng, er enghraifft, digwyddiad peryglus difrifol[129]
- rhoi gwybod i'r ASB am rif neu rifau ffôn argyfwng i sicrhau bod modd iddi gysylltu â swyddogion tu allan i oriau swyddfa arferol yr Awdurdod Bwyd
- sicrhau bod manylion cyswllt tu allan i oriau/mewn argyfwng (enw(au), rhif(au) ffôn a chyfeiriad(au) e-bost) yn cael eu darparu yn y modd ac ar yr amlder sy'n ofynnol gan yr ASB
- mynd ati i roi gwybod i'r ASB am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol drwy’r llwyfan Hwyluso Cyfathrebu a thrwy’r e-bost yn lasupportwales@food.gov.uk.

[129] Paragraff 14.1 o'r Cytundeb Fframwaith

# Pennod 6 Gorfodi

## 6.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn trafod sut y mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael eu hunioni'n effeithlon ac yn brydlon.

## 6.2 Cymesuredd a chysondeb

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- sicrhau bod y camau gorfodi a gymerir gan eu swyddogion awdurdodedig[130]:
  - yn unol â Phennod 6 o'r Canllawiau Ymarfer
  - yn rhesymol
  - yn gymesur
  - yn seiliedig ar risg
  - yn gyson ag arferion da
- rhoi sylw i'r pethau a ganlyn pan fyddant yn ystyried a ddylid cymryd camau gorfodi:
  - Cod Erlynwyr y Goron
  - polisi gorfodi'r Awdurdod Bwyd[131]
  - natur yr achos o ddiffyg cydymffurfio a hanes blaenorol gweithredwr y busnes bwyd o gydymffurfio[132]
  - a oes partneriaeth Prif Awdurdod ar waith, ac unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan y Prif Awdurdod
- sicrhau bod y rhesymau dros unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth y meini prawf a nodir ym Mholisi Gorfodi'r Awdurdod Bwyd yn cael eu cofnodi.

## 6.3 Hierarchaeth y camau gorfodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu swyddogion awdurdodedig:

- yn ystyried yr holl opsiynau gorfodi sydd ar gael iddynt eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys addysgu gweithredwyr busnesau bwyd, rhoi cyngor, cymryd camau anffurfiol, samplu, cadw ac atafaelu bwyd, rhoi Hysbysiadau Gwella Hylendid/Hysbysiadau Gwella neu Hysbysiadau Camau Adfer, a rhoi Gweithdrefnau Gwahardd at Ddibenion Hylendid/Gweithdrefnau Gwahardd a Gweithdrefnau Erlyn ar waith;

---

[130] Pennod 2, paragraffau 7.3, 12.2 ac 15.3 o'r Cytundeb Fframwaith
[131] Pennod 2, paragraff 15.4 o'r Cytundeb Fframwaith
[132] Erthygl 138(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- rhoi dull graddedig ac addysgiadol o orfodi ar waith (hierarchaeth camau gorfodi), gan ddefnyddio camau ffurfiol dim ond pan na fydd camau anffurfiol yn cael yr effaith a ddymunir, ac eithrio pan fo’r amgylchiadau'n dangos:
  - risg sylweddol i iechyd
  - arferion twyllodrus
  - arferion dichellus
- gweithredu mewn ffordd sy'n arwain at unioni unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio â’r gyfraith bwyd yn brydlon
- blaenoriaethu camau gweithredu sy'n dileu neu'n rheoli risgiau i[133]
  - iechyd pobl
  - iechyd anifeiliaid
  - iechyd planhigion
  - lles anifeiliaid
  - yr amgylchedd (o ran organebau wedi’u haddasu’n enetig (GMOs))

## 6.4 Ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio

### 6.4.1 Achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio

Pan fydd Awdurdodau Bwyd yn amau nad yw busnes yn cydymffurfio â’r gyfraith bwyd, rhaid iddynt wneud y pethau hyn:

- cynnal ymchwiliad, gan ystyried gofynion Pennod 6 o'r Canllawiau Ymarfer i gadarnhau neu i ddileu'r amheuaeth honno. Gall hyn gynnwys[134]
  - cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol dwys am gyfnod priodol
  - cadw bwyd i ganiatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal

### 6.4.2 Achosion pendant o ddiffyg cydymffurfio

Pan fyddant wedi cadarnhau achos o ddiffyg cydymffurfio[135], rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol i bennu tarddiad a maint yr achos o ddiffyg cydymffurfio ac i bennu cyfrifoldebau’r gweithredwr
- eu bod yn cymryd camau gorfodi priodol i sicrhau bod gweithredwr y busnes bwyd yn unioni'r achos o ddiffyg cydymffurfio ac yn atal achosion pellach o ddiffyg cydymffurfio
- bod yr achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi cael eu hunioni cyn iddynt benderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
- pan fyddant yn penderfynu pa gamau i'w cymryd, eu bod yn ystyried natur yr achos o ddiffyg cydymffurfio a hanes blaenorol y gweithredwr o gydymffurfio
- pan ragwelir camau gorfodi, rhaid hysbysu'r Prif Awdurdod, os oes un, yn unol â gofynion statudol y cynllun Prif Awdurdod

---

[133] Erthygl 137(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[134] Erthyglau 137(2) ac 137(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[135] Erthygl 138 o Reoliad (UE) 2017/625

- pan fydd angen gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth, bod y swyddogion yn rhoi eglurhad ysgrifenedig clir i'r gweithredwr, ynghyd â rhesymau, i egluro, fel sy'n briodol:
  - y camau neu'r mesurau y mae'r Awdurdod Bwyd yn eu cymryd
  - pam nad yw'r busnes yn cydymffurfio
  - y camau i'w cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio
  - yr amserlen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
  - yr hawliau i apelio ac unrhyw derfyn amser perthnasol yn unol ag Erthygl 138(3)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
- bod swyddogion yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng gofynion statudol ac arferion da
- bod swyddogion yn barod i drafod cyngor, penderfyniadau a gohebiaeth â gweithredwyr busnesau bwyd

## 6.5 Ailymweliadau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- bod ailymweliadau'n canolbwyntio ar yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a bennwyd yn ystod yr ymyriad diwethaf a gynlluniwyd
- bod yr achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi cael eu hunioni cyn iddynt benderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
- eu bod yn penderfynu pryd i gynnal ailymweliad yn ôl y camau a gymerwyd oherwydd yr ymyriad cynharach a difrifoldeb yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a bennwyd
- mai'r swyddog a gynhaliodd yr ymyriad gwreiddiol sy'n cynnal yr ailymweliad, pa bryd bynnag y bo'n ymarferol

### 6.5.1 Y gofyniad i ailymweld – hylendid bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal ailymweliadau hylendid bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd â'r sgoriau a ganlyn, fel y nodir yn y cynllun sgorio ymyriadau a geir yn Atodiad 1 o'r Cod:

- sgôr gydymffurfio o 15 neu ragor ar gyfer hylendid a/neu strwythur a/neu
- sgôr o 20 neu ragor ar gyfer hyder yn y rheolwyr/gweithdrefnau rheoli

### 6.5.2 Y gofyniad i ailymweld – safonau bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal ailymweliadau safonau bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd â'r sgoriau a ganlyn, fel y nodir yn y cynllun sgorio ymyriadau a geir yn Atodiad 1 o'r Cod a:

- sgôr gydymffurfio (gyfredol) o 40 a/neu
- sgôr o 30 ar gyfer hyder yn y rheolwyr/systemau rheoli

## 6.6 Gweithredu yn ardal Awdurdod Bwyd arall

Gall swyddog awdurdodedig gael mynediad i sefydliadau busnes yn ardal Awdurdod Bwyd arall i gael gafael ar dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio yn ardal ei Awdurdod Bwyd ei hun[136].

Pan fydd yn arfer pwerau mewn ardal arall, dylai'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod ei swyddogion awdurdodedig:

- yn cysylltu â’r Awdurdodau Bwyd perthnasol ymlaen llaw (p'un a yw'r busnes y maent yn ymweld ag ef yn fusnes bwyd ai peidio), ond os nad yw'n bosibl rhoi rhybudd ymlaen llaw, er enghraifft mewn argyfwng, rhaid iddynt roi gwybod i'r Awdurdodau Bwyd perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol
- yn peidio â rhoi cyngor nac argymell newidiadau i systemau neu weithdrefnau gweithredwr busnes bwyd. Rhaid trosglwyddo materion o'r fath i Awdurdod Bwyd yr ardal y mae’r busnes wedi’i leoli ynddi er mwyn iddo gymryd camau priodol
- yn rhoi gwybod i’r Awdurdodau Bwyd perthnasol o ganlyniad unrhyw ymweliad, fel sy’n briodol
- dim ond yn defnyddio pwerau gorfodi sy'n gysylltiedig â'u pwerau mynediad (sy'n cynnwys cymryd samplau mewn perthynas â’r ymchwiliad i droseddau posibl yn eu hardal nhw)

Dim ond swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Bwyd lle mae’r busnes wedi’i leoli sy’n gallu arfer pwerau gorfodi eraill (mae hyn yn cynnwys atafael a chadw bwyd, rhoi hysbysiadau gwahardd brys at ddibenion hylendid a rhoi hysbysiadau gwahardd brys).

[136] Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

# Pennod 7 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw

## 7.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn trafod y materion a ganlyn:

- sefydlu a chynnal grwpiau cyswllt pysgod cregyn lleol
- yr angen i gael dogfennau cofrestru neu awdurdodiadau cludo parhaol
- dosbarthu a monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod
- cyhoeddi gwybodaeth am ardaloedd dan waharddiad

## 7.2 Trefniadau cyswllt

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu a chynnal grŵp cyswllt pysgod cregyn mewn ardaloedd lle mae gweithgarwch pysgod cregyn masnachol yn digwydd. Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolwyr o gyrff perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn amserol, gan gyfrannu data a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau ar fesurau priodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Gall yr aelodaeth hefyd gynnwys pysgotwyr neu gasglwyr pysgod cregyn yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Bwyd perthnasol. Mae’n debygol y bydd swyddogaeth y grŵp yn amrywio yn ôl y diwydiant pysgod cregyn lleol.

## 7.3 Dogfennau cofrestru ac awdurdodiadau cludo parhaol

### 7.3.1 Dogfennau cofrestru ar gyfer molysgiaid dwygragennog byw

O dan Reoliad (CE) 853/2004, oni bai fod ganddynt awdurdodiad cludo parhaol, rhaid i bawb sy'n casglu molysgiaid dwygragennog byw (gan gynnwys teulu’r Pectinidae, gastropodau nad ydynt yn bwydo drwy hidlo ac echinodermau) i'w gosod ar y farchnad ddarparu dogfen gofrestru sy’n nodi pob swp y maent yn ei gynaeafu. Rhaid llenwi'r ddogfen gofrestru pan ddaw’r swp i’r lan, a rhaid iddi gyd-fynd â'r swp o'r ardal gynaeafu ddosbarthedig (neu o’r rhan o’r môr y cawsant eu cynaeafu yn achos Pectinidae, gastropodau nad ydynt yn bwydo drwy hidlo ac echinodermau) ac o’r naill sefydliad i’r llall, hyd at a chan gynnwys yr adeg y mae'r swp yn cyrraedd ardal ailosod, canolfan buro, canolfan ddosbarthu neu sefydliad prosesu.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- rhoi dogfennau cofrestru o'r fath i gasglwyr, gan gynnwys llongau pysgota sy'n cynaeafu molysgiaid dwygragennog byw. Ceir dolen at y ffurflen gofrestru enghreifftiol yn y Canllawiau Ymarfer
- rhoi rhif unigryw ar y ddogfen i sicrhau bod modd monitro’r ddogfen gofrestru. Rhaid iddynt roi'r rhif unigryw i'r cynaeafwr neu'r casglwr cyn iddo/iddi fynd ati i gynaeafu
- darparu dogfennau cofrestru pan ofynnir amdanynt a pheidio â chodi tâl am y dogfennau hynny na gwrthod rhoi dogfennau i gasglwr heb reswm
- cadw cofnod o'r holl ddogfennau cofrestru a roddwyd ganddynt am o leiaf flwyddyn. Dylai'r cofnod gynnwys y rhif(au) unigryw a manylion y cynaeafwyr y

rhoddwyd y dogfennau iddynt a'r ardaloedd cynhyrchu y mae ar y cynaeafwyr angen y dogfennau cofrestru ar eu cyfer

- rhoi dogfennau cofrestru i gasglwyr sy'n cynaeafu o fewn ardal Awdurdod Bwyd arall gyda chytundeb yr Awdurdod Bwyd hwnnw yn unig
- Mae Awdurdodau Bwyd:
  - yn gorfod gwirio'r manylion a gofnodir ar y ddogfen gofrestru pan fydd casglwyr yn dod â molysgiaid dwygragennog byw i'r lan
  - yn gyfrifol am sefydliadau sy'n derbyn sypiau o folysgiaid dwygragennog byw. Os yw'r rhain yn dod o'r tu allan i'w hardal, fe'u hanogir i gysylltu â'r Awdurdod a roddodd y ddogfen gofrestru pan fyddant yn archwilio dogfennau cofrestru

Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd hefyd gadw copi o ddogfen gofrestru pob swp a anfonir ac a dderbynnir ganddynt am o leiaf ddeuddeg mis ar ôl ei anfon neu ei dderbyn, neu am unrhyw gyfnod hirach a bennir gan yr Awdurdod Bwyd.

#### 7.3.2 Awdurdodiadau cludo parhaol

Gall Awdurdod Bwyd roi Awdurdodiad Cludo Parhaol i gasglwyr, yn hytrach na gofyn iddynt lenwi dogfennau cofrestru ar wahân, pan fydd y casglwr hefyd yn gweithredu'r ganolfan buro, y ganolfan ddosbarthu, yr ardal ailosod neu'r sefydliad prosesu y mae'r molysgiaid dwygragennog byw a gasglwyd ganddynt yn cael eu cludo iddi/iddo. Fodd bynnag, rhaid i bob sefydliad a weithredir gan y casglwr fod o dan awdurdodaeth un Awdurdod Bwyd.

Pan fydd yn penderfynu a ddylai roi Awdurdodiad Cludo Parhaol, rhaid i Awdurdod Bwyd ystyried gofynion Rheoliad (CE) 853/2004, Atodiad III, Adran VII, Pennod I, paragraff 7. Rhaid i hanes y gweithredwr o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd berthnasol ac o roi gweithdrefnau rheoli ar waith hefyd ddylanwadu ar y penderfyniad hwnnw.

Os nad yw Awdurdod Bwyd yn fodlon bod y gweithredwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd, gall dynnu'r Awdurdodiad Cludo Parhaol yn ôl.

Dylid rhoi Awdurdodiad Cludo Parhaol ar gyfer pob gwely cynaeafu pysgod cregyn.

#### 7.3.3 Archwilio dogfennau cofrestru

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal archwiliadau rheolaidd o'r dogfennau cofrestru i wirio eu cywirdeb. Fel arfer, bydd dogfennau'n cael eu harchwilio ac unrhyw samplau dilysu'n cael eu cymryd fel rhan o'r gwaith o arolygu canolfannau dosbarthu neu ganolfannau puro, ond gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg yn ystod y broses gyflenwi.

#### 7.3.4 Canolfannau puro

Rhaid mynd ati i gymeradwyo canolfannau puro newydd neu addasiadau i ganolfannau sy'n bodoli eisoes yn unol â'r camau y mae'n ofynnol eu cymryd ar ôl i ffurflen sy'n gofyn am gymeradwyaeth ddod i law.

### 7.3.5 Samplu fel rhan o'r arolygiad

Gellir cymryd samplau i'w profi mewn labordy fel rhan o arolygiadau o ganolfannau dosbarthu neu ganolfannau puro. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd ymchwilio i ganlyniadau profion sy'n dangos nad yw'r gofynion diogelwch bwyd yn cael eu bodloni.

Os oes angen, dylid ymgymryd â mwy o waith samplu a phrofion labordy yn yr ardal gynaeafu, yr ardal ailosod, y ganolfan ddosbarthu neu'r ganolfan buro berthnasol i ganfod achos y diffyg cydymffurfio ac unrhyw gamau unioni y mae gofyn eu cymryd.

Lle bo angen, dylai Awdurdodau Bwyd roi gwybod i Awdurdodau Bwyd cyfagos sy'n gyfrifol am yr ardal gynaeafu, yr ardal ailosod, y ganolfan ddosbarthu neu'r ganolfan buro berthnasol am ganlyniadau profion nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd.

Dylai Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd lle cafodd y samplau eu cymryd am ganlyniadau unrhyw brofion o samplau o folysgiaid dwygragennog byw
- rhoi gwybod i'r ASB am ganlyniadau unrhyw brofion a allai awgrymu bod ansawdd ardaloedd cynhyrchu a/neu ardaloedd ailosod yn amrywio'n sylweddol

## 7.4 Ardaloedd cynhyrchu ac ailosod

Cyfrifoldeb yr ASB yw dosbarthu ardaloedd cynhyrchu ac ailosod molysgiaid dwygragennog. Rhaid i'r ardaloedd hyn fodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer dosbarthu gwelyau molysgiaid dwygragennog. Mae'r weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer dosbarthu ardaloedd cynhyrchu ac ailosod molysgiaid dwygragennog wedi'u nodi yn Erthygl 52 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 2019/627.

Ni chaiff Awdurdodau Bwyd ond caniatáu i folysgiaid dwygragennog gael eu cynaeafu neu'u hailosod mewn ardal ar ôl i gais i ddosbarthu'r ardal gael ei gyflwyno i'r ASB i'w gymeradwyo ac i wiriadau a gynhelir cyn dosbarthu ardal ddangos ei bod yn bodloni'r gofynion ym mhrotocol dosbarthu'r ASB. Dylid nodi bod rhaid ymdrin â molysgiaid dwygragennog byw yn unol â dosbarthiad (A, B, neu C) yr ardal y cawsant eu cynaeafu ohoni cyn eu rhoi ar y farchnad.

### 7.4.1 Monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod

Rhaid i swyddogion awdurdodedig gynnal gwiriadau rheolaidd o leiaf unwaith bob mis mewn ardaloedd cynaeafu ac ailosod i sicrhau bod y statws dosbarthu a roddwyd gan yr ASB yn cydymffurfio â'r meini prawf dosbarthu.

Nodir yr amodau y mae'n rhaid eu dilyn yn Nheitl V o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 2019/627.

### 7.4.2 Molysgiaid dwygragennog byw wedi'u mewnforio

O ran molysgiaid dwygragennog byw sy'n cael eu mewnforio i'w bwyta gan bobl neu'u prosesu, mae angen cael hysbysiad cyn mewnforio a chynnal rheolaethau bwyd swyddogol. Diben hyn yw sicrhau eu bod yn ddiogel i'w bwyta gan bobl.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau:

- bod Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin ac ardystiad iechyd priodol yn cyd-fynd â llwythi o folysgiaid dwygragennog byw i'w bwyta gan bobl neu'u prosesu
- eu bod wedi bod yn destun rheolaethau bwyd swyddogol mewn Man Rheoli ar y Ffin

## 7.5 Hysbysiadau cau (cau ardaloedd cynaeafu dros dro)

Rhaid i Awdurdodau Bwyd wneud y pethau hyn:

- os yw canlyniadau samplu'n dangos nad yw'r safonau iechyd ar gyfer molysgiaid wedi'u bodloni, neu fel arall yn dangos y gall fod risg i iechyd pobl, cau'r ardal gynhyrchu neu ailosod ddosbarthedig dan sylw i atal molysgiaid dwygragennog byw rhag cael eu cynaeafu, neu, os yw'r ardal yn cael ei chau oherwydd E.coli, gall yr ASB ailddosbarthu'r ardal, er enghraifft, ei hisraddio yn unol â'r Rheoliad[137]
- rhoi gwybod ar unwaith i bawb â diddordeb, fel cynhyrchwyr, casglwyr, a gweithredwyr canolfannau puro neu ganolfannau dosbarthu, pan fydd unrhyw ardal yn cau, ac, yn unol â gofynion Erthygl 65 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 2019/627, gweithredu'n brydlon i gau, i ailddosbarthu neu i ailagor ardaloedd cynhyrchu neu o ran ardaloedd cynhyrchu Dosbarth A lle mae molysgiaid dwygragennog byw yn destun y mesurau y cyfeirir atynt yn Erthygl 62(2)[138]. Pan fydd angen cau ardal gynhyrchu, mae'r ASB yn argymell y dylid defnyddio Hysbysiad Cau ffurfiol fel modd o roi gwybod i bawb â diddordeb
- rhoi gwybod i'r ASB ar unwaith a chysylltu â'r ASB i drafod y camau i roi Hysbysiad Cau. Gall y cyswllt hwn â'r Asiantaeth gynnwys trafodaeth ynghylch a ddylid cymryd unrhyw gamau i dynnu oddi ar y farchnad unrhyw folysgiaid dwygragennog byw a allai fod eisoes wedi'u dosbarthu'n lleol neu'n genedlaethol

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd wneud y pethau hyn:

- sicrhau pan fydd yn defnyddio Hysbysiadau Cau ei fod yn gwneud hynny'n gyflym, a sicrhau bod pob gweithredwr busnes bwyd y mae'n gwybod amdanynt yn yr ardal sydd eisoes wedi cael dogfen gofrestru neu sy'n meddu ar awdurdodiad cludo parhaol (a roddwyd gan yr Awdurdod Bwyd yn unol ag Atodiad III, Adran VII, Pennod I, paragraff 7 o Reoliad (CE) 853/2004) yn cael gwybod am yr Hysbysiad Cau a'i effaith. Efallai mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy anfon copi o'r hysbysiad at bawb y mae'n gwybod bod ganddynt ddiddordeb
- arddangos Hysbysiadau Cau mewn man amlwg lle mae'n rhesymol disgwyl i fusnesau bwyd a chasglwyr achlysurol sy'n cynaeafu molysgiaid dwygragennog byw eu gweld

Rhaid rhoi gwybod hefyd i Awdurdodau Bwyd eraill sy'n rhannu'r un awdurdodaeth, a rhaid i'r awdurdodau hynny, yn eu tro, gyflawni eu cyfrifoldeb nhw drwy roi gwybod i

[137] Pennod III, Erthygl 62 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 2019/627
[138] Pennod IV, Erthygl 66 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn 2019/627

weithredwyr busnesau bwyd yn eu hardal y mae'r Hysbysiad Cau yn effeithio arnynt. Ni all Hysbysiad Cau fod yn gyfyngedig o ran amser.

Rhaid i’r Awdurdod Bwyd wneud y pethau hyn:

- cysylltu â'r ASB cyn gynted â phosibl i drafod cymryd samplau ychwanegol i benderfynu pryd y gellir ailagor yr ardal a gaewyd
- diddymu’r Hysbysiad Cau ar unwaith pan fydd yn fodlon y gellir ailddechrau cynaeafu
- sicrhau bod pawb â diddordeb yn gwybod na chaniateir iddynt gynaeafu tra mae’r ardal ar gau

Os bydd Awdurdod Bwyd yn penderfynu peidio â defnyddio Hysbysiad Cau i roi gwybod i bawb â diddordeb fod ardal wedi’i chau, bydd angen iddo ei fodloni’i hun fod y dull cyfathrebu a ddewiswyd ganddo yn bodloni’r gofynion cyfreithiol a ddisgrifir uchod.

## Rhestr o dermau

### Achosion *(outbreak)*

- digwyddiad lle ceir cysylltiad o ran amser neu leoliad rhwng dau neu ragor o bobl sy'n cael salwch tebyg
- cyfradd heintio uwch na'r disgwyl o'i chymharu â'r gyfradd gefndir arferol ar gyfer y lleoliad a'r amser lle mae'r achosion wedi digwydd
- un achos o rai clefydau anghyffredin, fel difftheria, botwliaeth, y gynddaredd, twymyn gwaedlifol firaol neu polio
- digwyddiad posibl, disgwyliedig neu wirioneddol sy'n ymwneud â halogi bwyd neu ddŵr â microb neu gemegyn

### Allforio

Y weithred o anfon neu gludo nwyddau tiriogaeth berthnasol.

### Anifeiliaid

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(9) o Reoliad (UE) 2017/625 pan gaiff ei darllen gydag Erthygl 4(1) o Reoliad (UE) 2016/429, sef anifeiliaid asgwrn-cefn a di-asgwrn-cefn.

### Anifeiliaid dyfrol

Yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 4 (3) o Reoliad 2016/429 i olygu anifeiliaid o'r rhywogaethau canlynol, ar bob cam o fywyd, gan gynnwys wyau, sberm a gametau:

a) pysgod sy'n perthyn i'r uwch ddosbarth *Agnatha* ac i'r dosbarthiadau *Chondrichthyes, Sarcopterygii* ac *Actinopterygii*

b) molysgiaid dyfrol sy'n perthyn i'r ffylwm *Mollusca*

c) cramenogion dyfrol sy'n perthyn i'r is-ffylwm *Crustacea*

### Archwiliad

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(30) o Reoliad (UE) 2017/625, sef ymchwiliad systematig ac annibynnol i bennu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig yn cydymffurfio â'r trefniadau a gynlluniwyd, a yw'r gweithredwr yn rhoi'r trefniadau hyn ar waith yn effeithiol, ac a ydynt yn addas i gyflawni eu hamcanion.

Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rhannol ac archwiliadau llawn a gynllunnir:

- 'archwiliad llawn' yw archwiliad sy'n ystyried y trefniadau a gynlluniwyd ac a ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol – mae archwiliadau o'r fath yn ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd; neu
- 'archwiliad rhannol' yw archwiliad sy'n ystyried agweddau penodol ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd yn unig.

### Archwiliwr bwyd

Unrhyw berson sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol i gynnal archwiliadau.

### Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Mae'r ardal hon yn cynnwys Aelod-wladwriaethau'r UE a'r tair gwlad sy'n rhan o

Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA). Ceir cytundeb ynghylch pedair colofn sylfaenol y farchnad fewnol, sef rhyddid i symud nwyddau, pobl, gwasanaethau a chyfalaf.

**Ardystiad swyddogol**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(28) o Reoliad (UE) 2017/625, sef unrhyw label, marc neu fath arall o ardystiad a roddwyd gan weithredwyr o dan oruchwyliaeth yr Awdurdodau Bwyd drwy reolaethau bwyd swyddogol pwrpasol, neu a roddwyd gan yr Awdurdodau Bwyd eu hunain, sy'n rhoi sicrwydd bod y bwyd yn cydymffurfio ag un neu ragor o'r gofynion a nodir yn y Rheoliad hwn neu yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Arolygiad**

Archwiliad o unrhyw agwedd ar fwyd anifeiliaid, bwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid i gadarnhau bod yr agwedd honno'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y gyfraith bwyd anifeiliaid, y gyfraith bwyd a'r rheolau iechyd a lles anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau rhannol neu lawn:

mae 'arolygiad llawn' yn gwirio cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol, ac mae'n ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd
mae 'arolygiad rhannol' yn ystyried agweddau penodol ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd yn unig.

**Arolygydd pysgod swyddogol**

Mae gan y term hwn yr ystyr a ddarperir yn Rheoliad 12(4) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 i olygu Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi'u hyfforddi'n addas neu bobl eraill sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni rheolaethau swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill mewn Mannau Rheoli ar y Ffin ar gynhyrchion pysgodfeydd wedi'u mewnforio, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw, echinodermau byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw y bwriedir i'w bwyta gan bobl. Mae gan unrhyw arolygydd pysgod swyddogol o'r fath holl bwerau llawfeddyg milfeddygol swyddogol mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny.

**Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

Yr Awdurdod Bwyd Canolog yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Astudiaeth ddichonoldeb**

Astudiaeth ragarweiniol ar raddfa fach, a gynhelir fel rhan o raglen dan arweiniad yr ASB, i bennu dichonoldeb, hyd, cost a digwyddiadau niweidiol, i ragweld maint sampl priodol, ac i helpu i ddatblygu cynllun yr astudiaeth cyn bwrw ymlaen â phrosiect “braenaru” ar raddfa ehangach.

**Awdurdod Bwyd**

Mae i'r term hwn yr un ystyr â'r diffiniad yn Erthygl 3(3) o Reoliad (UE) 2017/625, sef yr awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am gyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â'r Rheoliad hwnnw a'r rheolau y cyfeirir

atynt yn Erthygl 1(2).

**Awdurdod Cartref**

Yr awdurdod lle mae canolfan benderfynu berthnasol busnes wedi'i lleoli.

**Awdurdod Cymwys Canolog**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn rhannol gan Erthygl 3(3)(a) o Reoliad (UE) 2017/625, sef awdurdod canolog y DU sy'n gymwys i drefnu rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn y DU. Yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r Awdurdod Cymwys Canolog.

**Awdurdod Gorfodi**

Mae i'r term hwn yr ystyr a ddiffinnir gan Reoliad 2(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i olygu yr awdurdod sy'n gyfrifol am weithredu a gorfodi'r Rheoliadau Hylendid.

**Awdurdod Gwreiddiol**

Awdurdod yr ardal lle mae'r cam cynhyrchu bwyd terfynol yn digwydd.

**Awdurdod Iechyd Porthladdoedd (PHA)**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, sef, mewn perthynas â phorthladd neu ran o borthladd, unrhyw awdurdod lleol y mae ei ardal, neu unrhyw ran o'i ardal, yn rhan o'r porthladd neu o ran benodol o'r porthladd, neu'n cydffinio ag ef/hi, ac unrhyw gadwraethwyr, comisiynwyr neu bersonau eraill a chanddynt awdurdod yn y porthladd neu mewn rhan o'r porthladd, drosto/drosti neu o fewn iddo/iddi.

**Awdurdod lleol**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sef cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, neu gyngor cymuned.

**Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol**

Mae Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol yr ASB ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd yn berthnasol i Loegr yn unig. Dylai Awdurdodau Bwyd yng Nghymru roi sylw iddynt i'w cynorthwyo i gynnal safonau ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

**Busnes bwyd**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) 178/2002, sef unrhyw ymgymeriad, boed er elw ai peidio a boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw rai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.

**Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd**

Corff dyfarnu yn y DU sy'n rhoi tystysgrifau cofrestru i'r rhai sydd wedi cwblhau cwrs astudio cymeradwy yn llwyddiannus ym maes iechyd yr amgylchedd sy'n cynnwys cwrs achrededig, dysgu seiliedig ar waith ac arholiadau proffesiynol.

**Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban**

Un o bwyllgorau Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban sy'n pennu'r safon academaidd cyn cofrestru y mae'n ofynnol i bobl sy'n gwneud cais i gael cymwysterau'r Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd, y Dystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a'r Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safonau Bwyd ei bodloni.

**Cadw gwyliadwriaeth**

Cadw llygad barcud ar un neu ragor o fusnesau bwyd neu weithredwyr busnesau bwyd neu'u gweithgareddau.

**Caiff**

Ar ei ben ei hun, mae'n dynodi y gellir dewis arfer pŵer neu swyddogaeth ai peidio.

**Camau anffurfiol**

Y weithred o ddwyn sylw gweithredwr busnes bwyd at achosion lle nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith diogelwch bwyd, ac o roi cyngor iddo/iddi yn eu cylch, er mwyn iddo/iddi allu eu hunioni'n gyflym.

**Camau ffurfiol**

Y weithred o gymryd camau yn erbyn gweithredwr busnes bwyd fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys rhoi hysbysiad statudol i unioni achos o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rhoi rhybudd syml, neu gychwyn achos cyfreithiol am dorri gofynion cyfreithiol.

**Cofnodion**

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n ysgrifenedig neu mewn modd tebyg.

**Corff dirprwyedig**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(5) o Reoliad (UE) 2017/625 i olygu person cyfreithiol ar wahân y mae'r Awdurdodau Bwyd wedi dirprwyo tasgau rheoli penodol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill iddo/iddi.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Y Gymdeithas hon yw llais cenedlaethol llywodraeth leol. Mae'n cydweithio â chynghorau i gefnogi, i hyrwyddo ac i wella gwasanaethau llywodraeth leol.

**Cymeradwyaeth amodol**

Cymeradwyaeth a roddir gan Awdurdod Bwyd yn unol ag Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625 os yw'n ymddangos i Awdurdod Bwyd fod sefydliad yn bodloni'r holl ofynion o ran seilwaith ac offer. Ni chaiff cymeradwyaeth amodol bara mwy na chyfanswm o chwe mis, ac eithrio yn achos llongau ffatri a llongau rhewi. Yn achos llongau o'r fath, ni ddylai cymeradwyaeth amodol bara mwy na chyfanswm o ddeuddeg mis.

**Cymeradwyaeth lawn**

Rhoddir cymeradwyaeth lawn i sefydliad dim ond os yw'n ymddangos, ar ôl cynnal

rheolaeth swyddogol newydd yn y sefydliad cyn pen tri mis ar ôl iddo gael cymeradwyaeth amodol, fod y sefydliad yn bodloni holl ofynion perthnasol y gyfraith bwyd anifeiliaid neu'r gyfraith bwyd.

**Cynhyrchu Cynradd (Bwyd)**

Cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion cynradd, gan gynnwys cynaeafu, godro, a chynhyrchu anifeiliaid fferm cyn eu lladd. Mae hefyd yn cynnwys hela a physgota a chynaeafu cynhyrchion gwyllt fel y'u diffinnir yn Erthygl 3(17) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

**Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd**

Cynllun sydd ar waith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am yr hyn yr oedd pob busnes bwyd wedi'i gyflawni adeg yr arolygiad hylendid bwyd diwethaf a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol. Rhoddir sgoriau sy'n amrywio o 0 (angen gwella ar frys) i 5 (safonau hylendid yn dda iawn).

**Cyrff dyfarnu**

O ran y Cod, y cyrff dyfarnu yw: Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH), y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI) a'r Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST).

**Cytundeb Fframwaith**

Y Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gan Awdurdodau Lleol.

**Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)**

Dull ataliol systematig o ddiogelu bwyd a bwyd anifeiliaid rhag peryglon biolegol, cemegol a ffisegol mewn prosesau cynhyrchu a allai beri i'r cynnyrch gorffenedig fod yn anniogel. Mae'r dull hwn hefyd yn llunio mesuriadau i leihau'r risgiau hyn i lefel ddiogel.

**Dadansoddwr Cyhoeddus**

Gwyddonydd sy'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel a bod y disgrifiad ohono'n gywir drwy ei brofi i weld a yw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a nodir yn Adran 27 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 4 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Y dull a ddefnyddir gan aelodau o broffesiwn i barhau i wella ac ehangu'u gwybodaeth a'u sgiliau ac i ddatblygu'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau proffesiynol.

**Diffyg cydymffurfio**

Pan fydd busnes wedi methu â chydymffurfio ag un neu ragor o ofynion y gyfraith bwyd.

**Digwyddiad anarferol**

Digwyddiad bwyd na ellir ymdrin ag ef gan ddefnyddio adnoddau a gweithdrefnau

bob dydd.

**Diogelwch**

Osgoi neu beidio ag achosi anaf, perygl neu golled.

**Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin (CHED)**

Defnyddir y Ddogfen Mynediad Iechyd Gyffredin ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy’n destun unrhyw un o'r mesurau neu'r amodau y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (d), (e) neu (f) o Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625 pan fyddant yn cyrraedd y DU.

**Dulliau a thechnegau rheolaethau swyddogol**

Y dulliau a'r technegau rheoli hynny a ddisgrifir yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625.

**Dylai**

Defnyddir y term i gadarnhau arfer gorau.

**Escherichia coli O157** (*E.coli O157)*

Straen VTEC sy’n gallu achosi salwch mewn pobl. Gall symptomau amrywio o gastroenteritis ysgafn i ddolur rhydd gwaedlyd difrifol, a niwed i'r arennau.

**Escherichia coli sy’n cynhyrchu verocytotocsin (VTEC)**

Pathogenau milheintiol yw’r rhain sy'n gysylltiedig â salwch a gludir gan ddŵr a bwyd ac sy'n achosi salwch a allai fod yn angheuol. Mae'r symptomau'n cynnwys dolur rhydd gwaedlifol.

**Gall/Gallai**

Yn gyffredinol, defnyddir y term hwn i nodi'r darpariaethau hynny sy'n ganllawiau yn unig.

**Grwpiau risg sy'n agored i niwed**

Grwpiau sy’n cynnwys pobl sy'n debygol o fod yn fwy agored i effeithiau hylendid bwyd gwael, fel y rheiny sy’n iau na phump oed neu'n hŷn na 65 oed, pobl sydd eisoes yn sâl, neu bobl ag imiwnedd gwan.

**Gwasanaethau dewisol**

Gwasanaeth y caniateir i Awdurdod Bwyd ei ddarparu, ond nad yw'n ofynnol iddo ei ddarparu.

**Gweithdrefnau gwirio rheolaethau**

Mae’r term gweithdrefnau monitro mewnol yn fwy cyffredin, ac mae iddo'r ystyr fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(6) o Reoliad (UE) 2017/625, sef y trefniadau a roddir ar waith a'r camau a gyflawnir gan yr Awdurdodau Bwyd i sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn gyson ac yn effeithiol.

**Gweithgareddau swyddogol eraill**

Gweithgareddau, ac eithrio rheolaethau bwyd swyddogol, a gyflawnir gan yr Awdurdodau Bwyd, neu gan y cyrff dirprwyedig neu'r unigolion naturiol y dirprwywyd

gweithgareddau swyddogol eraill iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau y bwriedir iddynt gadarnhau a oes clefydau anifeiliaid neu blâu planhigion yn bresennol, atal neu reoli lledaeniad clefydau anifeiliaid neu blâu planhigion o'r fath, dileu'r clefydau anifeiliaid neu’r plâu planhigion hynny, rhoi awdurdodiadau neu gymeradwyaethau, a rhoi tystysgrifau swyddogol neu ardystiadau swyddogol.

**Gweithredwr busnes bwyd**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(3) o Reoliad (CE) 178/2002, sef y personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth.

**Gwiriad adnabod/hunaniaeth**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(42) o Reoliad (UE) 2017/625, sef archwiliad gweledol i gadarnhau bod cynnwys a labeli llwyth, gan gynnwys y marciau ar anifeiliaid, y seliau a’r dull cludo, yn cyfateb i’r wybodaeth a roddwyd ar y tystysgrifau swyddogol, ar yr ardystiadau swyddogol ac yn y dogfennau eraill sy'n cyd-fynd â’r llwyth.

**Gwiriad dogfennol**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(41) o Reoliad (UE) 2017/625, sef archwiliad o’r tystysgrifau swyddogol, yr ardystiadau swyddogol a’r dogfennau eraill, gan gynnwys dogfennau o natur fasnachol, y mae'n ofynnol iddynt gyd-fynd â llwyth, fel y darperir ar ei gyfer gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2), gan Erthygl 56(1) neu drwy’r deddfau gweithredu a fabwysiadwyd yn unol ag Erthyglau 77(3), 126(3), 128(1) ac 129(1).

**Gwiriad ffisegol**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(43) o Reoliad (UE) 2017/625, sef gwiriad ar anifeiliaid neu nwyddau, ynghyd â gwiriadau, fel y bo'n briodol, ar ddeunydd pecynnu, y dull cludo, labeli a thymheredd, samplu at ddibenion dadansoddi, profi neu roi diagnosis, ac unrhyw wiriad arall sy'n angenrheidiol i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Gwirio**

Archwilio ac ystyried tystiolaeth wrthrychol i weld a yw gofynion penodedig wedi’u bodloni.

**Gwlad nad yw yn y Deyrnas Unedig**

Gwlad sydd y tu allan i’r Deyrnas Unedig

**Hyder mewn Rheolwyr**

Rhan 3 o'r Cynllun Sgorio Ymyriadau Hylendid/Safonau yw’r sgôr Hyder yn y Rheolwyr. Mae'r Awdurdod Bwyd yn asesu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd busnes, gan farnu a yw’n debygol y bydd y busnes yn parhau i gydymffurfio’n foddhaol yn y dyfodol. Ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar farn yr Awdurdod Bwyd mae hanes blaenorol gweithredwr y busnes bwyd o gydymffurfio, yr hyn y mae’n ei wybod am ddiogelwch

bwyd, ei agwedd tuag at gydymffurfio â’r gofynion hylendid, ac a yw’r gweithdrefnau i reoli diogelwch bwyd yn foddhaol.

**Hylendid**

Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl, gan ystyried yr hyn y bwriedir ei ddefnyddio ar ei gyfer.

**Hylendid bwyd**

Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl, gan ystyried yr hyn y bwriedir ei ddefnyddio ar ei gyfer fel y nodir yn Rheoliad (CE) 852/2004.

**Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid**

Hysbysiad a roddir gan swyddog awdurdodedig pan fo risg o niwed i iechyd ar fin digwydd. Mae'n gwahardd busnes rhag defnyddio proses, triniaeth, adeilad neu offer, fel y bo'n briodol, fel y nodir yn Rheoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol sy'n adrodd i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Senedd Cymru. Ei rôl yw diogelu a gwella iechyd a llesiant, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

**Labordy rheolaethau swyddogol**

Labordy sydd wedi'i achredu at ddibenion dadansoddi, ac sy'n ymddangos yn y rhestr o labordai rheoli bwyd swyddogol.

**Llwyth**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(37) o Reoliad (UE) 2017/625, sef nifer o anifeiliaid neu swm o nwyddau y mae’r un dystysgrif swyddogol, ardystiad swyddogol neu unrhyw ddogfen arall yn berthnasol iddynt, sy’n cael eu cludo gan ddefnyddio’r un dull teithio, ac sy’n dod o’r un diriogaeth neu wlad tu allan i'r DU, ac, ac eithrio nwyddau sy'n destun y rheolau y cyfeirir atynt ym mhwynt (g) o Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, sydd o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad.

**Man Rheoli ar y Ffin**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(38) o Reoliad (UE) 2017/625, sef lle, a'r cyfleusterau sy'n perthyn iddo, sydd wedi'i ddynodi i gyflawni rheolaethau swyddogol y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

Cytundeb ysgrifenedig sy’n ymwneud â chyfnewid gwybodaeth rhwng dau neu ragor o bartïon.

**Mewnforio**

Y weithred o ddod â nwyddau a/neu wasanaethau o wlad arall tu allan i Brydain Fawr.

**Milfeddyg Swyddogol**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(32) o Reoliad (UE) 2017/625, sef milfeddyg a benodir gan Awdurdod Bwyd, naill ai fel aelod staff neu fel arall, ac sy’n meddu ar gymwysterau priodol i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â’r Rheoliad hwn a'r rheolau perthnasol y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Molysgiaid dwygragennog byw**

Mae cyfeiriadau at folysgiaid dwygragennog byw hefyd yn cynnwys echinodermau byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw, yn unol ag Atodiad I, Adran 2 o Reoliad (CE) 853/2004 sy'n pennu rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (Rheoliad (CE) 853/2004), ac eithrio'r rhannau hynny o'r Cod sy'n ymdrin â phuro molysgiaid dwygragennog byw.

**Monitro**

Cynnal cyfres o arsylwadau neu fesuriadau wedi’u cynllunio er mwyn cael trosolwg ar hyd a lled y gydymffurfiaeth â’r gyfraith bwyd.

**Monitro pysgod cregyn at ddibenion amgylcheddol**

Casglu samplau rheolaethau swyddogol o bysgod cregyn a dŵr o bwyntiau samplu dynodedig fel rhan o'r Rhaglenni Monitro Rheolaethau Swyddogol ar Bysgod Cregyn, yn unol ag Erthygl 57 a Phennod II o Deitl V o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627.

**Ni chaiff**

Mae’n nodi bod rhywbeth wedi'i wahardd.

**Perygl**

Mae i’r term hwn yr ystyr a ddiffinnir gan Erthygl 3(14) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 i olygu asiant biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu gyflwr bwyd neu fwyd anifeiliaid, a allai effeithio’n andwyol ar iechyd.

**Prif Awdurdod**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir ac yr amlinellir yn Adran 25 o Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008, sef, o ran person rheoledig, rheoleiddiwr cymwys a fydd yn arfer y swyddogaethau partneriaeth mewn perthynas â'r person hwnnw a enwebir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu o ran grŵp rheoledig, rheoleiddiwr cymwys a fydd yn arfer y swyddogaethau partneriaeth mewn perthynas ag aelodau'r grŵp a enwebir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Prosiect braenaru**

Prosiect sy’n rhan o raglen dan arweiniad yr ASB i wella ein dealltwriaeth o un o elfennau'r model rheoleiddio newydd. O wneud hynny, bydd prosiectau braenaru yn ein cynorthwyo i ganfod beth sy'n gweithio orau o ran ei roi ar waith. Caiff yr wybodaeth a enillir ei rhannu’n agored er budd y sefydliad/rhaglen ehangach.

**Risg**

Y siawns neu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael ei niweidio neu'n dioddef effaith

andwyol ar ei iechyd os daw i gysylltiad â pherygl.

**Rhaid**

Defnyddir y term hwn i gadarnhau rhwymedigaeth i wneud rhywbeth.

**Rheolaeth swyddogol**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 2(1) o Reoliad (UE) 2017/625, sef gweithgaredd a gyflawnir gan yr Awdurdodau Bwyd, neu gan y cyrff dirprwyedig neu'r personau naturiol y dirprwywyd rheolaethau swyddogol penodol iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625, i wirio a yw gweithredwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith ac a yw anifeiliaid neu nwyddau'n bodloni'r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad 2017/625, gan gynnwys er mwyn rhoi tystysgrif swyddogol neu ardystiad swyddogol.

**Rheoliadau Hylendid**

Fel y'u diffinnir gan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Rhybudd Bwyd**

Cyfathrebiad a anfonir gan yr ASB at Awdurdod Bwyd ynglŷn â pherygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd i beri iddi fod yn ofynnol iddo gymryd camau penodol/ymateb mewn ffyrdd penodol. Dylid darllen "Diweddariad ar Rybudd Bwyd" yn unol â hynny.

**Rhybudd Syml**

Ystyr rhybudd syml (a elwid gynt yn rhybudd ffurfiol neu'n rhybudd gan yr heddlu) yw rhybudd ffurfiol y caiff yr heddlu ei roi i bobl 18 oed a throsodd sy'n cyfaddef eu bod wedi cyflawni trosedd ("troseddwyr"). Bwriedir i'r cynllun rhybudd syml ddarparu dull o ymdrin â mân droseddau a gyflawnwyd yn bennaf gan bobl sy'n troseddu am y tro cyntaf heb eu herlyn. Dim ond pan fydd meini prawf penodol yn cael eu bodloni y caniateir rhoi rhybudd syml. Ceir mwy o fanylion yn nodyn cyfarwyddyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder: "Rhybuddion Syml i Droseddwyr sy'n Oedolion"

**Safle**

Ystyr safle yw unrhyw strwythur sefydlog neu symudol a ddefnyddir at ddibenion gweithrediad busnes bwyd.

**Safonau**

Rheolau neu egwyddorion a ddiffinnir yn y gyfraith diogelwch bwyd a ddefnyddir fel sail ar gyfer dyfarniad.

**Safonau Bwyd yr Alban**

Yr Awdurdod Bwyd Canolog yn yr Alban.

**Samplu**

Cymryd bwyd anifeiliaid neu fwyd neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys o'r amgylchedd) sy'n berthnasol i'r broses o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd neu i iechyd anifeiliaid, a hynny er mwyn ei ddadansoddi i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith bwyd anifeiliaid, y gyfraith bwyd neu'r rheolau

iechyd anifeiliaid.

**Sefydliad**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 2(c) o Reoliad (CE) 852/2004, sef unrhyw uned o fusnes bwyd.

**Sefydliad Brenhinol Iechyd Amgylchedd yr Alban**

Corff aelodaeth a dyfarnu ar gyfer sector iechyd yr amgylchedd.

**Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)**

Corff aelodaeth a dyfarnu ar gyfer sector iechyd yr amgylchedd.

**Sefydliad cymeradwy**

Sefydliad a gymeradwywyd yn unol ag Erthygl (4) o Reoliad (CE) 853/2004 er mwyn trin, paratoi a/neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

**Strategaethau Gorfodi Amgen**

Dulliau yw’r rhain a ddefnyddir i fonitro sefydliadau risg isel (sefydliadau categori E o ran hylendid bwyd a chategori C o ran safonau bwyd (yn unol â chynlluniau sgorio ymyriadau’r Cod) i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â’r gyfraith bwyd. Nid yw Strategaethau Gorfodi Amgen yn berthnasol i safleoedd a gymeradwyir yn unol â Rheoliad (CE) 853/2004.

**Swyddog awdurdodedig**

Mae’n golygu person (boed yn un o swyddogion yr awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Bwyd yn ysgrifenedig, naill ai’n gyffredinol neu’n benodol, i weithredu o ran materion sy’n codi o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Swyddog Bwyd Arweiniol**

Y Swyddog(ion) Bwyd Arweiniol Awdurdodedig a benodir gan yr Awdurdod Bwyd mewn perthynas â bwyd, sy'n dangos y gofynion a nodir yn y Cod, y Fframwaith Cymwyseddau a Phennod 3 o'r Canllawiau Ymarfer.

**Swyddog Iechyd Planhigion Swyddogol**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(33) o Reoliad (UE) 2017/625, sef person naturiol a benodir gan Awdurdod Bwyd, naill ai fel aelod staff neu fel arall, ac sydd wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â’r Rheoliad hwn a'r rheolau perthnasol y cyfeirir atynt ym mhwynt (g) o Erthygl 1(2).

**Tystiolaeth**

Gwybodaeth neu eitemau sy’n profi cyhuddiad.

**Tystysgrif swyddogol**

Mae i’r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(27) o Reoliad (UE) 2017/625, sef dogfen bapur neu electronig a lofnodwyd gan y swyddog ardystio sy'n rhoi sicrwydd bod y bwyd yn cydymffurfio ag un neu ragor o’r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt

yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Ymchwiliad**

Y camau a gymerir gan yr Awdurdod Bwyd i gasglu tystiolaeth os yw'n amau nad yw busnes yn cydymffurfio.

**Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus (CPHM)**

Os ceir achosion o wenwyn bwyd, rôl yr Ymgynghorydd hwn yw penderfynu a oes achosion *(outbreak)* gwirioneddol ac a ddylid cychwyn a chydgysylltu unrhyw gamau angenrheidiol, gan gynnwys defnyddio'r cynllun rheoli achosion lleol. Mae hefyd yn cynghori'r sawl sy'n gyfrifol am unrhyw gamau y mae angen eu cymryd ar unwaith i reoli'r achosion.

**Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy**

Rôl uwch yn y tîm diogelu iechyd sy'n arwain, yn rheoli ac yn goruchwylio'r swyddogaeth diogelu iechyd, gan gynnwys yr ymateb i ddigwyddiadau ac achosion.

**Ymyriad**

Camau rheoleiddio a gymerir gan lywodraeth er mwyn effeithio ar benderfyniadau a wneir gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau ynghylch materion cymdeithasol ac economaidd, neu er mwyn ymyrryd â'r penderfyniadau hynny. Ymhlith yr ymyriadau hyn mae rheolaethau bwyd swyddogol ac ymyriadau eraill fel addysg, cyngor a hyfforddiant, gwybodaeth a chasglu gwybodaeth (gan gynnwys samplu lle na chaiff y dadansoddiad ei wneud gan Labordy Rheoli Swyddogol).

**Ymyriadau amgen**

Mae ymyriadau amgen yn ymyriadau heblaw rheolaethau bwyd swyddogol a gynhelir mewn busnesau bwyd risg isel. Maent yn cynnwys strategaethau gorfodi amgen.

**Ymyriadau eraill**

Darparu addysg, cyngor a hyfforddiant mewn sefydliad bwyd, a chasglu gwybodaeth (gan gynnwys casglu samplau lle na na fydd y dadansoddiad na'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan Labordy Swyddogol).

**Ymyrraeth faleisus**

At ddibenion y Cod, mae'r term hwn yn cyfeirio at halogi bwyd yn fwriadol drwy weithgaredd terfysgol, neu gyda'r nod o flacmelio neu gribddeilio.

**Yn cydymffurfio**

Yn cydymffurfio â gofynion y gyfraith.

**Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd**

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn ganolbwynt cenedlaethol ar gyfer gorfodi'r gyfraith o ran achosion o dwyll difrifol a throseddau cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Ysgrifennu**

Mae i'r term hwn yr ystyr fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978, sef teipio,

argraffu, lithograffeg, ffotograffiaeth a dulliau eraill o gyfleu neu atgynhyrchu geiriau ar ffurf weladwy. Mae ymadroddion sy'n cyfeirio at ysgrifennu yn cael eu dehongli yn unol â hynny.

**Y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd**

Corff proffesiynol sy'n ymwneud â phob agwedd ar wyddoniaeth a thechnoleg bwyd.

**Y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI)**

Mae'r Sefydliad hwn yn cynrychioli gweithwyr proffesiynol safonau masnach sy'n gweithio yn y DU a thramor mewn Awdurdodau Bwyd, yn y sector busnes a'r sector defnyddwyr, ac mewn llywodraeth ganolog. Mae'r Sefydliad yn bodoli:

- i hyrwyddo ac i ddiogelu llwyddiant economi fywiog fodern
- i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles dinasyddion drwy wella proffesiynoldeb ei aelodau

# Atodiad 1 – Cynlluniau Sgorio Ymyriadau Sefydliadau Bwyd

Mae'r Atodiad hwn yn ymdrin â sgoriau ymyrryd hylendid bwyd a safonau bwyd, a'r amlderau lleiaf ar gyfer ymyriadau ym mhob sefydliad bwyd, ac eithrio sefydliadau cynhyrchu cynradd a bwyd anifeiliaid.

## A1.1. System Sgorio Hylendid Bwyd

### Rhan 1: Y perygl posibl

Mae tri ffactor yn pennu'r perygl posibl:

**A. Y math o fwyd a'r dull trin a thrafod**

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 40 | Cynhyrchwyr bwyd risg uchel (gan gynnwys y rhai sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) 853/2004), cyfanwerthwyr, a'r rheiny sy'n ail-lapio neu'n ailbecynnu bwydydd risg uchel. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bwydydd risg uchel fel bwydydd sy'n cynnal twf micro-organebau, a/neu y bwriedir eu bwyta heb driniaeth bellach a allai ddinistrio micro-organebau pathogenig neu eu tocsinau. |
| 30 | Paratoi, coginio neu drin a thrafod bwydydd risg uchel agored gan arlwywyr a manwerthwyr, ac eithrio arlwywyr sy'n paratoi llai nag 20 pryd ar ddiwrnod unigol (gweler isod). |
| 10 | Paratoi, coginio neu drin a thrafod bwydydd risg uchel agored gan arlwywyr bach sy'n gweini llai nag 20 pryd bwyd ar ddiwrnod unigol;<br><br>Trin a thrafod bwydydd risg uchel wedi'u pecynnu ymlaen llaw;<br>Cyfanwerthwyr a dosbarthwyr eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod;<br><br>Gweithgynhyrchu neu becynnu bwydydd heblaw am fwydydd risg uchel;<br><br>Sefydliadau sy'n ymwneud â ffiledu pysgod, eu halltu neu'u sychu mewn mwg oer i'w gwerthu i'r defnyddiwr terfynol. |
| 5 | Manwerthwyr sy'n trin a thrafod bwydydd heblaw am fwydydd risg uchel, fel ffrwythau, llysiau, cynhyrchion mewn caniau a chynhyrchion silff sefydlog.<br><br>Unrhyw fusnesau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**B. Dull prosesu**

Dylid rhoi sgôr ychwanegol o dan yr adran hon i sefydliadau sy’n defnyddio dull prosesu penodol (gan gynnwys y rheiny sy'n estyn oes silff y cynnyrch) a allai gynyddu’r risg i iechyd y cyhoedd tu hwnt i’r risg arferol sy’n gysylltiedig â choginio neu storio. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gellir dyrannu'r sgôr honno h.y. 20 yw’r sgôr uchaf y gellir ei rhoi o dan yr adran hon.

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 20 | Yr egwyddor bwysicaf i'w hasesu yw p'un a yw'r broses ei hun yn creu risg gynyddol a/neu ai'r bwriad yw cynyddu oes silff y cynnyrch drwy roi'r broses ar waith.<br><br>Isod, ceir rhestr o’r mathau o ddulliau prosesu y dylid rhoi sgôr ychwanegol o 20 ar eu cyfer. Nid yw’r rhestr hon yn gyflawn. Bydd angen i’r swyddogion awdurdodedig benderfynu ar ddulliau prosesu eraill nad ydynt wedi’u rhestru isod.<br><br>• Canio neu ddulliau aseptig eraill o becynnu bwyd asid isel;<br>• Pecynnu dan wactod;<br>• Coginio sous-vide;<br>• Gweithgynhyrchu bwyd sydd wedi'i goginio/oeri, h.y. prydau neu fwydydd wedi’u coginio a’u paratoi neu fwydydd y gellir eu bwyta’n oer neu ar ôl eu hailgynhesu. (Mae ailgynhesu prydau coginio-oeri yn syml wedi’i eithrio rhag cwmpas y paragraff hwn);<br>• Eplesu cigoedd, er enghraifft i gynhyrchu salami a selsig eraill wedi’u heplesu;<br>• Sychu yn yr aer, er enghraifft, hamiau sych, biltong, jerky; sychu drwy rewi;<br>• Ychwanegu halen a/neu sylweddau cadw eraill;<br>• Coginio ac oeri cynhyrchion cig cyn eu gweini, er enghraifft, cynhyrchu ham gan fanwerthwyr, gan gynnwys cigyddion.<br>• Sefydliadau sy’n gweithgynhyrchu, yn paratoi neu’n gweini bwyd risg uchel parod i’w fwyta heb ei goginio neu wedi’i goginio’n ysgafn sy’n dod o anifeiliaid ac y mae ei natur yn achosi perygl diogelwch bwyd microbiolegol gweddilliol. Bwriedir i hyn gynnwys arlwywyr/gweithgynhyrchwyr sy'n cynhyrchu bwyd megis stêc 'tartare' a phrydau cig amrwd eraill, carpaccio pysgod a chig, mathau o sushi neu sashimi, ceviche, a byrgyrs nad ydynt wedi'u coginio'n drylwyr. |
| 0 | Unrhyw achos arall nad yw wedi’i gynnwys uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

## C. Defnyddwyr sy’n wynebu risg

Nifer y defnyddwyr sy’n debygol o wynebu risg os bydd y gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn methu.

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 15 | Busnesau bwyd sy’n ymwneud â gweithrediadau gweithgynhyrchu, dosbarthu, pecynnu neu lapio bwyd sy’n cael ei gyflenwi’n genedlaethol neu’n rhyngwladol. |
| 10 | Busnesau sy’n gwasanaethu nifer sylweddol o gwsmeriaid, gan gynnwys cyfran sylweddol o’r tu allan i’r ardal leol, er enghraifft, archfarchnad enfawr, hyperfarchnad, arlwywr maes awyr, arlwywr ardal wasanaethau ar draffordd;<br><br>Gweithgynhyrchwyr nad ydynt wedi’u cynnwys yn y categori uchod. |
| 5 | Busnesau y mae'r rhan fwyaf o'u cwsmeriaid yn debygol o fod yn byw, yn aros neu'n gweithio yn yr ardal leol, er enghraifft, archfarchnad neu siop, siop gyfleus leol, bwyty stryd fawr neu fwyty lleol. |
| 0 | Busnesau sydd fel rheol yn cyflenwi llai nag 20 o ddefnyddwyr y dydd. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**<u>Yn ogystal</u>**

Dylid rhoi sgôr **ychwanegol** o 22 (yn ychwanegol at y sgôr uchod) i sefydliadau sy’n ymwneud â chynhyrchu neu weini bwyd y **bwriedir yn benodol** iddo gael ei fwyta gan ddefnyddwyr sy’n debygol o gynnwys grŵp o fwy nag 20 o bobl sy’n agored i niwed.

Yn y cyd-destun hwn, grwpiau sy'n agored i niwed yw'r grwpiau hynny sy’n cynnwys pobl sy'n debygol o fod yn fwy agored i effeithiau salwch sy'n deillio o hylendid bwyd gwael, fel y rheiny sy’n iau na 5 oed neu'n hŷn na 65 oed, pobl sydd eisoes yn sâl, neu bobl ag imiwnedd gwan.

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 22 | Cynhyrchu a/neu weini bwyd risg uchel mewn sefydliadau lle mae’r bobl a fydd yn bwyta’r cynnyrch yn y pen draw yn cynnwys grŵp o fwy nag 20 o bobl sy’n agored i niwed. |
| 0 | Unrhyw achos arall nad yw wedi’i gynnwys uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**Rhan 2: Lefel gydymffurfio (gyfredol)**

Dylid asesu gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (gan gynnwys arferion a gweithdrefnau trin a thrafod bwyd, a rheoli tymheredd) a strwythur y sefydliad (gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau ac ati) **ar wahân** gan ddefnyddio'r system sgorio isod.

Dylai'r sgôr adlewyrchu'r lefel gydymffurfio a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r canllawiau a nodir isod.

Mewn sefyllfaoedd pan fydd sefydliad yn methu â chydymffurfio o ran ei strwythur a'i weithdrefnau, dylai'r sgôr 'hylendid' a'r sgôr 'strwythurol' adlewyrchu'r diffyg cydymffurfio hwn.

| **Sgôr** | **Canllaw i'r system sgorio** |
|---|---|
| 25 | Braidd dim cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol. |
| 20 | Methiant cyffredinol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. |
| 15 | Peth diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – mae angen mwy o waith i atal safonau rhag gostwng. |
| 10 | Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant* na thybir ei fod yn sylweddol o ran risg (ond a allai fod yn sylweddol os na roddir sylw iddo). Safonau'n cael eu cynnal neu'u gwella. |
| 5 | Safon gydymffurfio uchel â rhwymedigaethau statudol, a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant*, gyda dim ond mân doriadau. |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant*; yn cydymffurfio ag arferion da perthnasol y diwydiant. |

*Os oes cod/canllawiau perthnasol wedi'u cyhoeddi ar gyfer y diwydiant.

| | |
|---|---|
| Sgôr – Hylendid: | |

| | |
|---|---|
| Sgôr – Strwythurol: | |

**Rhan 3: Hyder yn y rheolwyr/gweithdrefnau rheoli**

Dylai'r sgôr Hyder yn y Rheolwyr asesu a yw gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd busnes yn briodol, ac a ydynt yn nodi'r peryglon a'r rheolaethau cywir. Dylid asesu'r lefel gydymffurfio gyfredol yn sgil rhoi'r arferion ar waith wrth ystyried cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn Rhan 2.

Os yw'r rheolwyr wedi rhoi system rheoli diogelwch bwyd effeithiol ar waith a bod y gweithlu'n ei deall yn dda, dylent fod wedi cyrraedd safon dda yn Rhan 2, ac felly dylai fod ganddynt sgôr isel ar gyfer y ffactor risg hwnnw.

Ni fwriedir i'r adran Hyder yn y Rheolwyr ailystyried yr agwedd hon. Ei diben yw barnu pa mor debygol yw hi y bydd y sefydliad yn parhau i gydymffurfio'n foddhaol yn y dyfodol.

Gall yr asesiad o'r "rheolwyr" gynnwys dwy elfen: rheolaeth gorfforaethol (unrhyw systemau a phrosesau sydd ar waith ar draws y cwmni cyfan i reoli bwyd) a rheolaeth leol (y modd y mae rheolwyr lleol yn rhoi ar waith y systemau corfforaethol a'r systemau a'r prosesau eraill sydd ar waith mewn canghennau neu siopau penodol).

Os oes gan y sefydliad bartneriaeth â Phrif Awdurdod, gall y Prif Awdurdod ddarparu gwybodaeth y gellid ei hystyried wrth bennu sgôr Hyder yn y Rheolwyr o ran gweithredu systemau rheoli corfforaethol yn gywir. Ni ddylai'r swyddogion geisio ailasesu'r elfen rheolaeth gorfforaethol, ond dylent ystyried y sgôr ar sail y graddau y mae'r rheolwyr lleol yn rhoi'r systemau ar waith yn lleol. Dylent hefyd nodi y dylid ystyried hanes gweithredwr y busnes bwyd a hyfforddiant y staff, yn ogystal â'r camau a gymerwyd i roi gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP ar waith.

Caiff swyddogion hefyd adlewyrchu lefel y sicrwydd a ddarperir gan wiriadau a wneir o'r systemau rheoli diogelwch bwyd yn uniongyrchol mewn sefydliad unigol trwy drydydd parti annibynnol fel rhan o gynllun sicrwydd sy'n mynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Nid yw'r sgôr hyder yn y rheolwyr / gweithdrefnau rheoli yn ymwneud â gweithdrefnau cofnodedig a'r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith yn unig. Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:

- "hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar sail cyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion;
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd;
- gwybodaeth am hylendid a diogelwch bwyd, gan gynnwys dadansoddi peryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol;
- gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol;
- unrhyw gynlluniau sicrwydd perthnasol sy'n mynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r busnes yn rhan ohonynt.

Pan fyddant yn pennu'r hyn sy'n 'foddhaol' o ran gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP, dylai'r swyddogion ystyried, ar sail yr egwyddor cymesuredd, yr angen i gael gweithdrefn neu weithdrefnau parhaol sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, h.y. yn gymesur â natur a maint y busnes bwyd. Mewn rhai busnesau bwyd, nid oes pwyntiau rheoli critigol ar gael, ac mewn rhai achosion gall gweithdrefnau hylendid da gymryd lle camau i fonitro pwyntiau rheoli critigol. Mae angen bod yn hyblyg hefyd o ran y gofynion am i fusnesau gadw cofnodion, a hynny i osgoi rhoi baich gormodol ar fusnesau bach iawn.

O ran busnesau bach sy'n peri peryglon hylendid sylfaenol yn unig, gall fod yn ddigonol bod y busnes wedi rhoi arferion hylendid da ar waith a'i fod yn deall ac yn bodloni'r gofynion hanfodol. Mae angen cydbwyso'r gofyniad am gofnodion â natur a maint y busnes. Efallai na fydd gofyn cadw dogfennau a chofnodion o dan yr hyblygrwydd a roddir gan Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004. Dylai swyddogion ystyried canllawiau sy'n ymwneud â chymhwyso Erthygl 5 er mwyn iddynt farnu a yw'n ofynnol i'r busnes gael gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd cofnodedig, ac os felly, hyd a lled y dogfennau sydd eu hangen. Bydd hyd a lled y dogfennau sydd eu hangen yn amrywio o fusnes i fusnes gan ddibynnu ar y mathau o weithrediadau a gynhelir, pa mor gymhleth ydyn nhw, a hyd a lled y mesurau rheoli sydd ar waith.

| **Sgôr** | **Canllaw i'r system sgorio** |
|---|---|
| 30 | Hanes gwael o gydymffurfio.<br><br>Ychydig neu ddim gwybodaeth am ddiogelwch bwyd na dealltwriaeth ohono. Ychydig neu ddim dealltwriaeth o beryglon, risgiau neu fesurau rheoli ansawdd. Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd.<br><br>Nid yw'n cydnabod nac yn derbyn yr angen am reolaethau diogelwch bwyd a hylendid. |
| 20 | Hanes amrywiol iawn o gydymffurfio.<br><br>Gwybodaeth annigonol am ddiogelwch bwyd, a dealltwriaeth annigonol ohono. Dealltwriaeth wael o beryglon a mesurau rheoli.<br><br>Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd neu gynnydd anfoddhaol o ran datblygu, cofnodi a gweithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd, sy'n gymesur â'r math o fusnes, ers y sgôr ymyrryd ddiwethaf.<br><br>Mae'r rheolwr braidd yn gyndyn o gydnabod neu dderbyn bod angen rheolaethau diogelwch a hylendid bwyd. |

<table>
<tr><td>10</td><td>Hanes boddhaol o gydymffurfio.<br><br>Mynediad at ffynhonnell berthnasol i gael cyngor diogelwch bwyd a/neu ganllawiau ar arferion da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes. Dealltwriaeth o beryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith. Wedi rhoi gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol ar waith neu'n gwneud cynnydd boddhaol tuag at wireddu hynny, yn gymesur â'r math o fusnes bwyd.<br><br>Gwneud cynnydd boddhaol tuag at weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd cofnodedig sy’n gymesur â’r math o fusnes.<br><br>Gellir dyfarnu sgôr o 10 am fwy nag un cylch ymyrryd:<br><br>os yw’r busnes wedi mynd i'r afael â'r achosion blaenorol o ddiffyg cydymffurfio, ond bod achosion gwahanol wedi codi;<br>os nad yw'r risg gyffredinol wedi cynyddu.</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Hanes da o gydymffurfio.<br><br>Mae cyngor diogelwch bwyd ar gael yn fewnol neu gall gael cyngor technegol gan Brif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, cymdeithasau masnach a/neu Ganllawiau Arfer Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes, ac mae’n defnyddio’r cyngor hwnnw.<br><br>Mae peryglon yn cael eu rheoli’n effeithiol.<br><br>Mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol cofnodedig sy’n gymesur â’r math o fusnes.<br><br>Mae archwiliad gan Awdurdod Bwyd yn cadarnhau cydymffurfiaeth gyffredinol â'r gweithdrefnau, gyda mân achosion o ddiffyg cydymffurfio na thybir eu bod yn dyngedfennol o ran diogelwch bwyd.</td></tr>
<tr><td>0</td><td>Hanes rhagorol o gydymffurfio.<br><br>Mae cyngor diogelwch bwyd technegol ar gael yn fewnol neu gall gael cyngor technegol gan Brif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, cymdeithasau masnach a/neu Ganllawiau Arfer Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes, ac mae’n defnyddio’r cyngor hwnnw.<br><br>Gweithredwr/rheolwr busnes bwyd gwybodus a chymwys ar gael.<br><br>Mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol cofnodedig sy’n gymesur â’r math o fusnes, a gall fod prosesau archwilio allanol ar waith.<br><br>Mae archwiliad gan yr Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth dda â'r gweithdrefnau diogelwch bwyd.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**Yn ogystal**

Dylid cynnwys sgôr **ychwanegol** o 20 (yn ychwanegol at y sgôr uchod) os oes risg sylweddol:

- y caiff bwyd ei halogi â *Clostridium botulinum* ac y bydd y micro-organeb yn goroesi unrhyw brosesu ac yn lluosi; neu
- fod bwyd parod i'w fwyta wedi'i halogi, neu y bydd yn cael ei halogi, â micro-organebau neu eu tocsinau sy'n bathogenig i bobl, er enghraifft, *E.coli* O157 neu VTEC arall, *Salmonella* sp., *Bacillus cereus.*

Yn y cyd-destun hwn, ystyr risg sylweddol yw bod digwyddiad yn debygol o ddigwydd. Dylid ystyried y materion a ganlyn wrth asesu'r ffactor hwn:

- y posibilrwydd y gallai'r micro-organebau penodedig halogi neu groeshalogi bwyd;
- y tebygolrwydd y bydd y micro-organebau penodedig yn goroesi ac yn tyfu;
- bodolaeth gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP a hyder yn y ffordd y cânt eu gweithredu, gan gynnwys dogfennau a chofnodion monitro'r rheolaethau;
- graddau a pherthnasedd yr hyfforddiant a roddir i reolwyr, goruchwylwyr a'r rhai sy'n trin a thrafod bwyd;
- p'un a oes angen i'r Awdurdod Bwyd ymyrryd fel bod digwyddiad yn llai tebygol.

Rhaid rhoi'r sgôr ychwanegol fesul achos yn unig; ni chaniateir ei rhoi'n gyffredinol i gategorïau cyfan o sefydliadau busnes bwyd, a rhaid ei dileu adeg yr arolygiad nesaf os nad yw'r risg sylweddol yn bodoli mwyach.

Rhaid i'r sgôr ychwanegol hefyd fod yn gyson â'r asesiad sylfaenol o Hyder yn y Rheolwyr/Systemau Rheoli. Os rhoddir sgôr o 0 neu 5 ar gyfer hyder yn y rheolwyr, ac os asesir hefyd bod risg sylweddol y caiff bwyd ei halogi ag un o'r micro-organebau penodedig, rhaid bod un o'r asesiadau yn anghywir a dylid adolygu'r ddau. Os oes hyder uchel neu gymedrol yn y Rheolwyr/Systemau Rheoli, ni ddylai'r sefydliadau beri risg sylweddol.

| **Sgôr** | **Canllaw i'r system sgorio** |
|---|---|
| 20 | Risg sylweddol bod bwyd yn cael ei halogi â *Cl. botulinum,* a bod yr organeb yn goroesi unrhyw brosesu ac yn lluosi; neu<br><br>Risg sylweddol bod bwyd parod i'w fwyta yn cael ei halogi â micro-organebau neu eu tocsinau sy'n bathogenig i bobl. |
| 0 | Unrhyw achos arall nad yw wedi'i gynnwys uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

| Sgoriau arolygu: | | | | | | | | | Cyfanswm: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Rhan 4: Pa mor aml y mae’n ofynnol cyflawni ymyriadau hylendid bwyd**

| Categori | Sgôr | Pa mor aml y mae’n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|---|
| A | 92 neu uwch | O leiaf bob 6 mis |
| B | 72 i 91 | O leiaf bob 12 mis |
| C | 42 i 71 | O leiaf bob 18 mis |
| D | 31 i 41 | O leiaf bob 24 mis |
| E | 0 i 30 | Rhaglen o strategaethau neu ymyriadau gorfodi amgen bob tair blynedd |

Nid oes angen cynnwys sefydliadau sydd wedi'u sgorio fel sefydliadau risg isel (30 neu lai) yn y rhaglen arolygiadau a gynllunnir. Os na chânt eu cynnwys yn y rhaglen honno, mae'n rhaid eu cynnwys mewn strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith bob 3 blynedd.

### A1.2 System Sgorio Safonau Bwyd

**Rhan 1: Y risg bosibl**

**A. Risg i ddefnyddwyr a/neu i fusnesau eraill**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried yr effaith andwyol bosibl ar ddefnyddwyr, a'r goblygiadau i fusnesau eraill os nad yw'r busnes yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth safonau bwyd. Mae effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr yn cynnwys diogelwch ac anfantais economaidd. Ymhlith y goblygiadau i fusnesau eraill mae effeithiau economaidd masnachu annheg.

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 30 | Cynhyrchwyr bwyd ar gyfer grwpiau penodol;<br>Cynhyrchwyr, mewnforwyr neu becynwyr bwydydd uchel eu gwerth, neu fwydydd a werthir mewn symiau mawr lle ceir cymhelliant i ddifwyno bwyd yn dwyllodrus;<br>Gweithgynhyrchwyr bwydydd sy’n cynnwys ystod eang o ychwanegion;<br>Busnesau sy’n gwneud honiadau ynghylch maeth, cynnwys maethynnau, neu iechyd ar labeli bwyd wedi’i becynnu ymlaen llaw neu mewn hysbysebion;<br>Busnesau bwyd, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a mewnforwyr, sy’n trin a thrafod cynhwysion bwyd neu fwydydd wedi’u mewnforio a all wynebu mwy o risg o gael eu halogi’n gemegol. |
| 20 | Gweithgynhyrchwyr neu becynwyr bwyd sy’n destun safonau cyfansoddiadol statudol. |
| 10 | Busnesau lleol sy’n defnyddio labeli a gynhyrchir yn y siop, arddangosfeydd ffenestr, byrddau sialc, bwydlenni ac ati, er enghraifft, cigyddion, pobyddion, siopau bwyd iach, bwytai, siopau tecawê, arlwywyr sy’n cyflenwi mwy na 10 pryd y diwrnod, a busnesau sy’n gwneud defnydd o honiadau er manteision marchnata. |

| | |
|---|---|
| 0 | Arlwywyr nad ydynt yn cyflenwi mwy na 10 pryd y diwrnod e.e. llety gwely a brecwast;<br>Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**B. Y graddau y mae gweithgareddau'r busnes yn effeithio ar unrhyw berygl**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried y math o weithgareddau y mae'r busnes bwyd yn ymgymryd â nhw, yr angen i'r gweithgareddau hynny gael eu monitro a'u rheoli'n fanwl, a'u heffeithiolrwydd posibl o ran cynnal cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth safonau bwyd. Dylid ystyried a yw'r busnes yn cynhyrchu, yn labelu neu'n hysbysebu cynhyrchion y mae'r gyfraith safonau bwyd yn berthnasol iddynt. Os yw'r busnes yn cynhyrchu ei gynhyrchion ei hun, dylid ystyried y camau i fonitro ac i reoli ryseitiau a chynhwysion.

Mae'r sgoriau isod yn rhoi enghreifftiau o fusnesau bwyd y gallai sgôr benodol fod yn berthnasol iddynt.

| **Sgôr** | **Canllaw i'r system sgorio** |
|---|---|
| 30 | Gweithgynhyrchwyr, proseswyr, mewnforwyr bwyd sy'n trin a thrafod ystod eang o nwyddau. |
| 20 | Busnesau lleol sy'n labelu nwyddau rhydd sy'n cael eu harddangos, a/neu'n pecynnu nwyddau ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol. |
| 10 | Manwerthwyr/arlwywyr nad ydynt yn gweithgynhyrchu sy'n gwerthu o'u sefydliad eu hunain yn unig. |
| 0 | Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**C. Rhwyddineb cydymffurfio**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried maint a chymhlethdod y gyfraith safonau bwyd sy'n berthnasol i'r busnes ac y mae'n gyfrifol am gydymffurfio â hi. Dylid ystyried ystod a chymhlethdod y cynhyrchion, y prosesau a'r gwasanaethau, gan gynnwys cysondeb deunyddiau crai. Dylid ystyried anhawster y dasg o safbwynt gweithredwr y busnes bwyd, gan gynnwys pa mor hawdd yw hi i adnabod perygl.

| **Sgôr** | **Canllaw i'r system sgorio** |
|---|---|
| 30 | Gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr ystod eang o gynhyrchion. |
| 20 | Gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr ystod gyfyng o gynhyrchion. |
| 10 | Manwerthwyr sy'n rhoi disgrifiadau ar fwyd, fel cigyddion, pobyddion a siopau delicatessen;<br>Arlwywyr â bwydlenni cymhleth. |

| | |
|---|---|
| 0 | Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**D. Defnyddwyr sy'n wynebu risg**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried nifer y defnyddwyr sy'n debygol o wynebu risg os nad yw'r busnes yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth safonau bwyd.

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 20 | Gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a phecynwyr bwyd sy'n cael ei ddosbarthu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. |
| 10 | Busnesau sy'n masnachu tu hwnt i'r ardal leol, er enghraifft, archfarchnad/hyperfarchnad ranbarthol, gweithgynhyrchwr lleol ar raddfa fach. |
| 5 | Busnesau sy'n cyflenwi'r ardal leol, er enghraifft, siop ar y stryd fawr, siop gornel, archfarchnad leol, bwyty lleol. |
| 0 | Busnesau sy'n cyflenwi llai na 30 o ddefnyddwyr y dydd. Unrhyw fusnes arall nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**Rhan 2: Lefel gydymffurfio (gyfredol)**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried y lefel gydymffurfio a welwyd yn ystod yr arolygiad. Dylid ystyried cydymffurfiaeth â Chanllawiau Diwydiant perthnasol y DU neu'r UE ar Arferion Da a chanllawiau eraill o'r fath, er enghraifft, canllawiau'r ASB, y Pwyllgor Cynghori ar Fwyd, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

| Sgôr | Canllaw i'r system sgorio |
|---|---|
| 40 | Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol. Safonau'n gyffredinol isel. |
| 10 | Busnes nodweddiadol gyda rhai mân enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant; yn cydymffurfio ag arferion da perthnasol y diwydiant. |

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**Rhan 3: Hyder yn y rheolwyr / systemau rheoli**

Mae perfformiad y rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac a welir. Dylai trefn reoli sy'n perfformio'n dda o ran safonau bwyd, ac y mae'r gweithlu yn ei deall yn dda, gyflawni safon dda yn Rhan 2, ac felly dylai gael sgôr isel ar gyfer y ffactor hwnnw.

Ni fwriedir i'r adran Hyder yn y Rheolwyr ailystyried yr agwedd hon. Ei diben yw barnu pa mor debygol yw hi y bydd y sefydliad yn parhau i gydymffurfio'n foddhaol yn y dyfodol.

Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:

- “hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar sail cyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion;
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at ddeddfwriaeth safonau bwyd, a phresenoldeb neu ddiffyg presenoldeb trefniadau awdurdod cartref neu awdurdod gwreiddiol perthnasol;
- gwybodaeth dechnegol fewnol neu allanol am faterion safonau bwyd ar gael i'r cwmni;
- presenoldeb systemau ansawdd, gan gynnwys asesiadau o gyflenwyr a threfniadau i fonitro perfformiad, sy'n briodol o ystyried maint y busnes a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef, ac sy'n diffinio'r cyfrifoldebau dros reoli risg yn glir;
- o ran busnesau bach, dylid ystyried y gwiriadau sy'n briodol i'r busnes hwnnw.

| **Sgôr** | **Canllaw i'r system sgorio** |
|---|---|
| 30 | Fawr ddim gwybodaeth dechnegol os o gwbl.<br>Fawr ddim dealltwriaeth o beryglon na rheoli ansawdd os o gwbl. Dim system rheoli safonau bwyd.<br>Nifer anghymesur o gŵynion y gellir eu cyfiawnhau ers yr arolygiad blaenorol. Hanes gwael o gydymffurfio. |
| 20 | Staff â dealltwriaeth sylfaenol o'r gyfraith bwyd berthnasol. Mae'n bosibl nad oes system rheoli safonau bwyd ar gael. Hanes amrywiol iawn o gydymffurfio. |
| 10 | Sgôr o 10 neu well yn Rhan 2.<br>Staff yn arddangos ymwybyddiaeth o'r gyfraith bwyd berthnasol a'r rheolaethau angenrheidiol.<br>System rheoli safonau bwyd briodol.<br>Efallai na fydd gan fusnesau llai system gofnodedig helaeth.<br>Hanes boddhaol o gydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| 0 | Cyngor technegol ar gael. Yn destun archwiliad/gwiriadau mewnol.<br>System rheoli safonau bwyd dda, cofnodion o wiriadau critigol a gwiriadau cyflenwyr, a all fod yn destun archwiliad gan drydydd parti.<br>Tystiolaeth o gydymffurfio â system reoli gofnodedig heb lawer o achosion o ddiffyg cydymffurfio.<br>Dim cwynion y gellir eu cyfiawnhau ers yr arolygiad blaenorol. Hanes rhagorol o gydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| Sgôr: | |

**A1.3 Pa mor aml y dylid cynnal ymyriadau safonau bwyd**

| Categori | Sgôr | Pa mor aml y mae'n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|---|
| A | 101 i 180 | O leiaf bob 12 mis |
| B | 46 i 100 | O leiaf bob 24 mis |
| C | 0 i 45 | Ymyriad neu strategaeth orfodi amgen bob pum mlynedd |

Nid oes angen cynnwys sefydliadau risg isel (45 neu lai) yn y rhaglen arolygu a gynllunnir, ond mae'n rhaid iddynt fod yn destun strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith pob 5 mlynedd.